



Rhaglen Gyflawn

**Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee**

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD GWENER, 21AIN MAWRTH, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Sioned Mai Jones

01286 679665

sionedmajones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 13 Mawrth 2025)

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan - Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Gary Pritchard - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Dave Hughes - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Nia Jeffreys - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Edgar Wyn Owen – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Iareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Alwyn Jones – Prif Weithredwr Dros Dro - Cyngor Wrecsam
Jonathan Cowley – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Alwen Williams - Prif Weithredwr Dros Dro y Cyd-Bwyllgor
Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 2025 fel rhai cywir.

5. TROSGLWYDDO'R BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD A'R CYNLLUN TWF I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

8 - 61

Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro ac Iwan Evans, Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad.

6. IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

62 - 69

Iwan Evans, Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad.

7. BWRDD BUSNES YMGYNGHOROL AC YMGYNGHORWYR ANWEITHREDOL

70 - 79

Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau i gyflwyno'r adroddiad.

8. RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT

80 - 100

Iwan Evans, Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad.

9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau busnes cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r

adroddiad yn benodol ynglŷn a chytuno trefniadau penodi gan gynnwys manylion swydd a amodau a thelerau cyflog fydd yn destun proses recriwtio gystadleuol. Nodaf hefyd y bydd y wybodaeth a gytunir yn cael ei gyhoeddi fel rhan o broses benodi agored. Gall cyhoeddi gwybodaeth drafft yma yn gynamserol danseilio y broses recriwtio. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma rwy'n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

10. PENODI PRIF WEITHREDWR AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd i gyflwyno'r adroddiad.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD 21/02/25

Yn bresennol: Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Y Cynghorwyr:

Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Menna Trenholme (Cyngor Gwynedd) ac Edgar Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Prif Swyddogion: Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Iarll (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Swyddogion Statudol

Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) ac Iwan Evans (Swyddog Monitro).

Swyddogion eraill yn bresennol

Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro), Dave Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cydbwyllgor Corfforedig), Jack Latkovic (Swyddog Democratiaeth Cydbwyllgor Corfforedig), Iain Taylor (AMION Consulting) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Nia Jeffreys gyda'r Cynghorydd Menna Trenholme yn dirprwy.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2025 fel rhai cywir.

5. BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD A CHYMERADWYAETH PORTH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC ac Iain Taylor (Ymgynghorydd Arweiniol – Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam).

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r dyraniadau ariannol a gynigir yn Atodiad 1.

Dirprwyo Prif Weithredwr Dros Dro y CBC a'r Swyddog S151, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y CBC, gyda Chynghorau Wrecsam a Sir y Fflint i gytuno ar unrhyw fan addasiadau i'r dyraniadau sy'n codi o baratoi cyflwyniad Porth 4. Er mwyn osgoi amheuaeth, "man addasiadau" yw'r rheini lle nad oes newid o fwy na 10% i gyllid unrhyw bennawd a gytunwyd arno, ac nid ydynt yn cynnwys symudiad rhwng cyllid cyfalaf a reffeniw.

Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a gofyn bod y Pyrth sy'n weddill (4 a 5) yn cael eu cyflwyno am gymeradwyaeth, ynghyd â phenderfyniad terfynol ar gynnig y Parth Buddsoddi mewn cyfarfod yn y dyfodol, unwaith mae'r Memorandwm Cydddealltwriaeth (MoU) a'r Pyrth wedi'u cytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd i sicrhau Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam. Esboniwyd bod yr adroddiad yn dangos dyraniadau arfaethedig y cyllid hyblyg o £160m i themâu ac ymyraethau'r Parth Buddsoddi.

Cyfeiriwyd at borth 3 sy'n ymdrin â'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer y parth buddsoddi. Esboniwyd bod y cynigion ar gyfer llywodraethu y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod diwethaf wedi eu pasio i'r Llywodraeth ar gyfer eu hystyriaeth a disgwylir adborth dros yr wythnosau nesaf ar statws porth 3.

Manylwyd ar borth 4 sef y porth ymyraethau sydd hefyd yn cael ei weld fel gwerthusiad y trysorlys o effaith y parth buddsoddi. Gofynnwyd am ystyriaeth y Cyd-bwyllgor o ddyraniadau cychwynnol yr ymyraethau hynny a chaniatáu i'r Cyd-bwyllgor barhau i weithio efo'r Llywodraeth i fireinio a sefydlu porth 4. Nodwyd y bydd yn hyn galluogi'r Cyd-bwyllgor i symud at borth 5 sef y Cynllun Cyflawni.

Cadarnhau bod cynnydd da yn cael ei wneud ar y themâu allweddol a diolchwyd i bawb sydd ynghlwm a'r gwaith ac sydd wedi cefnogi'r broses.

Diolchwyd am yr adroddiad a diolchwyd i Brif Weithredwr dros dro'r CBC a'r tîm ac i'r Ymgynghorydd Arweiniol am eu gwaith. Credwyd bod y gwaith yn symud yn ei flaen ar gyflymder a bod hynny'n braf i'w weld. Cydnabuwyd bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud a bod llawer o waith ar y gweill ond bod lefelau hyder yn uchel iawn a bod y Llywodraeth hefyd yn gefnogol o'r gwaith.

Ategwyd y sylwadau uchod gan fynegi balchder o'r cynnydd a wnaed a nodwyd fod y prosiect yn un cyffrous iawn ac efo'r potensial i gyfoethogi ardaloedd Gogledd Cymru gan annog diwydiannau i leoli yma.

Awgrymwyd ychwanegu'r geiriad "mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y CBC" i gymal 2.2 o'r penderfyniad a geisir. Mynegwyd cefnogaeth i'r addasiad hwn a chytunwyd a'r ychwanegiad.

6. TROSGLWYDDO'R CYNLLUN TWF I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC ac Iwan Evans, Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD

Derbyn y diweddariad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i baratoi ar gyfer trosglwyddiad arfaethedig y Cynllun Twf, ei gyllid a'r PMO i'r CBC ar 1 Ebrill, 2025.

Cyflwyno adroddiad penderfynu pellach i gyfarfod nesaf y CBC ar 21 Mawrth, 2025 i ddarparu ei benderfyniad ffurfiol i dderbyn y trosglwyddiad ac ymrwymo i'r cytundeb Cyflawni ac Ariannu ar gyfer trosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd sydd wedi ei wneud i drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Cyfeiriwyd at y penderfyniadau a geisir fel sydd wedi eu rhestru yn rhan 2 o'r adroddiad.

Ymhelaethwyd ar y camau allweddol sy'n weddill i weithredu'r trosglwyddiad fel sydd wedi eu rhestru yn rhan 5.1 o'r adroddiad gan nodi bod hyn yn crynhoi'r sefyllfa gyfredol. Esboniwyd bod y papurau trosglwyddo a'r cytundebau drafft bellach gyda'r Awdurdodau a nodwyd bod sgwrs bellach angen ei chynnal efo Llywodraeth Cymru i gadarnhau union lwybr y cytundeb amnewid.

Cadarnhawyd fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd, disgwylir penderfyniad olaf yr Awdurdodau Lleol ar 25 Mawrth 2025, yn ôl rhaglenni Cabinet y Cynghorau. Hyderir y bydd y penderfyniadau yn cael eu cadarnhau a bwriedir arwyddo'r cytundeb law yn llaw efo'r penderfyniad er mwyn osgoi gorfod aros tan 25 Mawrth i orffen pob rhan o'r broses hon. Mynegwyd hyder bod yr amserlen yma'n gyflawnadwy.

Nodwyd bod gweddill y prosiect yn barod i symud ymlaen. Nodwyd bod y broses yn un eithaf deinamig ar hyn o bryd a bod rhai materion yn parhau i fod angen eu cadarnhau efo partneriaid ond parheir i weithio tuag at y dyddiad gan nodi bod y rhaglen yn disgyn i'w lle.

Diolchwyd i'r Swyddog Monitro ac i Brif weithredwr dros dro'r CBC am y diweddariad. Mynegwyd balchder o weld y cynnydd hwn gan gydnabod ei fod yn ddarn o waith cymhleth iawn gyda llawer o bartneriaid gwahanol i ymgysylltu a hwy.

Diolchwyd i bawb am y gwaith sydd wedi ei wneud i gyrraedd y pwynt yma. Gofynnwyd i unrhyw oedi posibl i gael ei drafod yn syth efo Cadeirydd ac Is-gadeirydd y CBC, gan obeithio na fydd oedi. Cadarnhawyd y bydd diweddariad prydlon yn cael ei ddarparu pe bai unrhyw newid i'r amserlen arfaethedig.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 13:50.

(Cadeirydd)



CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

21 Mawrth , 2025

TEITL: Trosglwyddo'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a'r Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro
Iwan Evans, Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cytuno i drosglwyddo rôl a swyddogaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, yn cynnwys trosglwyddo staff, adnoddau, atebolrwydd ac asedau ariannol, yn cynnwys trosglwyddo'r Cynllun Twf a'r cyllid ar neu cyn 31 Mawrth, 2025.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cytuno i ymrwymo i Gytundeb Cyflawni ac Ariannu (**Atodiad 1**) lle trosglwyddir rôl corff Cyfrifol, cyfrifoldeb am gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r trefniadau ariannu ar gyfer y Cynllun Twf i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar neu cyn 31 Mawrth, 2025.

2.2. Cytuno i amnewid ac aseinio (**Atodiad 2**) yn ôl yr angen, cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r hawliau a'r rhwymedigaethau ym mhob cytundeb ariannu sy'n dod i mewn a ddelir gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran trosglwyddiad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("Y Bwrdd Uchelgais") i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ("CBC") ar neu cyn 31 Mawrth, 2025.

2.3. Cytuno i drosglwyddo ac amnewid ac neu aseinio'r holl fuddiannau ym mhorthffolio prosiectau a ariennir gan Gynllun Twf Gogledd Cymru ynghyd ag unrhyw gytundebau, taliadau a phrydlesi ategol gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran y Bwrdd Uchelgais i CBC y Gogledd ar neu cyn 31 Mawrth, 2025.

2.4. Cytuno i drosglwyddo a/neu aseinio'r holl falansau ariannol, arian sy'n ddyledus ac asedau fel a ddelir ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan Gyngor Gwynedd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar neu cyn 31 Mawrth, 2025.

2.5. Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, i gytuno a gweithredu'r cytundebau, gweithredoedd a'r holl ddogfennau cyfreithiol terfynol eraill sy'n angenrheidiol i weithredu'r trosglwyddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (2.1) (2.2) a (2.3) uchod erbyn neu cyn 31 Mawrth, 2025.

2.6. Cytuno i drosglwyddo atebolrwydd i'r CBC a bod y CBC yn derbyn cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru ym amodol ar amnewid y Cynllun Twf a chymeradwyo Rheolau Sefydlog ychwanegol sy'n ymgorffori telerau allweddol y Cytundeb Cyd-weithio ("GA2") rhwng y 6 Cyngor Cyfansoddol a 4 parti Addysg.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Yn dilyn y cytundeb neu'r ymrwymiad i gadarnhau (cyn 26 Mawrth) gan bob un o swyddogion gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y "Cynghorau Cyfansoddol"); a chonsensws gan Fyrddau Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai, i drosglwyddo gweithrediad Cynllun Twf Gogledd Cymru i CBC y Gogledd, mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ar gyfer penderfyniadau i weithredu a hwyluso'r trosglwyddiad arfaethedig ar neu cyn 31 Mawrth 2025.

4. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Ar 17 Rhagfyr, 2020, ymrwymodd y Cynghorau Cyfansoddol, ynghyd â Phrifysgolion Bangor a Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai, i Gytundeb Cydweithio ("GA2"), a sefydlodd Gyd-bwyllgor oedd yn gyfrifol am gymryd trosolwg a chydlynu rhyddhau rhwymedigaethau'r Cynghorau mewn perthynas â Chynllun Twf Gogledd Cymru a chyflawni Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru. Fel rhan o'r trefniadau hynny, penodwyd Cyngor Gwynedd i weithredu fel Awdurdod Lletya ar gyfer y bartneriaeth ac ef yw'r Corff Cyfrifol.
- 4.2. Sefydlodd rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig - CBC y Gogledd, CBC y De -orllewin, CBC y De-ddwyrain a CBC y Canolbarth - gyda'r nod o gryfhau cydweithredu rhanbarthol rhwng awdurdodau. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff cyhoeddus - gyda phwerau a dyletswyddau cymharol debyg i awdurdodau lleol - a rhoddwyd swyddogaethau statudol iddynt o ddatblygu polisiau trafnidiaeth rhanbarthol, paratoi Cynllun Datblygu Strategol, a gwneud unrhyw beth y mae'r CBC yn ei ystyried yn debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd ei ardal. Mae aelodaeth y CBC yn cynnwys Arweinyddion Gweithredol y Cynghorau yn y rhanbarth penodol, ynghyd â Chadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn achos y Gogledd. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ffurfiol ym mis Ebrill 2021 a daeth ei swyddogaethau i rym ym mis Mehefin 2022.
- 4.3. Mae'r CBC yn gorff corfforedig ynddo'i hun, sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol, dal asedau a rheoli cyllid, heb yr angen i weithredu drwy Gorff Atebol. Mae'r Cynghorau Cyfansoddol wedi penderfynu neu wedi ymrwymo i, ymhellach i'w penderfyniadau mewn egwyddor yn 2021/22, drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC. Deilliodd yr ysgogiad strategol cyffredinol i drosglwyddo o'r gydberthynas rhwng y Bwrdd Uchelgais ac aelodaeth y CBC, y dymuniad i osgoi nifer fawr o gyrrff rhanbarthol sydd â swyddogaethau tebyg, a manteision ac effeithlonrwydd cyfreithiol a gweithredol amrywiol y CBC gan ei fod yn endid corfforedig ynddo'i hun.
- 4.4. Gwnaed y penderfyniadau gwreiddiol mewn egwyddor yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r CBC yn parhau i ddatblygu, ac yn wir, daeth y gyfres derfynol o Reoliadau cychwynnol i rym ar 1 Ebrill, 2023. Mae'r Rheoliadau hyn o berthnasedd uniongyrchol ac ymhlyg ar gyfer y trosglwyddiad arfaethedig, yn enwedig o ran trethiant a staffio. Cydnabyddir na ddarparwyd ar gyfer rhai darpariaethau statudol disgwylidig. Fodd bynnag, ystyrir y bydd y trefniadau trosglwyddo arfaethedig yn darparu fframwaith llywodraethu a fydd yn bodloni ac yn mynd i'r afael â'r materion a godir, er drwy lwybr gwahanol.
- 4.5. Bellach mae gan CBC y Gogledd statws gweithredu llawn, sy'n golygu y gall CBC y Gogledd weithredu fel endid corfforedig, mae ganddo'r gallu i gyflogi pobl, ac mae ganddo'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol yn eu lle. Mae hyn yn darparu'r prif fframwaith llywodraethu a fydd yn galluogi i'r CBC weithredu fel awdurdod cyhoeddus ar draws ei holl swyddogaethau.

- 4.6. Er mwyn cyflawni statws gweithredu llawn a throsglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru i CBC y Gogledd, mae angen cyfres o benderfyniadau:
- (a) Cydsyniad i drosglwyddo llythyrau ariannu Cynllun Twf Gogledd Cymru a chytundebau ariannu eraill sydd ar hyn o bryd yn enw Cyngor Gwynedd (gan weithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth Corff Cyfrifol) a rôl corff atebol, i CBC y Gogledd.
 - (b) Cydsyniad i drosglwyddo'r holl gyfrifoldebau ariannol o Gyngor Gwynedd (gan weithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth Corff Cyfrifol) i CBC y Gogledd. Bydd hyn yn cynnwys y fantolen (yr holl asedau a rhwymedigaethau) yn ogystal â'r portffolio o brosiectau'r Cynllun Twf a phrosiectau eraill.
 - (c) Nodi strwythur llywodraethu newydd arfaethedig CBC y Gogledd.
 - (d) Cytundeb trefniadau trosiannol i gefnogi'r trosglwyddiad arfaethedig.
 - (e) Dirprwyaethau swyddog priodol i weithredu'r uchod; a
 - (f) Blaengynllunio'r camau nesaf.

Trosglwyddo Cytundebau Ariannu

- 4.7. Er mwyn trosglwyddo Cytundeb Ariannu Cynllun Twf Gogledd Cymru o Gyngor Gwynedd (sy'n gweithredu fel Corff Atebol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais) i CBC y Gogledd, mae Llywodraeth Cymru, Cyngorau Cyfansoddol a CBC y Gogledd yn ymrwymo i gytundeb amnewid. Mae'r cytundeb amnewid ei hun yn ddogfen syml, sy'n mynd ati i ddisodli Cyngor Gwynedd (y parti sy'n gadael) gyda CBC y Gogledd (y parti sy'n dod i mewn) yn y cytundeb gyda Llywodraeth Cymru (y parti sy'n weddill) - **Atodiad 2**.
- 4.8. Mae Gweinidog Cymru dros yr Economi wedi cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i gydsynio i'r amnewidiad erbyn neu cyn 31 Mawrth, ac mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cadarnhau bod Llywodraeth y DU yn cefnogi'r trosglwyddiad yn llawn. Rydym yn disgwyl cadarnhad o'r trefniadau ffurfiol i ganiatáu y trosglwyddiad.
- 4.9. Dyma fydd effaith yr amnewid; o 00:01 o'r gloch ar 31 Mawrth 2025, bydd holl hawliau a rhwymedigaethau'r Corff Atebol (Cyngor Gwynedd) o dan Gytundeb Ariannu Cynllun Twf Gogledd Cymru (boed yn codi cyn, ar neu ar ôl y dyddiad amnewid) yn trosglwyddo i CBC y Gogledd, a fydd yn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel rhan o'i swyddogaethau, a bydd y Cyngorau Cyfansoddol yn cael eu rhyddhau o'u rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Twf (GA2). Bydd Llywodraeth Cymru a CBC y Gogledd yn cytuno i gael eu rhwymo gan delerau Cytundeb gwreiddiol Ariannu'r Cynllun Twf fel pe bai'r CBC yn barti gwreiddiol i'r cytundeb yn lle'r Corff Atebol.

Ymrwymadau Ariannu yn GA2 a Chronfeydd a ddelir gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran y Bwrdd Uchelgais

- 4.10. Mae GA2 yn darparu fframwaith referniw sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd Uchelgais a'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Ar 31 Mawrth, 2024 roedd gan y Cyd-bwyllgor falans arian parod o £58.9m a oedd yn cynnwys grant Cynllun Twf Gogledd Cymru o £53m (grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw) a £5.2m o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio.

Gellir gweld y datganiad cyfrifon ar gyfer 2023/24 [yma](#), a gellir gweld y fantolen ar dudalen 10.

Mae'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio (Nodyn 10) yn cynnwys y gronfa wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi cyllidebau a strwythur staffio'r dyfodol (£0.28m), prosiectau wrth gefn i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol (£0.15m) a'r gronfa llog i ariannu'r gost o fenthycia yn y blynyddoedd i ddod (£4.73m).

Bydd set lawn o gyfrifon yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y cyfnod cyn trosglwyddo o Ebrill 2024 i Hydref 2024, gyda'r balansau ar 31 Hydref 2024 yn cael eu trosglwyddo i'r CBC.

- 4.11. Mae'r trefniant hwn yn gonglfaen allweddol wrth gyflawni'r Cynllun Twf ac mae'n ymrwymiad cytundebol gan y 10 llofnodwr i GA2. Felly, mae'r Cytundeb Partneriaeth wedi'i gynllunio i gynnal y trefniant ariannu hwn ar yr un telerau â GA2. Bydd hyn yn galluogi parhau i gyflawni'r Cynllun Twf ac fe'i hystyrir yn ymrwymiad cyllido allweddol sy'n caniatáu i'r CBC gymryd cyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Twf. Fodd bynnag, yn gysylltiedig â hyn mae'r ymrwymiaidau cyfatebol canlynol yn y Cytundebau Partneriaeth:
- (a) Bydd y cyllid yn cael ei ddarparu ar yr un telerau ag y darperir ar ei gyfer yn GA2.
 - (b) Bydd y cyllid yn cael ei gymhwyso a'i gyfrif fel canolfan gost ar wahân tuag at gyflawni'r Cynllun Twf yn unig.
 - (c) Bydd darparu'r cyllid yn gysylltiedig ag ymrwymiad gan y CBC i gyflawni'r Cynllun Twf yn unol ag allbynnau ac ymrwymiaidau perfformiad y cytunwyd arnynt i'r partneriaid.

Trosglwyddo'r Portffolio Prosiectau

- 4.12. Ceisir caniatâd i drosglwyddo'r portffolio cyfan o brosiectau a ariennir i CBC y Gogledd. Mae'r dogfennau cyfreithiol wedi bod yn destun adolygiad allanol ac nid oes unrhyw rwystrau wedi'u hadnabod. Mae nifer cyfyngedig o gytundebau ariannu yn bodoli ar y pryd ac mae darpariaeth ynddynt i gyd sy'n caniatáu amnewid i CBC y Gogledd, pe byddai hyn yn cael ei ganiatáu. Mae'r cytundebau presennol wedi'u nodi yn yr atodlen i'r Cytundeb Partneriaeth. Cyfrifoldeb CBC y Gogledd wedyn fyddai rheoli contractau.
- 4.13. Gofynnwyd am gyngor allanol arbenigol hefyd ar oblygiadau treth posibl pob un o'r trosglwyddiadau arfaethedig, ac eto ni nodwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Cytundebau Gweithredol Eraill

- 4.14. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, prydles eiddo swyddfa, llogi offer, a chytundebau gyda Chynghorau Cyfansoddol i ddarparu gwasanaethau cymorth fel TG, Adnoddau Dynol a gwasanaethau trafodion. Cynigir dirprwyo penderfyniadau ar faterion gweithredol sy'n dod o fewn cyllidebau cymeradwy presennol i Brif Weithredwr Dros Dro CBC y Gogledd mewn ymgynghoriad, lle bo hynny'n briodol, gyda'r Swyddog a/neu'r Swyddog Monitro A151.

Staff

- 4.15. Mae'r Rheoliadau TUPE (Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)) yn gymwys i rôl CBC y Gogledd fel cyflogwr. Mae'r rheoliadau'n bodoli i ddiogelu contractau cyflogaeth ac amodau cyflogaeth a chytundebol cyflogaeth os bydd cyflogwr yn newid. Yn unol â gofynion y Rheoliadau, bydd y staff sy'n gweithio i Uchelgais Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn trosglwyddo o gyflogaeth Cyngor Gwynedd, fel yr awdurdod cyflogi presennol, i CBC y Gogledd. Mae proses ymgynghori wedi'i chynnal gydag aelodau staff Uchelgais Gogledd Cymru, ar y cyd ac yn unigol

hefyd, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb am y datblygiadau. Mae gwaith paratoi wedi'i wneud i sicrhau y bydd holl elfennau cyflogaeth cytundebol yn cael eu trosglwyddo i CBC y Gogledd pan fydd y dyddiad trosglwyddo terfynol yn cael ei gadarnhau. O'r dyddiad trosglwyddo y cytunwyd arno ymlaen felly, bydd yr aelodau staff sy'n gweithio i Uchelgais Gogledd Cymru ar hyn o bryd, yn cael eu cyflogi gan CBC y Gogledd. Bydd trosglwyddo staff y Swyddfa Rheoli Portffolio i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn digwydd ar y dyddiad trosglwyddo o ganlyniad cyfreithiol.


Cyfansoddiad, Polisiâu a Gweithdrefnau CBC y Gogledd

- 4.16. Yn rhan annatod o'r penderfyniad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r CBC yw'r gofyniad fod ganddo drefniadau llywodraethu a gweithredol cadarn yn eu lle.
- 4.17. Mae gan CBC y Gogledd Gyfansoddiad yn ei le sy'n caniatáu iddo weithredu fel awdurdod cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i adrannau sy'n darparu ar gyfer Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau, Cylch Gorchwyl, y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion, Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Contractau. Mae'r Cyfansoddiad yn parhau i gael ei ddatblygu a bydd yn cael ei adolygu'n gyson.

Strwythur Llywodraethu a Phartneriaeth Arfaethedig

- 4.18. Hyd yma, mae Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi gweithredu fel Cyd-bwyllgor cytundebol ac wedi ei rwymo gan delerau'r GA2, gyda Chyngor Gwynedd yn gweithredu fel y Corff Atebol ac, felly, endid cyfreithiol ar gyfer yr holl gyfrifoldebau cyflogaeth, ymgymeriad cytundebol, a statudol a rheoleiddiol eraill. Gyda'r trosglwyddiad i CBC y Gogledd, bydd yn cymryd drosodd rôl y Corff Atebol a'r holl lywodraethiant ar gyfer y Cynllun Twf, gyda'r model cyflawni wedi'i sefydlu drwy drefniadau statudol y CBC. Bwriad CBC y Gogledd yw creu Is-bwyllgor penodol i gefnogi'r Cynllun Twf a'i swyddogaeth Llesiant Economaidd ehangach. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys Aelodau'r Cynghorau Cyfansoddol a bydd yn cael ei gefnogi gan gyfethol Partneriaid y Prifysgolion a'r Colegau.

Strwythur Llywodraethu ar ôl Trosglwyddo



- 4.19. Yn ychwanegol at hyn, mae Rheoliadau CBC (Cyffredinol) (Cymru) 2022, yn ei gwneud yn ofynnol i ystod o is-bwyllgorau statudol ac anstatudol newydd gael eu sefydlu o dan y CBC. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio statudol, a Phwyllgor Safonau statudol. Yn ogystal, mae gofyniad i'r dyletswyddau statudol newydd mewn perthynas â chynllunio strategol a chynllunio trafniadaeth rhanbarthol gael eu cefnogi gan is-bwyllgorau.
- 4.20. Wrth fwrw ymlaen â'r agenda ar gyfer CBC y Gogledd, cynigir bod dull 'codi a symud' yn cael ei gymryd - a fyddai'n golygu bod swyddogaethau Cynllun Twf Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn cael eu cymryd gan CBC y Gogledd. Rhaid cymryd gofal nawr i sicrhau bod strwythur llywodraethu a phartneriaeth newydd CBC y Gogledd yn addas ar gyfer gofynion allweddol contractau a darpariaethau sicrwydd Cynllun Twf Gogledd Cymru – yn ogystal â'r rhai sy'n ofynnol gan Reoliadau CBC – ond yn gwneud hynny mewn modd mwy effeithlon, cyfunol a symlach. Byddai dim ond integreiddio'r ddau strwythur, heb ystyried ymhellach sut ddylai fframwaith llywodraethu a phartneriaethau addas ar gyfer y dyfodol edrych, ond yn ychwanegu at ddarlun sydd eisoes yn heriol ac yn debygol o fod yn or-feichus ac aneffeithiol ar gyfer y dyfodol.
- 4.21. Gan weithio gyda'r cyflenwad presennol o bartneriaethau allweddol a byrddau cynghori, mabwysiadwyd strwythur llywodraethu a phartneriaeth diwygiedig arfaethedig (a nodir yn Nhabl 1 uchod) a fyddai'n disodli'r strwythur presennol (fel y nodir yn GA2). Mae hyn yn rhoi pwyslais clir ar gadw at y sefyllfa polisi codi a symud, ond gan sicrhau bod hyn yn cael ei gymryd fel cyfle i ddatblygu system sy'n cyflawni dyletswyddau cyfreithiol a chytundebol allweddol – ond sy'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n cyflawni dau amcan pwysig:
- Llywodraethu priodol a chynhwysol Prosiect y Cynllun Twf.
 - Darparu strwythur effeithiol ac effeithlon i barhau i gyflawni'r Cynllun Twf yn unol â disgwyliadau'r Partneriaid.

Craffu

- 4.22. Er bod yr adroddiad hwn yn ymwneud â throsglwyddo'r Cynllun Twf i CBC y Gogledd, mae cyd-destun ehangach mewn perthynas â chraffu ar y corff rhanbarthol hwn ar draws ei holl swyddogaethau. Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, mae strwythur craffu arfaethedig yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â holl swyddogaethau'r CBC. Wrth wraidd y trefniadau hyn mae'r darpariaethau statudol sy'n rhoi'r cyfrifoldeb am drosolwg a chraffu ar y CBC i'r Cynghorau Cyfansoddol.
- 4.23. Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 yn gosod dyletswydd ar y CBC i gydweithredu â Phwyllgor Craffu "perthnasol" ac ymateb i unrhyw adroddiadau neu argymhellion a baratoir gan y Pwyllgor Craffu. Gall "Pwyllgor Craffu Perthnasol" fod yn Bwyllgor o'r Awdurdodau Cyfansoddol, neu'n Gyd-bwyllgor Craffu a benodir gan yr awdurdodau hynny. Mae hyn yn golygu, pan fo pwyllgor craffu yn ymarfer ei bwerau i gyflwyno adroddiad i'r awdurdod neu ei weithrediaeth "ar faterion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu drigolion yr ardal honno "ac sy'n ymwneud â swyddogaethau'r CBC, mae rhai gofynion yn deillio o hyn. Rhaid i'r CBC gydweithredu â'r Pwyllgor Craffu Perthnasol a rhoi cymorth i'r swyddogaeth graffu.
- 4.24. Wrth ddirwyn Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ben, bydd model ar gyfer craffu'n barhaus ar y CBC. Fodd bynnag, oherwydd y gwahanol gyd-destun cyfreithiol a llywodraethu, bydd y model hwnnw'n seiliedig ar y gofynion statudol sy'n ymwneud â'r CBC. Mae cynnig ynghylch craffu ar y cyd yn cael ei gyflwyno i bob Cyngor Cyfansoddol ar hyn o bryd.

5. ASESIAID EFFAITH INTEGREDIG:

- 5.1. Mae'r CBC yn ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Mesur y Gymraeg (Cymru), a rhaid iddo wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:
- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Deddfau
 - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt
 - Meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt
 - Cyflawni gwell deilliannau i'r rheini sydd dan anfantais cymdeithasol economaidd
 - Ystyried cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
 - Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
 - Sicrhau y bodlonir anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.
- 5.2. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gorchymyn bod yn rhaid i gyfrif cyhoeddus yng Nghymru gyflawni datblygu cynaliadwy. Golyga datblygu cynaliadwy y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r 'nodau llesiant'.
- 5.3. Nid oes angen Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr adroddiad hwn gan fod trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, neilltuo ac amnewid endidau a hawliau

cyfreithiol i'r CBC yn fater cytundebol a chyfansoddiadol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r trefniadau llywodraethu er mwyn i'r Cynllun Twf a'r holl faterion i'w hwyluso gael eu trosglwyddo i'r CBC.

6. CASGLIAD

- 6.1. Mae trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gyfle i adeiladu ar ddyfodiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Fel corff corfforedig ynddo'i hun, ond gyda'r Cynghorau wrth wraidd ei benderfyniadau, mae'n rhoi cyfle i ddefnyddio'r CBC i barhau a datblygu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf.
- 6.2. Mae cydsyniad pob Awdurdod wedi cael ei sicrhau fel bod modd gweithredu'r cytundebau cyfreithiol angenrheidiol, a mabwysiadu'r trefniadau llywodraethu i weithredu'r trosglwyddiad fel sydd wedi'i nodi ym mharagraffau penderfyniad 2.1 - 2.7.

7 GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 7.1. Mae goblygiadau ariannol y broses drosglwyddo wedi'u nodi yng nghorff yr adroddiad.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 8.1. Mae trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y Cynllun Twf i'r CBC yn gofyn am gytundeb olynol i'r Cytundeb Llywodraethu 2 gwreiddiol ("GA2"). Ceir y ffurf arfaethedig ar y Cytundeb Cyflawni ac Ariannu yn ***Atodiad 1***.
 1. Nid oes angen y trefniadau Cyd-bwyllgor mwyach. Nid yw'n seiliedig bellach ar ddirprwyaeth. Mae'r cytundeb yn seiliedig ar amnewid/aseinio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf i CBC y Gogledd.
 2. Bydd cytundeb Amnewid cydamserol ac ar wahân yn dod i ben gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a'r CBC, fel rhan o'r broses drosglwyddo.
 3. Nid oes angen awdurdod lletya a bydd rôl Gwynedd fel corff atebol yn cael ei ddirwyn i ben, gyda CBC y Gogledd yn cymryd y rôl yn ei le.
 4. Mae ymrwymadau'r naill barti a'r llall yn seiliedig ar y cytundeb ac nid ar ddirprwyo a materion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, yn gyfnewid am yr arian, bydd y partion yn cadw rôl gyffredinol ar ffurf y Cynllun Twf.
 5. Bydd y CBC yn gyfrifol am ei staff ei hun a strwythurau eraill. Bydd wedi ymrwymo i gyflawni'r Cynllun Twf, a bydd angen iddo ddefnyddio'r adnoddau a roddir iddo i gyflawni.
 6. Mae cyllid y Cynllun Twf wedi'i ddiogelu o swyddogaethau eraill y CBC a'r ardoll. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd ymrwymiad y CBC i gyflawni yn adlewyrchu'r adnodd a roddir iddo neu y gall gael mynediad ato.
 7. Mae'r model cyllido yn cael ei gadw. Fodd bynnag, gan fod y CJC yn endid ar wahân ac mae'n rhaid iddo osod ei gyllideb gytbwys ei hun yn ôl y gyfraith, mae hyn yn gytundebol ac nid yw'n seiliedig ar derfynau dirprwyo.

8. Mae gan dynnu'n ôl ac ati ddarpariaethau tebyg ond, oherwydd y goblygiadau ariannol caled i'r CBC, caiff ei ddiogelu gan hawliau cytundebol.
-

ATODIADAU:

- Atodiad 1:** Cytundeb Cyflawni ac Ariannu
Atodiad 2: Cytundeb Amnewid
-

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Cyd-awdur yr adroddiad.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Rwy'n fodlon bod yr wybodaeth sydd wedi'u gynnwys yn yr adroddiad yn gywir.

Mae'r adroddiad hwn yn gynnyrch o waith sylweddol dros sawl misoedd ac yn benderfyniad allweddol sydd angen ei wneud i ganiatáu trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais a'r Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Rwy'n hollol gefnogol i'r penderfyniad a geisiwyd a gallaf gadarnhau y bydd swyddogion o'r gwasanaeth Cyllid yn parhau i sicrhau bod y trefniadau ar waith i ganiatáu i'r trosglwyddiad fynd rhagddo fel y cynlluniwyd."

- (1) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**
- (2) CYNGOR SIR DDINBYCH**
- (3) CYNGOR SIR Y FFLINT**
- (4) CYNGOR GWYNEDD**
- (5) CYNGOR SIR YNYS MÔN**
- (6) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**
- (7) PRIFYSGOL BANGOR**
- (8) PRIFYSGOL WRECSAM**
- (9) COLEG CAMBRIA**
- (10) GRŴP LLANDRILLO MENAI**
- (11) CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

**CYTUNDEB MEWN PERTHYNAS Â CHYFLAWNI
CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU GAN GYD-
BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

CYNNWYS

Tudalen

- 1 DIFFINIADAU A DEHONGLI**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
- 2 CYCHWYN, OES A THERFY**NUERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
- 3 EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
- 4 LLYWODRAETHU**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
5. RHEOLI'R CYLLID11
6. DYLETSWYDDAU'R CBC;12
7. DYLETSWYDDAU'R PARTÏON ERAILL12
8. RÔL Y PARTÏON NAD YDYNT YN GYNGHORAU13
9. ARCHWILIO13
10. ACHOS BUSNES Y PORTFFOLIO13
- 11 YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
12. LLINIARU 18
13. CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON18
14. METHIANWYR YN GADAEL19
- 16 CANLYNIADAU TERFY**NUERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
17. EIDDO DEALLUSOL21
- 18 CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
19. CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)22
20. DATRYS ANGHYDFOD22
21. DIOGELU DATA23
22. RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL25
- 23 HYSBYSIADAU**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
24. CYFRAITH LYWODRAETHU26
- 25 ASEINIO**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
26. ILDIAD HAWL A CHOSTAU26
27. Y CYTUNDEB CYFLAWN26

- 28. GWRTHRANNAU 26
- 29. PERTHYNAS Y PARTÏON26
- 30 CYFRIFOLDEBAU STATUDOL27
- ATODLEN 1 MANYLION Y PARTÏON28
- ATODLEN 2 ADRODDIAD ATEBOLRWYDD 30

RHWNG:

- (1) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY** PO Box 1, Conwy, LL30 9GN ("**Cyngor Conwy**");
- (2) **CYNGOR SIR DDINBYCH** PO Box 62, Rhuthun, LL15 9AZ ("**Cyngor Sir Ddinbych**");
- (3) **CYNGOR SIR Y FFLINT** Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NB ("**Cyngor Sir y Fflint**");
- (4) **CYNGOR GWYNEDD** Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH ("**Cyngor Gwynedd**");
- (5) **CYNGOR SIR YNYS MÔN** Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW ("**Cyngor Sir Ynys Môn**");
- (6) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM** Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1AY ("**Cyngor Wrecsam**");
- (7) **PRIFYSGOL BANGOR** Bangor, Gwynedd, LL57 2DG;
- (8) **WRECSAM PRIFYSGOL** Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW;
- (9) **COLEG CAMBRIA** Ffordd Kelsterton, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy, CH5 4BR;
- (10) **GRŴP LLANDRILLO MENAI** Ffordd Llandudno, Bae Colwyn, LL28 4HZ; a
- (11) **CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD** o [] ("**CBC**")

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "**Partïon**" ac yn unigol fel "**Parti**").

YN GYMAINT Â BO:

- (A) Partïon GA2 wedi rhwymo i'r cytundeb llywodraethu cyntaf ar 18 Rhagfyr 2018 (y "**GA1**") i sefydlu'r Cyd-bwyllgor a diffinio'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol yng nghyswllt y Cynllun Twf hyd at y pwynt pan ymrwymir i'r Cynllun Twf gyda gweithredu'r Llythyr Cynnir Grant (fel y'i diffinnir yn y Cytundeb hwn).
- (B) Ymrwymodd Partïon GA2 i ail gytundeb llywodraethu terfynol ar 17 Rhagfyr 2020 (gan ddisodli GA1) i barhau i reoleiddio eu priodololau a'u rhwymedigaethau mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Twf, gan gynnwys penodi Cyngor Gwynedd yn Awdurdod Lletya ar gyfer ac ar ran Partïon GA2 (y "**GA2**").
- (C) Sefydlwyd cyd-bwyllgor corfforedig newydd yn y Gogledd ym mis Ebrill 2021 gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 o dan a174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y "**CBC**").
- (D) Mae'r Cyd-bwyllgor wedi cytuno mewn egwyddor ac mae'n bwriadu cadarnhau neu wedi cadarnhau y penderfyniad hwnnw y bydd y cyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun Twf a swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor yn trosglwyddo o'r Cyd-bwyllgor i'r CBC. Mae Partïon GA2 yn bwriadu rhoi neu wedi rhoi sêl bendith i'r trosglwyddiad hwn fel 'Mater Cyngor' yn unol â GA2.
- (E) Mae Partïon GA2 a'r CBC yn bwriadu ymrwymo i unrhyw ddogfennau cysylltiedig perthnasol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r trosglwyddiad hwn i'r CBC.
- (F) Mae Partïon GA2 a'r CBC (gyda'i gilydd y Partïon i'r Cytundeb hwn) yn dymuno ymrwymo i'r Cytundeb hwn i reoleiddio eu hawliau a'u rhwymedigaethau priodol mewn perthynas ag ymrwymadau cyllido parhaus bob un o'r Partïon ar gyfer y Cynllun Twf. Bwriedir i'r Cytundeb

hwn eistedd ochr yn ochr â llywodraethiant y CBC a Dogfennau'r Cynllun Twf er mwyn sicrhau bod y Cynllun Twf yn cael ei weithredu'n barhaus.

- (G) Cydnabyddir a chytunir gan Bartïon GA2, ar y Dyddiad Dechrau, y bydd GA2 yn dod i ben (gan gynnwys yr holl gyfrifoldebau ar Gyngor Gwynedd yn gweithredu yn ei rôl fel yr Awdurdod Lletya).

1. DIFFINIADAU A DEHONGLIAD

- 1.1 Yn y Cytundeb hwn a'r croniciadau, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn yn wahanol, bydd y termau isod yn golygu'r hyn a nodir isod:-

"Y Corff Atebol"	yn golygu y CBC yw gweithredu fel y corff sy'n gyfrifol am dderbyn a dyrannu arian (gan gynnwys y Cyllid) ar gyfer ac ar ran y Partïon eraill ar gyfer Prosiectau Cymeradwy o dan y Cynllun Twf
"Cyfnod Cyfrifyddu"	sef cyfnod o ddeuddeng (12) mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac sy'n dod i ben 31 Mawrth
"Pwrpasau Cytunedig"	sef cyflawni'r Cynllun Twf fel y nodir yn fwy penodol yn Nogfennau'r Cynllun Twf fel y gellir ei ddiweddarau neu ei ddiwygio gan y CBC o bryd i'w gilydd
"Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf"	sef cyllideb flynyddol y Cynllun Twf a ddelir gan y CBC fel y nodir yng Nghymal 10.4 (10.4 <i>Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf</i>) sy'n cynnwys talu unrhyw Gostau CBC yn unol â'r Cytundeb hwn ac er mwyn osgoi amheuaeth bydd "Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf" yn gyllideb ar wahân a ddelir gan y CBC at Ddibenion Cytunedig y Cynllun Twf, ac ni fydd yn gyllideb gyffredinol y CBC yn unol â Rhan 5 o'r Cynllun Twf. Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021
"Cyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf"	sef yr ystyr a roddir yng Nghymal 11.4.2 (<i>Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf</i>)
"Prosiect(au) Cymeradwy"	sef unrhyw brosiect sydd wedi'i gynnwys o fewn Achos Busnes Prosiect sydd wedi'i gymeradwyo am fuddsoddiad gan y CBC yn unol â Chyfansoddiad y CBC a Dogfennau'r Cynllun Twf
"Achos Busnes"	sef Achos Busnes Portffolio, neu Achos Busnes Rhaglen, neu Achos Busnes Prosiect, neu unrhyw achos busnes arall (yn ôl fel y bo'n digwydd) a gymeradwyir gan y CBC o bryd i'w gilydd
"Diwrnod Busnes"	sef unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul neu ŵyl y banc neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru a/neu Lloegr
"Costau'r CBC"	sef costau gweithredol a rheoli'r CBC yn ymwneud â chyflawni'r Cynllun Twf
"Cyfansoddiad y CBC"	sef Cyfansoddiad y CBC a fabwysiadwyd yn unol ag Adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000
"Dyddiad Cychwyn"	sef [1 Ebrill 2025]

"Gwybodaeth Gyfrinachol"

sef yr holl wybodaeth, boed yn wybodaeth fasnachol, ariannol, technegol neu fel arall sy'n perthyn i fusnes, materion neu ddulliau yr holl Bartïon neu unrhyw un ohonynt, sydd wedi'i chynnwys neu y gellir ei chanfod mewn pa ffurf bynnag (gan gynnwys, heb gyfyngiad, meddalwedd, data, lluniau, ffilmiau, dogfennau a chyfryngau y gellir eu darllen ar gyfrifiadur), a boed wedi'i marcio neu ei dynodi'n wybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth berchnogol neu beidio, neu'n cael ei datgelu ar lafar neu drwy ei dangos, ac y'i disgrifir ar adeg ei datgelu fel gwybodaeth gyfrinachol, neu sy'n amlwg yn wybodaeth gyfrinachol o natur ei chynnwys neu gyd-destun y datgeliad.

"Cynghorau"

sef:

- a) Cyngor Conwy;
- b) Cyngor Sir Ddinbych;
- c) Cyngor Sir y Fflint;
- d) Cyngor Gwynedd;
- e) Cyngor Sir Ynys Môn; a
- f) Chyngor Wrecsam

pob un yn **"Gyngor"** a gyda'i gilydd yn **"Gynghorau"**

iad y Cynghorau"

yn golygu'r hyn a nodir yng Nghymal 11.5.1(iii) (*Cyllid*);

tu Atodol y Cynghorau"

sef y taliad blynyddol o £40,000 (deugain mil o bunnoedd) i'w ddarparu gan bob Cyngor ar sail barhaus i'r CBC, i gyllido'r elfen Cynllun Twf yn rhannol o Gyllideb Flynyddol y CBC ac er osgoi amheuaeth, mae'r taliad blynyddol hwn gan bob Cyngor unigol yn ychwanegol i unrhyw Gyfraniad i Gyllideb y Cynllun Twf a Chyfraniad y Cynghorau sydd i'w darparu yn unol â'r Cytundeb hwn a dylid ei ddiystyru er dibenion cyfrifo rhwymedigaeth pob Parti dan ddiffiniad **"Sail Gymesur"** a **"Sail Poblogaeth"**

1 "Hysbysiad Methiant"

yr ystyr a roddir yng Nghymal 14.1 (*Methianwyr yn Gadael*)

"Deddfwriaeth Diogelu Data"

sef Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

"Methiannwr"

sef yr ystyr a roddir yng Nghymal 14.1 (*Methianwyr yn Gadael*)

"Dyddiad Gadael"	sef, mewn perthynas ag ymadawiad Methiannwr yn unol â Chymal 14 (<i>OMethiannwr yn Gadael</i>): <ul style="list-style-type: none"> (a.i) pan nad yw'r toriad perthnasol yn gallu cael ei gywiro, ystyrir ei fod wedi'i gyflwyno y diwrnod ar ôl y dyddiad y cyflwynir yr Hysbysiad Methiant yn unol â Chymal 14.1; neu (a.ii) lle mae posib cywiro'r toriad sylweddol, y diwrnod ar ôl dyddiad olaf y gellir cywiro'r toriad hwnnw ac nad yw'r toriad hwnnw wedi'i gywiro yn y cyfnod hwnnw, fel y nodir yn yr Hysbysiad Methiant;
"Cyllid"	sef y cyfanswm cyfanredol o bryd i'w gilydd, a dderbynnir gan y Partïon ac sy'n cael ei ddal gan y CBC yn unol â'r Cytundeb hwn, o unrhyw un o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> a) Cyfraniad y Cynghorau; b) Cyfraniadau Partïon nad ydynt yn Gynghorau; c) Cyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf; a d) Taliadau Atodol y Cynghorau;
"GA1"	yw'r cytundeb llywodraethu yr ymrwymwyd iddo ar 18 Rhagfyr 2018 gan Bartïon GA2 fel y disgrifir yn Natganiad (A) ar ddechrau'r Cytundeb hwn ac yna y'i disodlwyd gan GA2
"GA2"	yw'r cytundeb llywodraethu yr ymrwymwyd iddo gan Bartïon GA2 ar 17 Rhagfyr 2020 fel y'i disgrifir yn Natganiad (A) ar ddechrau'r Cytundeb hwn.
"Partïon GA2"	sef pob un o'r Cynghorau a'r Partïon nad ydynt yn Gynghorau
"Llythyr Cynnig Grant"	sef y llythyr dyfarnu cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru i'r CBC sy'n cadarnhau amodau a thelerau'r Cynllun Twf a'r cyllid sydd i'w ddarparu
"Cynllun Twf"	sef y cytundeb rhwng LIC, LlyDU a'r Cynghorau dyddiedig 17 th Rhagfyr 2020 i weithio gyda'i gilydd ar gyfer pobl a busnesau'r Gogledd, a chyflawni prosiectau lleol a fydd yn cynyddu cyfleoedd a ffyniant mewn cymunedau ledled y rhanbarth
"Cyfraniad y Cynllun Twf"	sef Cyfraniad Trysorlys Ei Mawrhydi a Chyfraniad Llywodraeth Cymru
"Dogfennau'r Cynllun Twf"	sef y Cynllun Twf, y Cynllun Busnes Cyffredinol, Achos Busnes y Portffolio, Llythyrau Cynnig Grant, unrhyw broffil grant diwygiedig y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill yr ymrwymir iddynt gan y CBC mewn perthynas â'r Cynllun Twf
"Dyddiad y daw'r Cynllun Twf i ben"	sef 31 Mawrth 2036 neu unrhyw ddyddiad diweddarach arall y cytunir arno gan y CBC

"TEF"	sef Trysorlys Ei Fawrhydi, adran weinidogol o Lywodraeth y DU
"Cyfraniad TEF"	yn golygu fel y'i diffinnir yng Nghymal 11.5.1(i) (<i>Cyllid</i>)
"Awdurdod Lletya"	sef Cyngor Gwynedd a benodir o dan GA2, i fod yn gyfrifol am dderbyn a dyrannu arian ar gyfer ac ar ran Partion GA2 ar gyfer Prosiectau Cymeradwy o dan y Cynllun Twf
"Cyfnod Cyfrifyddu Cychwynnol"	sef y cyfnod yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn ac sy'n gorffen ar y 31 Mawrth dilynol
"Eiddo Deallusol"	sef unrhyw a phob patent, nod masnach, enw masnach, hawlfraint, hawliau moesol, hawliau wrth ddylunio, hawliau mewn cronfeydd data, medr a phob hawl eiddo deallusol arall, boed y rheini'n gofrestredig neu'n bosib eu cofrestru neu beidio, ac yn bodoli yn y Deyrnas Unedig neu mewn unrhyw ran arall o'r byd neu beidio, ynghyd â phob neu unrhyw ewyllys da sy'n perthyn iddynt a'r hawl i wneud cais i'w cofrestru
"Costau Mewnol"	sef y costau sydd ynghlwm â phob Parti yn darparu adnoddau mewnol mewn perthynas â'r Cynllun Twf [ac er osgoi amheuaeth, nid yw'r Costau Mewnol yn cynnwys unrhyw gostau referniw na buddsoddiad cyfalaf yng nghyswllt gweithredu unrhyw brosiect sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Twf.
"Deunydd ED"	yr Eiddo Deallusol yn y Deunydd
"Cyd-bwyllgor"	sef y cyd-bwyllgor a sefydlir yn unol â thelerau GA1 ac fel sydd wedi'i ymestyn dan GA2
"Adroddiad Atebolrwydd"	sef adroddiad a baratoir gan y CBC sy'n gweithredu'n rhesymol, yn nodi ymrwymadau ariannol ac adnoddau y Methiannwr perthnasol yn unol â Chymal 14 (<i>METHIANWYR YN GADAEEL</i>), gan gynnwys yr eitemau a nodir yn Atodlen 2 (<i>Adroddiad Atebolrwydd</i>)
"Cronfeydd Benthyciadau"	yn golygu'r hyn a nodir yng Nghymal 11.5.4(a)(ii)
"Deunydd"	sef yr holl ddata, testun, graffeg, delweddau a deunyddiau neu ddogfennau eraill a grëir, a ddefnyddir neu a gyflenwir gan Barti mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, oni bai fod y Parti, cyn eu defnyddio neu eu cyflenwi am y tro cyntaf, yn hysbysu'r Partion eraill nad yw'r diffiniad hwn yn berthnasol i'r data neu'r testun a gyflenwir
"NDR"	yn golygu'r Trethi Annomestig Cenedlaethol

"Partïon nad ydynt yn Gynghorau"	sef cynrychiolwyr y cyrff a'r unigolion hynny sydd wedi'u rhestru isod: <ul style="list-style-type: none"> a) Prifysgol Bangor; b) Coleg Cambria; c) Grŵp Llandrillo Menai; a d) Phrifysgol Wrecsam
"Pŵer a'r Awdurdod i ddiogelu'r hyn a nodir yng Nghymal 11.5.1(iv) (Cyllid)	a "Parti nad yw'n Gyngor" yn golygu unrhyw un ohonynt
"Pŵer a'r Awdurdod i ddiogelu'r hyn a nodir yng Nghymal 11.5.6(b) (Cyfraniad Partïon nad ydynt yn Gynghorau)"	yn golygu Prosiect Cymeradwy yn cael ei arwain gan Ariannwr Prosiect sy'n Barti nad yw'n Gyngor (ac nad yw'n Gyngor)
"Pŵer a'r Awdurdod i ddiogelu'r hyn a nodir yng Nghymal 11.5.1(iv) (Cyllid)"	yn golygu'r hyn a nodir yng Nghymal 11.5.1(iv) (<i>Cyllid</i>)
"Pŵer a'r Awdurdod i ddiogelu'r hyn a nodir yng Nghymal 11.5.6(b) (Cyfraniad Partïon nad ydynt yn Gynghorau)"	yn golygu'r hyn a nodir yng Nghymal 11.5.6(b) (<i>Cyfraniad Partïon nad ydynt yn Gynghorau</i>)
"Cynllun Busnes Cyffredinol" neu "OBP"	sef y cynllun busnes cyffredinol a gymeradwyir ac a fabwysiadir gan y Cynghorau a'r Partïon nad ydynt yn Gynghorau ac a ddiweddarir o bryd i'w gilydd [gan y CBC] i reoleiddio gweithrediad y Cynllun Twf
"Data Personol"	sef data personol fel y mae wedi'i ddiffinio yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data
"Sail Poblogaeth"	sef y gyfran berthnasol i bob Cyngor ("A%") wrth gyfeirio at eu cyfraniad ffracsiynol unigol fel y nodir yng Nghymal 11.5.5 (<i>Cyfraniad y Cyngor</i>) sy'n gymwys mewn perthynas â Chyfraniad y Cyngor yn unig
"Achos Busnes y Portffolio"	sef achos busnes manwl a'i ddiweddariadau blynyddol o bryd i'w gilydd ar gyfer portffolio o Raglenni a Phrosiectau sy'n ddarostyngedig i [ddiweddariad blynyddol gan y CBC] a chymeradwyaeth gan Lywodraethau'r DU a Chymru ac mae'n darparu manylion i Lywodraethau'r DU a Chymru ynghylch sut mae'r CBC yn bwriadu cyflawni'r Cynllun Twf
"Rhaglen"	sef y pum rhaglen allweddol fel y nodir isod (a phob un fel y nodir yn fwy penodol yn y Cynllun Twf): <ul style="list-style-type: none"> • Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel; • Ynni carbon isel; • Bwyd-amaeth a thwristiaeth; • Cysylltedd digidol; a • Tir ac eiddo
"Achos Busnes Rhaglen"	sef achos busnes manwl ar gyfer datblygu a gweithredu Rhaglen sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Lywodraethau'r DU a Chymru
"Achos Busnes Prosiect"	sef achos busnes manwl ar gyfer datblygu a gweithredu prosiect a ddatblygir ac a gymeradwyir yn unol â Chyfansoddiad y CBC a Dogfennau'r Cynllun Twf

"Ariannwr y Prosiect"

sef Parti nad yw'n Gyngor neu'n drydydd parti neu, yn achos Prosiect Rhanbarthol, y CBC (neu Gyngor) sy'n gweithredu ar ran y CBC sy'n arwain y gwaith o gyflawni Prosiect Cymeradwy

"Sail Gymesur"

sef y gyfran berthnasol ar gyfer pob Parti (ac eithrio'r CBC) a gymhwysir i Gyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf yng Nghymal 5.1.3 ac yn unol â chymal 13 a 19 (lle bo hynny'n berthnasol) mewn perthynas â'u cyfraniad ffracsïynol priodol fel a ganlyn: 1217

Partion	Cyfran y Cyfraniad
Cyngor Conwy	1/8
Cyngor Sir Ddinbych	1/8
Cyngor Sir y Fflint	1/8
Cyngor Gwynedd	1/8
Cyngor Sir Ynys Môn	1/8
Cyngor Wrecsam	1/8
Prifysgol Bangor	1/16
Prifysgol Wrecsam	1/16
Coleg Cambria	1/16
Grŵp Llandrillo Menai	1/16

"Prosiect Rhanbarthol"

yn golygu Prosiect Cymeradwy a arweinir gan y CBC (neu Cyngor) ar ran y CBC er budd y rhanbarth

"Swyddog A151"

sef Swyddog Adran 151 (fel y'i diffinnir o dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) y CBC o bryd i'w gilydd

"LlyDU"

sef Llywodraeth y DU

"WLGA"

sef Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

"LIC"

sef Llywodraeth Cymru

"Cyfraniad LIC"

sef fel y'i diffinnir yng Nghymal 11.5.1(a)(ii) (*Cyllid*)

1.2 Dehongli

Yn y Cytundeb hwn, ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall:

1.2.1 bydd cyfeiriad at yr unigol yn golygu'r lluosog hefyd, ac i'r gwrthwyneb;

1.2.2 bydd cyfeiriad at unrhyw Gymal, Paragraff, Atodlen neu Groniciad, oni bai y nodir yn glir i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriad at gymal, paragraff, atodlen neu groniciad o'r fath ac at y Cytundeb hwn;

- 1.2.3 bydd unrhyw gyfeiriad at y Cytundeb hwn neu at unrhyw ddogfen arall yn cynnwys unrhyw amrywiad, newid neu ychwanegiad a ganiatawyd i'r fath ddogfen;
- 1.2.4 bydd unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at unrhyw ddiwygiad, newid, uniad neu ailddeddfiad o'r ddeddfwriaeth;
- 1.2.5 tybir bod cyfeiriad at sefydliad cyhoeddus (yn cynnwys, er osgoi amheuaeth, unrhyw Gyngor) yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw olynnydd i sefydliad cyhoeddus o'r fath neu unrhyw sefydliad neu endid sydd wedi cymryd swyddogaethau a chyfrifoldebau sefydliad cyhoeddus o'r fath drosodd;
- 1.2.6 mae cyfeiriad at berson yn cynnwys cwmnïau, partneriaethau a chorfforaethau a'u holynwyr, ac aseinau neu drosglwyddai a ganiatawyd;
- 1.2.7 nid yw penawdau ac eglurynnau'r Cymalau, y Paragraffau a'r Atodlenni sydd yng nghorff y Cytundeb hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn, ac ni chymerir hwy i ystyriaeth wrth greu neu ddehongli'r Cytundeb;
- 1.2.8 bydd geiriau sy'n dod o flaen "**yn cynnwys**", "**gan gynnwys**" a "**wedi'i gynnwys**" yn cael eu dehongli, heb gyfyngiad, yn ôl y geiriau sy'n dilyn y geiriau hynny;
- 1.2.9 bydd geiriau o ystyr gwrywaidd yn cael eu dehongli i gynnwys y benywaidd neu'r diryw ac i'r gwrthwyneb; a
- 1.2.10 bydd unrhyw gyfeiriad at deitl swyddog o unrhyw un o'r Cyngorau yn cynnwys unrhyw berson sy'n dal y swydd honno o bryd i'w gilydd dan yr un teitl neu deitl gaiff ei amnewid wedi hynny, neu unrhyw swyddog arall o'r Cyngor perthnasol y bydd y Cyngor hwnnw o bryd i'w gilydd yn ei benodi i gyflawni dyletswyddau'r swyddog y cyfeiriwyd ato.

1.3 **Atodlenni**

- 1.3.1 Mae'r Atodlenni i'r Cytundeb hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn.
- 1.3.2 Pe cyfyd unrhyw anghysondeb rhwng y Cymalau a'r Atodlenni, rhoddir blaenoriaeth i'r Cymalau.

2. **CYCHWYN, OES A THERFYNU**

2.1 **Cychwyn**

Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn.

2.2 **Hyd y Cytundeb a Therfynu**

- 2.2.1 Bydd y Cytundeb hwn yn parhau i fod mewn llawn rym ac yn effeithiol o'r Dyddiad Cychwyn hyd nes y cynharaf o'r dyddiadau a ganlyn:
 - (a) pan fo'r holl Partïon yn cytuno'n ysgrifenedig i'w derfynu a chanlyniadau terfyniad o'r fath; neu
 - (b) dyddiad y daw'r Cynllun Twf i ben.
- 2.2.2 Mae'r Partïon yn cytuno, yn dilyn y Dyddiad Cychwyn, y bydd GA2 yn dod i ben a bydd hawliau, rhwymedigaethau a goblygiadau pob parti a nodir yn GA2 yn cael eu disodli gan yr hawliau, y rhwymedigaethau a'r goblygiadau a nodir yn y Cytundeb hwn.

3. **EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL**

- 3.1 Mae'r Partïon yn bwriadu i'r Cytundeb hwn fod yn gytundeb cyfreithiol.

3.2 Mae'r Partïon yn cytuno i gydweithio i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt gweithredu'r Cynllun Twf drwy eu hymglymiad yn y CBC ac yn unol â'r Cytundeb hwn.

3.3 Mae'r Partïon yn cytuno ac yn cydnabod y bydd y cyllid a lywodraethir gan y Cytundeb hwn yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Twf, ac y bydd y Cynllun Twf yn cael ei gyflawni gan y CBC yn unol â:

3.3.1 Chyfansoddiad y CBC;

3.3.2 Dogfennau'r Cynllun Twf;

3.3.3 yr OBP;

3.3.4 unrhyw Achos Busnes Portffolio;

3.4 Rhwymedigaethau'r Partïon i'w gilydd

3.4.1 Enw Da

Mae pob Parti yn cytuno, mewn perthynas â'r Cyllid, y bydd yn gweithredu gan ystyried ei godau ymddygiad cyflogwyr ac aelodau ei hun ac na fydd yn gwneud na'n methu â gwneud dim byd a fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Barti arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Barti arall.

3.4.2 Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Partïon yn cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Cynllun Twf yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddiwyll.

3.4.3 Caniatâd Angenrheidiol

Mae pob Parti drwy hyn yn sicrhau i'r Partïon eraill ei fod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigon i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn.

3.5 Mae'r Partïon yn cytuno ac yn cydnabod bod:

3.5.1 Gweithredu'r Cynllun Twf a'r swyddogaethau a'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Twf yn cael eu trosglwyddo neu y byddant yn cael eu trosglwyddo i'r CBC fel y nodir yn Nofennau'r Cynllun Twf; a

3.5.2 Mae pob Parti wedi rhoi neu drwy hyn roi unrhyw ganiatâd angenrheidiol i drosglwyddo'r Cynllun Twf fel sy'n ofynnol o dan GA2 ac unrhyw gyfreithiau cymwys;

3.5.3 Daw'r GA2 i ben yn effeithiol o'r Dyddiad Cychwyn ac mae pob un o Bartïon GA2 yn rhyddhau Cyngor Gwynedd o'r holl rwymedigaethau a dyletswyddau fel Awdurdod Lletya o dan GA2 yn effeithiol o'r Dyddiad Cychwyn.

4. LLYWODRAETHU

4.1 Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno mai'r CBC sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun Twf a bod llywodraethu'r Cynllun Twf cyffredinol fel y nodir yng Nghyfansoddiad y CBC a Dogfennau'r Cynllun Twf.

5. RHEOLI'R CYLLID

5.1 Fel rhan o'i gyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r Cynllun Twf, bydd y CBC yn derbyn:

5.1.1 cyfraniad y Cynghorau;

- 5.1.2 Cyfraniadau y Partïon nad ydynt yn Gynghorau;
- 5.1.3 Cyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf;
- 5.1.4 Taliadau Atodol y Cynghorau; a
- 5.1.5 unrhyw gronfeydd NNDR a adferwyd yn uniongyrchol gan Gyngor ac sy'n daladwy i'r CBC yn unol â Chymal 11.5.4;
(gyda'i gilydd, y "**Cyllid**"); ac
- 5.1.6 unrhyw Gyfraniad gan y Cynllun Twf; ac
- 5.1.7 unrhyw arian arall y gellir ei dderbyn o bryd i'w gilydd yng nghyswllt y Cynllun Twf,

a bydd y CBC yn cadw ac yn rheoli'r cyllid hwnnw yn unol â thelerau Cyfansoddiad y CBC a Dogfennau'r Cynllun Twf, ac mewn perthynas â'r Cyllid yn unig, telerau'r Cytundeb hwn.

- 5.2 Mae'r CBC yn ymrwmo i ddal y Cyllid mewn cyllideb wedi'i chlustnodi o fewn ei drefniadau ariannol mewnol, a defnyddio'r Cyllid at y Dibenion y Cytunwyd Arnynt yn unig, fel yr ardystir yn flynyddol gan y Swyddog A151, oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr holl Partïon .

6. **DYLETSWYDDAU'R CBC;**

- 6.1 Ar gyfer oes y Cytundeb hwn, bydd y CBC yn:

- 6.1.1 yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddiwyll ym mhopeth a wna gyda'r Partïon eraill mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol a bydd yn dal, yn rheoli ac yn defnyddio'r Cyllid yn unol â'r Cytundeb hwn, Cyfansoddiad y CBC, Dogfennau'r Cynllun Twf a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol;
- 6.1.2 gweithredu fel y Corff Atebol ar gyfer y Cynllun Twf a chyflawni'r Cynllun Twf yn unol â Dogfennau'r Cynllun Twf yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cytundeb hwn ac i raddau cydymffurfiaeth y Partïon eraill â'u dyletswyddau a'u hymrwymiaadau o dan y Cytundeb hwn; a
- 6.1.3 chyflogi a/neu ymgysylltu â nifer digonol o unigolion cymwys a phrofiadol addas i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf a dyrannu arian (gan gynnwys y Cyllid) a dderbyniwyd gan y CBC ar gyfer Prosiectau Cymeradwy.

7. **DYLETSWYDDAU PARTÏON ERAILL**

- 7.1 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, bydd y Partïon eraill yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddiwyll ym mhopeth a wna gyda'r CBC a bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i gynorthwyo'r CBC i ddal, rheoli a defnyddio'r Cyllid yn unol â'r Cytundeb hwn, Cyfansoddiad y CBC, Dogfennau'r Cynllun Twf a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.
- 7.2 Cydnabyddir a chytunir y bydd rhwymedigaethau a chyfrifoldebau pob Parti yn rhwymo unrhyw endid olynol pe byddai unrhyw ad-drefnu o fewn unrhyw Barti.

8. RÔL Y PARTÏON NAD YDYNT YN GYNGHORAU

- 8.1 Mae'r Partïon yn cytuno ac yn cydnabod mai'r bwriad yw y bydd y Partïon nad ydynt yn Gyngorau yn cymryd rhan yng ngwaith y CBC o gyflawni'r Cynllun Twf mewn ffurf a dull y cytunir arno gan y CBC o bryd i'w gilydd yn unol â Chyfansoddiad y CBC a Dogfennau'r Cynllun Twf.
- 8.2 Gall y CBC hefyd wahodd cyrff a sefydliadau trydydd parti eraill i gymryd rhan yng ngwaith y CBC o gyflawni'r Cynllun Twf o bryd i'w gilydd.

ARCHWILIO

- 8.3 Bydd monitro ac archwilio'r defnydd o'r Cyllid a chyflawni'r Cynllun Twf yn gyffredinol yn unol â thelerau Cyfansoddiad y CBC, Dogfennau'r Cynllun Twf, ac mewn perthynas â'r Cyllid yn unig, telerau'r Cytundeb hwn. Bydd y CBC yn gyfrifol am ddarparu neu gaffael darpariaeth yr holl drefniadau monitro ac archwilio angenrheidiol.
- 8.4 Bydd y CBC yn darparu adroddiadau ar y defnydd o'r Cyllid i'r Partïon mewn fformat ac i amserlen y cytunwyd arni rhwng pob un o'r Partïon.
- 8.5 Bydd pob Parti yn caniatáu i'r holl gofnodion y cyfeirir atynt yn y Cytundeb hwn gael eu harchwilio a'u copïo o bryd i'w gilydd gan y CBC, neu unrhyw gynrychiolwyr eraill sydd angen yn rhesymol fynediad iddynt er mwyn ymgymryd ag unrhyw archwiliad o'r arian sydd wedi'i dderbyn a'i wario yn unol â'r Cytundeb hwn. Er osgoi amheuaeth, bydd y Partïon yn caniatáu i'r CBC rannu unrhyw wybodaeth archwilio (neu debyg) gyda Llywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth y DU at y diben o sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Dogfennau'r Cynllun Twf (neu gydag unrhyw gais rhesymol arall a wneir gan Lywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r Cynllun Twf).
- 8.6 Bydd y CBC yn cydweithredu'n llawn ac yn amserol gydag unrhyw gais rhesymol gan unrhyw archwilydd (boed yn fewnol neu'n allanol) o unrhyw Barti (ac eithrio'r CBC) i ddarparu dogfennau neu wybodaeth arall gan gynnwys esboniadau llafar neu ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r Cyllid.

9. ACHOS BUSNES Y PORTFFOLIO

- 9.1 Bydd y CBC yn paratoi, mabwysiadu, monitro a, lle bo angen, yn diweddarau'r Achos Busnes Portffolio sy'n ymwneud â chyflawni'r Cynllun Twf, yn unol â Chyfansoddiad y CBC a Dogfennau'r Cynllun Twf.

10. YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU

10.1 Cyffredinol

Mae'r Partïon yn cytuno ac yn ymrwymo i'r Cynllun Twf yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn.

10.2 Costau Mewnol

- 10.2.1 Bydd y Costau Mewnol a geir gan bob Parti (yn cynnwys mewn perthynas â chyfranogiad gan bob Parti ar y CBC) yn cael eu talu gan y Parti sy'n darparu'r adnodd mewnol hwnnw.

10.3 HEB EI DDEFNYDDIO

10.4 Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf

- 10.4.1 Bydd Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf yn cynnwys yr isod:

- (a) Cyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf;
- (b) Taliadau Atodol y Cynghorau;
- (c) unrhyw gostau ychwanegol a sicrheir drwy ffynonellau eraill (os o gwbl); ac

(d) unrhyw gronfeydd sydd wedi'u cronni.

10.4.2 Mae Cyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf fel a ganlyn:

(a) £57,880 fesul Cyfnod Cyfrifyddu gan bob Cyngor; a

(b) £28,950 fesul Cyfnod Cyfrifyddu gan bob Parti nad yw'n Gyngor,

gyda'i gilydd "**Cyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf**" ac sy'n amodol ar fynegeio ar ddechrau pob Cyfnod Cyfrifyddu yn unol â Chymal 11.4.3.

10.4.3 Cydnabyddir a chytunir y bydd y Cyfraniadau i Gyllideb Flynyddol y Cynllun Twf yn amodol ar yr amrywiadau a ganlyn ar ddechrau pob Cyfnod Cyfrifyddu i adlewyrchu'r cynnydd gwirioneddol mewn costau dros Gyllideb Flynyddol y Cynllun Twf yn seiliedig ar addasiad alldro i addasu ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y codiadau chwyddiant amcangyfrifedig a gwirioneddol ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu blaenorol ac amcangyfrif o gynnydd canran ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu canlynol o ganlyniad i gynnydd yn y canlynol:

(a) cynnydd mewn cyflogau sy'n digwydd drwy gyrff dyfarnu cenedlaethol llywodraeth leol; a

(b) chynnydd yng Nghyfraniadau Cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol; ac

(c) addasiad alldro i addasu ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y codiadau chwyddiant amcangyfrifedig a gwirioneddol ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu blaenorol; a

(d) chynnydd canrannol amcangyfrifedig ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu canlynol.

10.4.4 Bydd y Partïon yn darparu eu cyfran o Gyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf i'r CBC, ar ôl derbyn anfoneb gan y CBC [ac eithrio ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu Cychwynnol yr ymdrinnir ag ef fel y nodir isod yng Nghymal 10.4.6.]

10.4.5 Bydd Taliad Atodol y Cynghorau yn cael ei dalu ar ddechrau pob Cyfnod Cyfrifyddu ar ôl derbyn anfoneb gan y CBC [ac eithrio ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu Cychwynnol yr ymdrinnir ag ef fel y nodir isod yng Nghymal 10.4.6].

10.4.6 [Mae'r Partïon yn cytuno ac yn cydnabod y bydd Cyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf a Thaliad Atodol y Cynghorau ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu Cychwynnol yn cael eu trosglwyddo i'r CBC fel rhan o'r broses o drosglwyddo o drefniadau GA2 ac ni fydd angen unrhyw daliadau pellach mewn perthynas â Chyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf a/neu Daliadau Atodol y Cynghorau gan y Cynghorau na'r Partïon nad ydynt yn Gyngorau ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu Cychwynnol.]

10.4.7 Bydd y CBC yn dal ac yn cyfrifo am Gyllideb Flynyddol y Cynllun Twf ar ran y Partïon.

10.4.8 Lle mae Costau cyfanredol gwirioneddol y CBC yn debygol o fod yn fwy na Chyllideb Flynyddol y Cynllun Twf ar unrhyw adeg bydd unrhyw amrywiad i'r Cynllun Twf, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i addasiadau i allbynnau a chanlyniadau, yn cael eu cytuno gan y CBC yn unol â Dogfennau'r Cynllun Twf a Chyfansoddiad y CBC.

10.4.9 Bydd unrhyw gynnydd i Gyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf yn gofyn am gytundeb ysgrifenedig gan bob un o'r Partïon.

.

10.5 Cyllid

10.5.1 Cyfanswm cyllid

- (a) Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno bod y cyllid isod sydd wedi'i gadarnhau (i'r graddau nad yw'r cyllid hwnnw eisoes wedi'i ddefnyddio cyn y Dyddiad Cychwyn) ar gael i hwyluso gweithredu'r Cynllun Twf:
- (a.i) £120,000,000 (cant ac ugain miliwn o bunnoedd) gan LI y DU (y "**Cyfraniad TEF**"); a
- (a.ii) £120,000,000 (cant ac ugain miliwn o bunnoedd) gan LIC (y "**Cyfraniad LIC**"),
- sef Cyfraniad Trysorlys Ei Fawrhydi a Chyfraniad Llywodraeth Cymru (gyda'i gilydd "**Cyfraniadau'r Cynllun Twf**"); ac
- (a.iii) uchafswm o £9,960,300 (naw miliwn, naw cant a thrigain mil a thri chant o bunnoedd) yn gyfanredol gan y Cynghorau ("**Cyfraniad y Cynghorau**");
- (a.iv) uchafswm o £2,528,720 (dwy filiwn, pum cant ac wyth mil ar hugain saith gant ac ugain o bunnoedd) yn gyfanredol gan y Partïon nad ydynt yn Gynghorau ("**Cyfraniad y Partïon nad ydynt yn Gynghorau**"); a
- (a.v) chyfraniad pob Parti tuag at Gyllideb Flynyddol y Cynllun Twf yn unol â Chymal 10.4.10.4

10.5.2 Cyfraniad TEF

- (a) Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno bod Cyfraniad TEF (i'r graddau nad yw'r cyllid hwnnw eisoes wedi'i ddefnyddio cyn y Dyddiad Cychwyn) yn cael ei ddarparu i'r CBC am y cyfnod o'r Dyddiad Cychwyn i'r Dyddiad y Daw'r Cynllun Twf i Ben ar y sail gytunedig gyda LIC fel y nodir yn fwy penodol yn Nogfennau'r Cynllun Twf.
- (b) Mae pob Parti yn cydnabod ac yn cytuno ei fod yn derbyn telerau Dogfennau'r Cynllun Twf i'r graddau y mae Dogfennau'r Cynllun Twf yn berthnasol i bob parti ac y bydd wedi'i rwymo gan y telerau hynny ac na fydd drwy unrhyw weithred neu hepgoriad yn peri i unrhyw Barti arall yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r CBC dorri unrhyw rai o Ddogfennau'r Cynllun Twf.

10.5.3 Cyfraniad LIC

- (a) Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno bod Cyfraniad LIC yn cael ei ddarparu i'r CBC (i'r graddau nad yw'r cyllid hwnnw eisoes wedi'i ddefnyddio) am y cyfnod o'r Dyddiad Cychwyn i'r Dyddiad y Daw'r Cynllun Twf i Ben ar y sail gytunedig gyda LIC fel y nodir yn fwy penodol yn Nogfennau'r Cynllun Twf.
- (b) Mae pob Parti yn cydnabod ac yn cytuno ei fod yn derbyn telerau Dogfennau'r Cynllun Twf i'r graddau y mae Dogfennau'r Cynllun Twf yn berthnasol i bob parti ac y bydd wedi'i rwymo gan y telerau hynny ac na fydd drwy unrhyw weithred neu hepgoriad yn peri i unrhyw Barti arall yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r CBC dorri unrhyw rai o Ddogfennau'r Cynllun Twf.

10.5.4 Cyfraniad y Cynghorau a Chyfraniad Partïon nad ydynt yn Gynghorau

- (a) Cydnabyddir a chytunir:

(a.i) er mwyn hwyluso llif arian ar gyfer gwariant prosiectau lle bydd mwyafrif y cyllid wedi'i glustnodi o fewn proffil cyflawni o amcangyfrif o ddeg (10) mlynedd o gymharu â phroffil ariannu pymtheg (15) mlynedd mewn perthynas â Chyfraniadau'r Cynllun Twf; ac

(a.ii) yn amodol ar Gymalau 11.5(b) a 11.5(c),

bydd y CBC yn ymdrechu'n rhesymol i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer Prosiectau Cymeradwy fel y nodir ym mhob Achos Busnes Prosiect y gellid eu cael o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, arianwyr eraill neu hunan-fenthyciadau neu fel arall (y "**Cronfeydd Benthyciadau**").

(b) Bydd y Partïon yn gyfrifol am ad-dalu unrhyw a'r holl gyfalaf (os o gwbl), llog, unrhyw newidiadau mewn cyfraddau llog (neu yn achos senario hunan-fenthyciad unrhyw log rhagweladwy) (gyda chyfraddau llog i'w gosod a'u rheoli can y CBC) ac unrhyw gostau neu gyfrifoldebau eraill a geir gan y CBC wrth ddarparu'r Cronfeydd Benthyciadau drwy Gyfraniad y Cynghorau a Chyfraniad y Partïon nad ydynt yn Gynghorau fel y nodir yn fwy penodol yng Nghymalau 11.5.5 (*Cyfraniad y Cynghorau*) a 11.5.6 (*Cyfraniad y Partïon nad ydynt yn Gynghorau*) isod a phob Achos Busnes Prosiect perthnasol.

(c) Pan ddarperir unrhyw gyllid i Barti (sy'n gweithredu fel Ariannwr Prosiect) ar ffurf benthyciad ad-daladwy, bydd y Parti hwnnw'n gyfrifol am ad-dalu'r arian hwnnw i'r CBC yn unol ag Achos Busnes y Prosiect. Er osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw ad-daliad o'r fath yn cyfrif tuag at gyfraniad uchaf y Parti priodol i'w wneud trwy Gyfraniad y Cynghorau neu Gyfraniad y Partïon nad ydynt yn Gynghorau (fel y bo'n berthnasol) ac ni fydd gan y Parti hawl i ddileu'r cronfeydd hyn yn erbyn unrhyw daliad neu gyfraniad arall sy'n ddyledus i'r CBC yn unol â'r Cytundeb hwn.

(d) Caiff cyfran y Cyfraniadau Cynllun Twf, y Cronfeydd Benthyciadau a chyfraniadau Ariannwr y Prosiectau (fel sy'n berthnasol) ei chytuno fel rhan o Achos Busnes y Prosiectau ar gyfer Prosiect penodol i'w gymeradwyo gan y CBC yn unol â Chyfansoddiad y CBC a Dogfennau'r Cynllun Twf ac mewn perthynas â'r Cyllid dim ond y Cytundeb hwn yn amodol bob amser ar y symiau cyfanredol uchaf sydd wedi'u cynnwys o fewn Cymal 11.5.1 (*Cyfanswm Cyllid*).

(e) Yn amodol ar Gymal 11.5.4 (f), ymrwymir i gytundeb cyllido grant a/neu gytundeb benthyciad rhwng y CBC ac Ariannwr Prosiect Prosiect Cymeradwy i gadarnhau, ymhlith pethau eraill,

(e.i) talu unrhyw Gyfraniadau Cynllun Twf neu Gronfeydd Benthyciadau i Ariannwr y Prosiect;

(e.ii) rhwymedigaethau ad-dalu Ariannwr y Prosiect;

(e.iii) trosglwyddo cyfrifoldeb i Ariannwr y Prosiect i gyflawni'r Prosiect;

(e.iv) darpariaeth adfachu i adfachu Cyfraniadau'r Cynllun Twf a'r Symiau Benthyciadau gan Ariannwr y Prosiect os bydd methiant; a

(e.v) chymeradwyo unrhyw ddogfennaeth trydydd parti berthnasol i ymrwymo iddynt gan Ariannwr y Prosiect ac unrhyw drydydd parti i gyflawni'r Prosiect Cymeradwy.

(y "**GFA**").

(f) Bydd y GFA (ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig arall) ar gyfer Prosiect Cymeradwy yn cael ei gymeradwyo gan y CBC.

10.5.5 Cyfraniad y Cyngorau

- (a) Defnyddir Cyfraniad y Cyngorau i gyllido'r Prosiectau Rhanbarthol yn unig oni bai y cytunir fel arall bydd y darpariaethau hynny wedi'u hadlewyrchu o fewn telerau'r OBP a/neu'r Achos Busnes perthnasol i gynnwys, ymhlith materion eraill, amcangyfrif o broffil gwariant blynyddol pob Cyngor.
- (b) Yn ddarostyngedig bob amser i'r symiau cyfanredol uchaf sydd wedi'u cynnwys yng Nghymal 11.5.1(a)(iii) (*Cyfanswm Cyllid*) a'r rhwymedigaeth i gyfrannu at Gyllideb Flynyddol y Cynllun Twf yn unol â Chymal 11.4 (*Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf*), bydd pob Cyngor yn cyfrannu at Gyfraniad cyfanredol y Cyngorau sy'n ofynnol ar bob Prosiect Rhanbarthol ar sail poblogaeth yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$A \% = B \times 100$$

gyda A% yn "Sail Poblogaeth" Cyngor

- (c) Cyfrifir hyn fel a ganlyn:

B	B = <u>Y Boblogaeth Gyfredol</u> Cyfanswm y Boblogaeth
Y Boblogaeth Gyfredol	<p>Y Boblogaeth Gyfredol = sef ar gyfer pob Cyfnod Cyfrifyddu, yr amcan ffigwr poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer Cyngor penodol a gymerir gan Stats Cymru ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu blaenorol.</p> <p>Stats Cymru yw corff swyddogol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyhoeddi ystadegau swyddogol drwy'r ddolen a ganlyn:</p> <p>https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year</p> <p>Lle nad yw'r Boblogaeth Gyfredol ar gael bellach gan Stats Cymru ar unrhyw adeg, defnyddir y ffigyrau canol blwyddyn diwethaf oddieithr lle cytunir fel arall gan y CBC</p>
Cyfanswm y Boblogaeth	Cyfanswm y Boblogaeth = sef ar gyfer pob Cyfnod Cyfrifyddu, yr amcan ffigwr poblogaeth canol blwyddyn cyfanredol ar gyfer y chwe Chyngor a gymerir gan Stats Cymru ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu blaenorol.

10.5.6 Cyfraniad y Partïon nad ydynt yn Gyngorau

- (a) Defnyddir Cyfraniad y Partïon nad ydynt yn Gyngorau i gyllido'r Prosiectau dan arweiniad y Partïon nad ydynt yn Gyngorau yn unig, oni bai y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr holl Partïon, a bydd y darpariaethau hynny wedi'u hadlewyrchu o fewn telerau'r OBP a/neu Achos Busnes y Prosiect perthnasol i gynnwys, ymhlith materion eraill, amcangyfrif o broffil gwariant blynyddol pob Parti nad yw'n Gyngor.

- (b) Yn amodol bob amser ar y rhwymedigaeth i gyfrannu at Gyllideb Flynyddol y Cynllun Twf yn unol â Chymal 11.4 (*Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf*), bydd ond yn ofynnol i bob Parti nad yw'n Gyngor ddarparu Cyfraniad Parti nad yw'n Gyngor ar gyfer Prosiect(au) Cymeradwy lle mae'r Parti nad yw'n Gyngor hwnnw yn gweithredu fel Ariannwr y Prosiect hyd at uchafswm cyfraniad cyfanredol isod (pob cyfraniad cyfanredol uchaf yw "**Cyfraniad Unigol Partïon nad ydynt yn Gyngorau**" ar gyfer y Parti hwnnw nad yw'n Gyngor yn y drefn honno):

Parti nad yw'n Gyngor	Uchafswm cyfraniad cyfanredol
Prifysgol Bangor	£728,720 (saith gant dau ddeg ac wyth mil saith gant ac ugain o bunnoedd)
Prifysgol Wrecsam	£730,050 (saith gant tri deg mil a phumdeg o bunnoedd)
Grŵp Llandrillo Menai	£1,069,950 (miliwn, chwe deg naw mil, naw cant a hanner o bunnoedd)

- (c) Yn amodol ar Gymal 11.5.6(d), bydd Cyfraniadau Unigol y Partïon nad ydynt yn Gyngorau fel y nodir yn y tabl uchod, yn y golofn o'r enw "Cyfraniad cyfanredol uchaf" (colofn 3).
- (d) Mae'n cael ei gydnabod a'i gytuno bod Cyfraniadau Unigol pob Parti nad yw'n Gyngor yn seiliedig ar gostau amcangyfrifedig i gyflawni prosiect(au) penodol fel y nodir yn fwy penodol yn [adran 9.2 o'r OBP (Broffil Cyllido'r Cynllun Twf)]. Os, yn dilyn datblygu a chymeradwyo Achos Busnes Prosiect, cytunir gan y CBC y bydd cost Prosiect ac felly swm Cyfraniad Unigol y Parti nad yw'n Gyngor yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd, heb leihau sgôp, swm nac ansawdd y Prosiect, bydd Cyfraniadau Unigol y Parti nad yw'n Gyngor yn cael eu lleihau.

10.5.7 Cadw Cofnodion

Caiff y cyfrifon y cyfeirir atynt yn y Cymal 11 hwn (*Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau*) eu cadw am gyfnod o o leiaf deg (10) mlynedd wedi cyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r Cytundeb hwn neu hyd nes yr hysbysir gan Lywodraeth Cymru y gellir dinistrio'r cofnodion, pa un bynnag sydd hwyraf.

11. LLINIARU

Bydd pob Parti bob amser yn cymryd pob cam rhesymol i leihau a lliniaru unrhyw golled y mae gan y Parti perthnasol hawl i wneud hawliad amdano yn erbyn y Parti/Partïon eraill yn unol â'r Cytundeb hwn.

12. CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON

12.1 Bydd y CBC yn indemnio pob un o'r Partïon eraill yn y Cytundeb hwn ac yn parhau i'w hindemnio rhag unrhyw golledion, hawliadau, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau a chyfrifoldebau rhesymol sy'n wynebu'r Parti hwnnw, os yw hynny'n codi'n uniongyrchol o'r ffaith fod y CBC wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn (ac nid yw bwriadol yn y cyd-destun hwn, er osgoi amheuaeth, yn cynnwys materion sydd y tu allan i reolaeth resymol y CBC neu faterion sy'n codi o unrhyw weithred esgeulus neu o beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â rhwymedigaethau o'r fath).

12.2 Ni wneir unrhyw hawliad yn erbyn y CBC i adfer unrhyw golled neu niwed a allai ddigwydd wrth i'r CBC gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn, neu sy'n codi o hynny, oni bai ac i'r graddau

fod y fath golled neu niwed yn codi o'r ffaith fod y CBC wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan Gymal 13 (*Cyfrifoldebau'r Partïon*).

- 12.3 Bydd pob un o'r Partïon eraill (yn gweithredu bob yn un) yn indemnio'r CBC ac yn parhau i'w indemnio rhag unrhyw golledion, hawliadau, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau a chyfrifoldebau rhesymol a allai ddod i law'r CBC yn uniongyrchol wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn ar gyfer y Parti hwnnw, neu sy'n codi'n uniongyrchol o'r ffaith fod Parti wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn (ac nid yw bwriadol yn y cyd-destun hwn, er osgoi amheuaeth, yn cynnwys materion sydd y tu allan i reolaeth resymol y Parti hwnnw neu faterion sy'n codi o unrhyw weithred esgeulus neu o beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â rhwymedigaethau o'r fath) oni bai ac i'r graddau y ceid yr un canlyniad o unrhyw dorri bwriadol gan y CBC o unrhyw rwymedigaethau o'r fath.
- 12.4 Mae'r Partïon yn cytuno ac yn cydnabod y bydd y swm sydd i'w dalu i'r CBC gan unrhyw rai o'r Partïon eraill dan Gymal 13 (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) yn cael ei dalu gan bob un Parti i'r graddau y mae'n gyfrifol amdano, fodd bynnag, os yw'r cyfrifoldeb yn un a rennir rhwng y Partïon (fel nad yw'n rhesymol ymarferol pennu'r union gyfrifoldeb rhwng y Partïon) fe rennir y swm sydd i'w dalu yn gyfartal rhwng y Partïon ar Sail Gymesur.
- 12.5 Ar achlysur hawliad dan y Cymal 13 hwn (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) lle nad yw'n rhesymol ymarferol pennu i ba raddau mae pob Parti yn gyfrifol (gan gynnwys y CBC), caiff y swm ei rannu rhwng y Partïon ar Sail Gymesur. Er osgoi amheuaeth, caiff unrhyw hawliad sy'n codi ac eithrio yn sgil y CBC neu'r Partïon eraill yn methu'n fwriadol neu'n torri'n fwriadol ei rannu ymhlith y Partïon (yn cynnwys y CBC) ar Sail Gymesur.
- 12.6 Bydd Parti sy'n derbyn hawliad am golledion, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau ac ymrwymadau yn rhoi gwybod i'r Partïon eraill cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, ac yn rhoi manylion yr hawliad iddynt.
- 12.7 Ni fydd yr un Parti wedi'i indemnio yn unol â'r Cymal 13 hwn (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) oni bai ei fod wedi rhoi rhybudd yn unol â Chymal 13.6 (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) i'r Parti arall y bydd yn gorfodi ei hawl i indemniad dan y Cytundeb hwn yn ei erbyn.
- 12.8 Ni fydd yr un Parti ("**Yr Indemniwr**") yn gyfrifol nac wedi'i rwymo i indemnio'r Partïon eraill (yn cynnwys y CBC) ("**Buddiolwr**") os yw unrhyw yswiriant a gedwir gan y Buddiolwr ar yr adeg berthnasol yn rhoi indemniad rhag y golled sydd wedi arwain at hawliad o'r fath, ac os yw'r Buddiolwr yn adfer y golled dan bolisi yswiriant o'r fath (oddieithr mai'r Indemniwr fydd yn gyfrifol am y swm a ddidynnir dan unrhyw bolisi yswiriant o'r fath ac am unrhyw swm dros yr uchafswm sydd wedi'i yswirio dan bolisi yswiriant o'r fath).

METHIANWYR YN GADAEL

- 12.9 Heb ragfarnu unrhyw hawliau neu gywiriadau eraill, gall y Partïon eraill (y "Partïon Di-feth") ddod â'r Cytundeb hwn i ben mewn perthynas ag unrhyw Barti [(ac eithrio'r CBC)] (y "Methiannwr"), gan wneud hynny'n unfrydol, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Methiannwr ("Hysbysiad Methiant") sy'n dod i rym pan dderbynir ef os yw'r Methiannwr yn torri'n sylweddol unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, ac os oes posib cywiro'r methiant hwn, yn methu â chywiro pob methiant yn iawn o fewn trideg (30) Diwrnod Busnes (neu ryw gyfnod arall y mae'r Partïon Di-feth yn cytuno arno) o gael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r methiant gan y Partïon Di-feth ac o'r angen i gywiro'r methiant.
- 12.10 Bydd y penderfyniad i roi Hysbysiad Methiant i'r Methiannwr yn gofyn am gytundeb ysgrifenedig yr holl Bartïon heblaw'r Methiannwr.
- 12.11 Dim cynt nag [ugain (20)] Diwrnod Busnes ar ôl dyddiad yr Hysbysiad Methiant, bydd y CBC yn darparu Adroddiad Atebolrwydd i'r holl Bartïon.
- 12.12 Mae'n cael ei gydnabod a'i gytuno:
- 12.12.1 y bydd yr Adroddiad Atebolrwydd yn cynnwys, o leiaf, gostau a rhwymedigaethau ymroddedig y Methiannwr:

- (a) o dan ac mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn hyd at ac yn cynnwys y Dyddiad y daw'r Cynllun Twf i ben, gan gynnwys er osgoi amheuaeth holl Gyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf a Thaliadau Atodol y Cynghorau ar gyfer Cyfnodau Cyfrifyddu yn y dyfodol hyd at y Dyddiad y daw'r Cynllun Twf i ben; a
- (b) chostau a rhwymedigaethau ymroddedig y Methiannwr ar Brosiectau Cymeradwy yn ôl fel y bo'n digwydd (heb gyfrif dwbl) a fydd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Gyfraniadau Cyllideb Flynyddol y Cynllun Twf gan unrhyw Gyngor neu Barti nad yw'n Gyngor y mae'r Methiannwr wedi ymrwymo iddynt ond heb eu darparu eto (p'un a yw hynny'n digwydd cyn neu ar ôl yr Hysbysiad Methiant); a

12.12.2 o ran rhes 1 yr Adroddiad Atebolrwydd yn Atodlen 2 (*0Adroddiad Atebolrwydd*), er osgoi amheuaeth, bydd y Methiannwr yn atebol i dalu ei gostau a'i rhwymedigaethau ymroddedig fel y nodir yng Nghymal 14.4.1 uchod.

12.13 Pan fo Methiannwr yn anghytuno ag unrhyw wybodaeth ffeithiol yn yr Adroddiad Atebolrwydd, bydd yn hysbysu'r CBC o'r rhesymau dros ei anghytundeb o fewn [pum (5)] Diwrnod Busnes a bydd y Methiannwr a'r CBC yn cyfarfod o fewn pum (5) Diwrnod Busnes (neu unrhyw gyfnod arall y cytunir arno rhwng y Methiannwr a'r CBC) o'r cyfryw hysbysiad i geisio datrys yr anghytundeb a:

12.13.1 phan fo'r Methiannwr a'r CBC yn cytuno ar unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Atebolrwydd fel y'i cyhoeddwyd yn wreiddiol, bydd y CBC yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r Adroddiad Atebolrwydd; neu

12.13.2 lle nad yw'r Methiannwr a'r CBC yn cytuno ar fersiwn diwygiedig o'r Adroddiad Atebolrwydd o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes i'r cyfarfod i geisio datrys yr anghytundeb, yna bydd y CBC yn ail-gyhoeddi'r Adroddiad Atebolrwydd cychwynnol.

12.14 Yn amodol bob amser ar y darpariaethau a nodir yng Nghymal 15 (*Canlyniadau Terfynu*), lle rhoddir Hysbysiad Methiant dan Gymal 14.1 uchod ac nad oes posib cywiro'r toriad sylweddol neu, yn achos toriad y mae posib ei gywiro, ac nad yw'r Methiannwr yn cywiro'r toriad hwnnw o fewn y cyfnod amser sydd wedi'i nodi yng Nghymal 14.1 uchod, bydd Cymal 15 (*Canlyniadau Terfynu*) y Cytundeb hwn yn berthnasol a phennir bod y Methiannwr wedi tynnu'n ôl o'i rôl fel Parti i'r Cytundeb hwn fel ag ar y Dyddiad Gadael.

13. CANLYNIADAU TERFYNU

13.1 Os caiff y Cytundeb ei derfynu yn unol â Chymal 2.2 (*Terfynu*), eithr y rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 11 (*Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau*), Cymal 13 (*Cyfrifoldebau'r Partïon*), y Cymal 15 hwn (*Canlyniadau Terfynu*), Cymal 16 (Eiddo Deallusol), Cymal 17 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*) a Chymal 19 (*Datrys Anghydfod*) ac unrhyw ddarpariaeth arall a fynegir i oroesi terfynu y mae'n ofynnol iddi weithredu'r terfyniad hwnnw neu ganlyniad terfyniad o'r fath, caiff y Partïon eu rhyddhau o'u rhwymedigaethau perthnasol a ddisgrifir yn y Cytundeb hwn.

13.2 Er osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw derfynu'r Cytundeb hwn, boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn perthynas â Pharti Terfynu yn unig, yn effeithio ar unrhyw un o delerau Cyfansoddiad y CBC neu Ddogfennau'r Cynllun Twf ac ystyrir unrhyw newidiadau a allai fod yn ofynnol i Gyfansoddiad y CBC neu Ddogfennau'r Cynllun Twf o ganlyniad i derfynu'r Cytundeb hwn yn unol â thelerau Cyfansoddiad y CBC neu Ddogfennau'r Cynllun Twf (fel sy'n berthnasol).

13.3 Pan fydd Parti yn gadael y Cytundeb hwn fel Methiannwr yn unol â Chymal (*0Methiannwyr yn Gadael*) (y "**Parti sy'n Terfynu**"):

13.3.1 bydd unrhyw ased cyfalaf a ddaeth i feddiant ac/neu a sicrhawyd ac/neu a oedd ym mherchnogaeth ac a ddarparwyd gan y Parti sy'n Terfynu er dibenion y Cynllun Twf yn parhau ym mherchnogaeth y Parti sy'n Terfynu a bydd y Parti sy'n Terfynu yn ad-dalu eu cyfraniadau (os o gwbl) i'r Partïon sy'n weddill ynghyd ag unrhyw gostau rhesymol a gafwyd o ganlyniad i'r tynnu'n ôl neu'r methiant;

- 13.3.2 lle mae'r Parti sy'n Terfynu yn Gyngor, gall y CBC ddewis parhau neu derfynu unrhyw gaffaeliad a/neu brosiect sy'n ffurfio rhan o'r Cynllun Twf yn ardal weinyddol y Parti sy'n Terfynu;
- 13.3.3 yn amodol ar gymeradwyaeth y CBC, gall y Parti sy'n Terfynu ddewis canlyn yn annibynnol caffael unrhyw brosiect o fewn ei ardal weinyddol neu brosiect y mae'n gweithredu fel Ariannwr Prosiect iddo a adnabuwyd fel rhan o'r Cynllun Twf ar yr amod ei fod yn gwneud hynny ar ei gost ei hun heb unrhyw fynediad i'r cyllid y darparwyd ar ei gyfer yn unol â'r Cytundeb hwn Dogfennau'r Cynllun Twf yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Gyfraniad y Cynllun Twf; ac
- 13.3.4 eithr y rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 11 (*Ymrwymadau'r Partion a Chyfraniadau*), Cymal 13 (*Cyfrifoldebau'r Partion*), y Cymal 15 hwn (*Canlyniadau Terfynu*) a Chymal 17 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*), caiff y Partion sy'n Terfynu eu rhyddhau o'u rhwymedigaethau perthnasol a ddisgrifir yn y Cytundeb hwn o'r Dyddiad Gadael.
- 13.4 Er gwaethaf terfynu neu ddiwedd y Cytundeb hwn, bydd y darpariaethau canlynol yn goroesi'r terfyniad hwnnw:
- 13.4.1 Cymal 11 (*Ymrwymadau'r Partion a Chyfraniadau*);
- 13.4.2 Cymal 13 (*Cyfrifoldebau'r Partion*);
- 13.4.3 y Cymal 15 hwn (*Canlyniadau Terfynu*); a
- 13.4.4 Chymal 17 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*).
- 13.5 Mae'r Partion yn cydnabod ac yn cytuno:
- 13.5.1 bod y Cynllun Twf wedi'i fodolu ar sail cyfranogiad gan yr holl Partion a bod buddion economaidd sylweddol i'w cyflawni o ganlyniad i'r cydweithio hwn; ac
- 13.5.2 yn unol â hynny, os caiff y Cytundeb hwn ei derfynu yng nghyswllt unrhyw Parti yn unol â Chymal 14 (*OMethianwyr yn Gadael*) bydd y Parti sy'n Terfynu hwn yn atebol i'r Partion eraill am eu costau rhesymol a phriodol yng nghyswllt y Cynllun Twf fel y nodir yn y Cymal 15 hwn (*Canlyniadau Terfynu*) ac unrhyw Adroddiad Atebolrwydd a gyhoeddir i'r Parti sy'n Terfynu.
- 14. EIDDO DEALLUSOL**
- 14.1 Bydd pob Parti yn cadw holl Eiddo Deallusol yn ei Ddeunydd.
- 14.2 Bydd pob Parti yn rhoi i bob Parti arall drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd rhag unrhyw freindal, i ddefnyddio, addasu, newid a datblygu ei Ddeunydd ED er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Partion yng nghyswllt y Cynllun Twf ac er unrhyw ddiben arall sy'n deillio o'r Cynllun Twf, waeth a yw'r parti sy'n rhoi'r drwydded yn parhau i fod yn barti yn y Cytundeb hwn ai peidio.
- 14.3 Heb ragfarnu Cymal 16.1 (*Eiddo Deallusol*), os oes mwy nag un Parti yn berchen ar Ddeunydd ED, neu a chanddynt hawl neu fuddiant llesol neu gyfreithiol ar unrhyw agwedd o'r Deunydd ED am unrhyw reswm (gan gynnwys, heb gyfyngiad, na all yr un Parti unigol ddangos ei fod wedi cyflenwi neu greu'r Deunydd ED perthnasol yn annibynnol heb gymorth un neu fwy o'r Partion eraill), bydd pob un o'r Partion a gyfrannodd at y Deunydd ED perthnasol yn rhoi i bob Parti arall yn y Cytundeb hwn drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd rhag unrhyw freindal, i ddefnyddio a manteisio ar Ddeunydd ED o'r fath fel petai'r holl Partion eraill yw unig berchennog y Deunydd dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 neu unrhyw statud perthnasol arall neu reol mewn cyfraith.
- 14.4 Er osgoi amheuaeth, bydd gan unrhyw endid neu berson sy'n barti i'r Cytundeb hwn ar ddyddiad y Cytundeb, ac sydd wedi trwyddedu unrhyw Eiddo Deallusol dan y Cytundeb hwn, hawl

anghyfyngedig a pharhaol i barhau i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol trwyddedig yng nghyswllt y Cynllun Twf.

14.5 Mae pob Parti yn gwarantu bod ganddo, neu y bydd ganddo'r hawliau angenrheidiol i ganiatáu'r trwyddedau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 16.2 a 16.3 yng nghyswllt y Deunydd ED sydd i'w drwyddedu.

14.6 Mae pob Parti yn cytuno i weithredu unrhyw gamau neu ddogfennau pellach neu'n cytuno i wneud unrhyw beth y mae Parti arall yn gwneud cais rhesymol amdano (ar gost y Parti/Partion sy'n gwneud y cais) i roi grym llawn i delerau'r Cytundeb hwn.

15. **CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU**

15.1 Bydd pob Parti ("**Cyfamodwr**"), yn ystod oes y Cytundeb hwn a thrwy'r adeg wedi iddo derfynu neu ddod i ben, yn cadw unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol am y busnes neu Wybodaeth Gyfrinachol sy'n perthyn i unrhyw Barti arall, ac sydd wedi dod i'w sylw drwy'r Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef, yn breifat ac yn gyfrinachol, ac ni fydd yn ei defnyddio na'i datgelu (boed hynny er ei fudd ei hun neu er budd trydydd parti).

15.2 Ni fydd y rhwymedigaeth a nodir yn y Cymal 17 hwn (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*) yn berthnasol i wybodaeth:

15.2.1 sy'n dod i'r parth cyhoeddus neu a gaiff wedyn ei datgelu i'r cyhoedd (oni bai fod hynny drwy fethiant ar ran y Cyfamodwr neu unrhyw berson arall y mae gan y Cyfamodwr hawl i ddatgelu gwybodaeth iddo dan y Cytundeb hwn);

15.2.2 y mae'n ofyn cyfreithiol i'w datgelu;

15.2.3 oedd eisoes ym mediant y Cyfamodwr (heb gyfyngiadau o ran ei defnydd) ar ddyddiad ei derbyn;

15.2.4 lle mae rheolau unrhyw gorff llywodraethol neu reolaethol gan gynnwys unrhyw ganllawiau o bryd i'w gilydd yn gofyn neu'n argymhell bod gwybodaeth yn agored ac yn cael ei datgelu gan gyrrff cyhoeddus; neu

15.2.5 sydd rhaid ei datgelu er mwyn darparu gwybodaeth berthnasol i yswiriwr neu frocer yswiriant mewn perthynas â chael unrhyw yswiriant sy'n ofynnol dan y Cytundeb hwn.

15.3 Pan ganiateir datgelu gwybodaeth dan Gymal 17.2.3 neu Gymal 17.2.4, bydd y sawl sy'n derbyn y wybodaeth yn destun rhwymedigaeth cyfrinachedd tebyg i'r un yng Nghymal 17, a bydd y Parti sy'n datgelu'r wybodaeth yn rhoi gwybod am hyn i'r sawl sy'n derbyn y wybodaeth.

15.4 Ni fydd unrhyw Barti yn gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus neu ddatganiad i'r wasg nac yn cyhoeddi unrhyw ddogfen gyhoeddus arall sy'n ymwneud â'r Cytundeb, yn gysylltiedig ag ef neu'n codi ohono neu unrhyw gytundeb arall sy'n ymwneud â'r Cynllun Twf heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw y Partion eraill.

16. **CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)**

Nid yw'r cytundeb hwn yn arwain at unrhyw hawliau dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 i orfodi unrhyw un o delerau'r Cytundeb hwn.

17. **DATRYDYS ANGHYDFOD**

17.1 Bydd unrhyw anghydfod sy'n codi mewn perthynas ag unrhyw agwedd o'r Cytundeb hwn yn cael ei ddatrys yn unol â'r Cymal 20 hwn (*Datrys Anghydfod*). Mae'r Partion yn ymrwmo ac yn cytuno i fwrw ymlaen ag ymagwedd bositif tuag at ddatrys anghydfod sy'n ceisio (yng nghyd-destun y cydweithio hwn) canfod ateb, sy'n osgoi gweithdrefnau cyfreithiol, a chynnal perthynas weithio gref rhwng y Partion.

- 17.2 Mewn unrhyw achos o anghydfod neu wahaniaeth rhwng y Partïon sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn (boed hynny'n fater o ddehongli'r contract neu fel arall), yna gall unrhyw Barti mewn anghydfod gyfeirio'r mater am ddatrasiad i:
- 17.2.1 gyflafareddu gan CLILC neu unrhyw barti fel y gall y Partïon perthnasol gyuno; neu
- 17.2.2 awdurdodaeth gyfyngedig Llysoedd Cymru a Lloegr.
- 17.3 Bydd unrhyw anghydfod ac/neu anghytundeb sydd i'w ddatrys gan y penaethiaid sefydliadau perthnasol, cyflafareddu neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) dan y Cytundeb hwn yn cael ei gyfeirio atynt ar fyrder er mwyn iddynt wneud penderfyniad.
- 17.4 Bydd y Partïon, ar gais, yn rhoi ar fyrder i'r penaethiaid sefydliadau perthnasol neu'r cyflafareddwr neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) unrhyw gymorth, dogfennau a gwybodaeth a allai fod arnynt eu hangen er mwyn gwneud penderfyniad.
- 17.5 Os caiff cyflafareddwr ei benodi i benderfynu ar anghydfod yn unol â Chymal 19.2, yna pennir bod y cyflafareddwr yn gweithredu fel arbenigwr ac nid fel canolwr a bydd ei benderfyniad (yn absenoldeb camgymeriad amlwg) yn derfynol ac yn rhwymol i'r Partïon.
- 17.6 Bydd costau datrys unrhyw anghydfod ac/neu anghytundeb rhwng y Partïon dan y Cytundeb hwn yn cael eu hysgwyddo gan y Partïon perthnasol ar Sail Gymesur i'r anghydfod dan sylw, ac eithrio os yw'r penaethiaid sefydliadau perthnasol, y cyflafareddwr neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) yn cyfarwyddo fel arall.

18. **DIOGELU DATA**

- 18.1 Mewn perthynas â phob Data Personol, bydd pob Parti yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data bob amser (fel rheolydd data os oes angen) sy'n cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) cadw cofrestrriad neu hysbysiad dilys a diweddar dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data sy'n diogelu'r holl weithgareddau prosesu data fydd yn cael eu gweithredu yng nghyswllt y Cynllun Twf.
- 18.2 Bydd pob Parti:
- 18.2.1 yn prosesu Data Personol sy'n perthyn i unrhyw Barti arall yn sgil derbyn cyfarwyddiadau gan y Parti hwnnw yn unig (yn amodol ar gydymffurfio â chyfraith berthnasol);
- 18.2.2 ddim ond yn ymgymryd â phrosesu Data Personol sydd ei angen yn rhesymol yng nghyswllt y Cynllun Twf ac ni fydd yn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol i unrhyw wlad na thiriogaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ac
- 18.2.3 yn gwneud pob ymdrech resymol i beri bod yr holl is-gontractwyr a thrydydd parti perthnasol yn cydymffurfio â'r Cymal 20.2 hwn (*Diogelu Data*). Er osgoi amheuaeth, mae is-gontractwr perthnasol yn un sy'n prosesu Data Personol sy'n berchen i un neu unrhyw Barti.
- 18.3 Ni fydd y Partïon yn datgelu Data Personol i unrhyw drydydd parti oni bai am:
- 18.3.1 i weithwyr ac is-gontractwr a thrydydd parti y mae datgelu'r wybodaeth iddynt yn rhesymol angenrheidiol er mwyn i'r Partïon gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf; neu
- 18.3.2 i'r graddau sy'n angenrheidiol dan orchymyn llys neu er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau perthnasol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw statud, is-ddeddf, Cyfarwydddeb Ewropeaidd neu reoliad,

ar yr amod bod unrhyw ddatgeliad i unrhyw is-gontractwr neu unrhyw drydydd parti dan Gymal 20.3.1 yn cael ei wneud yn amodol ar delerau ysgrifenedig sy'n sylweddol yr un fath â'r telerau sydd wedi'u cynnwys yn y Cymal 20 hwn a ddim llai llym na hwy, ac y bydd yr holl Bartïon yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r holl Bartïon eraill am unrhyw ddatgelu Data

Personol sy'n berchen iddynt hwy y mae gofyn iddynt hwy neu is-gontractwr neu drydydd parti ei wneud dan Gymal 20.3.2 ar unwaith pan fyddant yn ymwybodol o ofyniad o'r fath;

18.3.3 bydd y Partïon yn gweithredu ac yn cynnal ac yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr holl is-gontractwyr perthnasol ac unrhyw drydydd parti yn gweithredu ac yn cynnal yr holl fesurau technegol a threfniadaethol rhesymol angenrheidiol i atal prosesu Data Personol heb ganiatâd neu'n anghyfreithlon, ac yn erbyn unrhyw golled, dinistr neu ddifrod damweiniol i Ddata Personol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw weithiwr neu asiant i is-gontractwr perthnasol neu unrhyw drydydd parti sydd â mynediad i'r Data Personol yn ddibynadwy ac yn gywir; neu

18.3.4 gall unrhyw Barti ofyn, ar ôl cyfnod rhesymol, am ddisgrifiad ysgrifenedig o'r dulliau technegol a threfniadaethol a ddefnyddir gan unrhyw Barti arall a'r is-gontractwyr perthnasol y cyfeirir atynt yng Nghymal 20.2.3. O fewn pum (5) Diwrnod Busnes o gais o'r fath, bydd y Parti y gofynnwyd iddo wneud hynny, yn darparu manylion ysgrifenedig o'r holl fesurau hyn y mae'n eu cynnal i lefel resymol fel y gall y Parti sy'n gwneud y cais bennu p'un a yw'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, yng nghyswllt y Data Personol. Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr is-gontractwyr ac unrhyw drydydd parti perthnasol hefyd yn cydymffurfio â chais o'r fath gan unrhyw Barti arall.

18.4 Bydd yr holl Bartïon yn sicrhau fod unrhyw Ddata Personol y maent yn ei gael ac yn ei ddarparu i unrhyw Barti arall wedi'i gael yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac na fydd y defnydd ohono yn unol â'r Cytundeb hwn yn torri unrhyw ddarpariaethau'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

18.5 Os:

18.5.1 dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data bod gofyn i unrhyw Barti ddarparu gwybodaeth i destun data (fel y'i diffinnir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data) yng nghyswllt Data Personol pan fo'r data hwn ym meddiant neu dan reolaeth unrhyw Barti arall; a

18.5.2 bod y Parti y mae gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth yn rhoi gwybod i'r Parti sy'n rheoli yn ysgrifenedig mai dyma'r sefyllfa,

yna bydd y Parti sy'n rheoli yn gwarantu cydweithredu'n rhesymol ac yn amserol gyda'r Parti y mae gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth wrth iddo fodloni ei rwymedigaethau dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, yn cynnwys gwneud copïau o'r Data Personol perthnasol i'r graddau y mae yn ei feddiant.

18.6 Bydd pob Parti yn darparu'r wybodaeth hon sy'n ymwneud â Data Personol a'i phrosesu i'r llall cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol fel y gall y Parti arall wneud cais rhesymol amdano yn ysgrifenedig ac y gall y parti y gofynnir iddo ddarparu'r data perthnasol ei ddarparu'n rhesymol er mwyn i'r Parti arall allu:-

18.6.1 gydymffurfio â'i rwymedigaethau dan y Cymal 20 hwn a Ddeddfwriaeth Diogelu Data; ac

18.6.2 asesu p'un a yw prosesu'r Data Personol perthnasol yng nghyswllt y Cytundeb hwn yn torri neu y gall dorri'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data mewn modd sy'n faterol a heb ei ganiatáu mewn gwirionedd gan unrhyw ddatganiad canllaw a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

18.7 Bydd y Partïon oll yn cymryd camau rhesymol (gan roi sylw i natur eu rhwymedigaethau bob un dan y Cytundeb hwn) i warchod cywirdeb unrhyw Ddata Personol.

18.8 Bydd y Partïon yn gweithio gyda'i gilydd i greu a chytuno ar brotocol rhannu gwybodaeth yn benodol yng nghyswllt eu cydweithio ar y Cynllun Twf a byddant yn adolygu'n barhaus unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth presennol a ddefnyddir yng nghyswllt y Cynllun Twf i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol i'r Cynllun Twf ac adnabod pa Ddata Personol sydd angen ei brosesu ac ar ba sail i sicrhau y cydymffurfir â'r Cymal 20 hwn (Diogelu Data).

19. RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL

- 19.1 Mae pob Parti yn cydnabod bod y Partïon yn ddarostyngedig i ofnion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("**FOIA**") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("**EIR**") a bydd y Partïon yn cydymffurfio â pholisi'r CBC ar FOIA yng nghyswllt y rhwymedigaethau datgelu gwybodaeth hyn i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r Cynllun Twf a'r Cytundeb hwn.
- 19.2 Pan fo parti (y "**Parti sy'n Derbyn**") yn derbyn cais am wybodaeth dan naill ai'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ynghylch gwybodaeth y mae'n ei dal ar ran unrhyw un o'r Partïon eraill mewn perthynas â'r Cynllun Twf, bydd yn:-
- 19.2.1 trosglwyddo'r cais am wybodaeth i'r CBC cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl ei dderbyn, a beth bynnag o fewn dau (2) Ddiwrnod Busnes o dderbyn cais am wybodaeth;
- 19.2.2 rhoi copi i'r CBC o'r holl wybodaeth sydd yn ei feddiant, neu y mae ganddo rym drosti, yn y ffurf y mae'r CBC yn gofyn yn rhesymol amdani, o fewn deg (10) Diwrnod Busnes (neu gyfnod hirach os yw'r CBC yn nodi hynny) o pan fo'r CBC yn gwneud y cais am y wybodaeth; ac
- 19.2.3 yn rhoi pob cymorth angenrheidiol y mae'r CBC wedi gofyn yn rhesymol amdano i alluogi i'r CBC ymateb i gais am wybodaeth o fewn yr amserlen a ganiateir yn y FOIA neu'r EIR.
- 19.3 Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno y bydd y CBC yn gyfrifol am gydlynu unrhyw ymateb ar ran y Partïon perthnasol i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Cynllun Twf a chyfrifir am yr holl gostau a geir fel Costau'r CBC.
- 19.4 Bydd y CBC yn gyfrifol am benderfynu yn ôl eu dewis eu hunain yn llwyr p'un a yw gwybodaeth y ceisiwyd amdani dan y FOIA neu'r EIR:
- 19.4.1 yn eithriedig rhag ei rhyddhau dan y FOIA neu'r EIR; ac
- 19.4.2 i gael ei rhyddhau mewn ymateb i gais am wybodaeth.
- 19.5 Mae pob Parti yn cydnabod y gall fod rhaid i'r CBC, dan y FOIA neu'r EIR, ei gwneud yn ofynnol i'r Parti sy'n Derbyn ddatgelu a, gan weithredu ar gyfarwyddiadau'r CBC, bydd y Parti sy'n Derbyn yn datgelu gwybodaeth:
- 19.5.1 heb ymgynghori â'r Partïon eraill lle nad oedd yn ymarferol i gael ymgynghoriad o'r fath; neu
- 19.5.2 yn dilyn ymgynghori â'r Partïon eraill ac ar ôl rhoi ystyriaeth i'w barn hwy.

20. HYSBYSIADAU

- 20.1 Bydd unrhyw rybudd neu orchymyn mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn i unrhyw Parti yn un ysgrifenedig a gellir ei ddanfôn â llaw, drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, post danfon arbennig neu e-bost, wedi'i gyfeirio at y derbynnydd yn y cyfeiriad fel y nodir yn Atodlen 1 (*Manylion y Partïon*) neu gyfeiriad derbynnydd arall gaiff ei hysbysu'n ysgrifenedig o bryd i'w gilydd gan unrhyw un o'r Partïon i'r holl Partïon eraill.
- 20.2 Tybir bod y rybudd neu'r gorchymyn wedi'i gyflwyno'n briodol os:
- 20.2.1 danfonwyd ef â llaw, a'i gadawyd yn y cyfeiriad priodol i'w gyflwyno;
- 20.2.2 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, bedwar deg wyth (48) awr ar ôl iddo gael ei bostio (ac eithrio dyddiau nad ydynt yn Ddiwrnodau Busnes); neu
- 20.2.3 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy e-bost, ar adeg ei drosglwyddo,

cyn belled ag yn achos danfon â llaw neu drosglwyddo â llaw neu e-bost, y caiff ei ddanfon neu ei drosglwyddo naill ai ar ôl 4.00pm ar Ddiwrnod Busnes, neu ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Busnes, tybir bod y rhybudd/gorchymyn wedi'i gyflwyno am 9.00am ar y Diwrnod Busnes canlynol.

20.3 Er osgoi amheuaeth, pan gyflwynir achosion lle mae'r Rheolau Gweithdrefn Sifil yn berthnasol, rhaid cydymffurfio â darpariaethau'r Rheolau Gweithdrefn Sifil yng nghyswllt cyflwyno dogfennau mewn cysylltiad â'r achosion hynny.

21. **CYFRAITH LYWODRAETHU**

Caiff y Cytundeb hwn ac unrhyw rwymedigaethau digontract sy'n codi ohono neu yn gysylltiedig ag ef, ei lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr ym mhob cyswllt, ac fe'i dehonglir yn unol â hynny. Yn amodol ar Gymal 19 (Datrys Anghydfodau), bydd gan Lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i setlo unrhyw anghydfod a allai godi o'r Cytundeb hwn, neu mewn cysylltiad ag ef.

22. **ASEINIO**

Ni chaiff hawliau a rhwymedigaethau'r Partïon dan y Cytundeb hwn eu haseinio, eu hamnewid neu eu trosglwyddo fel arall heb ganiatâd y Partïon eraill.

23. **ILDIAD HAWL A CHOSTAU**

23.1 Ni fydd unrhyw fethiant neu ohiriad gan unrhyw Barti i gyflawni unrhyw hawl, pŵer neu gywiriad yn golygu ei fod yn eu hildio, ac ni fydd eu gweithredu'n rhannol yn atal unrhyw weithredu pellach ar y rhain neu ryw hawl, pŵer neu gywiriad arall, oni bai fod y Parti hwnnw'n eu hildio'n ysgrifenedig.

23.2 Bydd pob Parti yn talu ei gostau ei hun yng nghyswllt paratoi, cyflawni, cwblhau a gweithredu'r Cytundeb hwn.

24. **AMRYWIADAU**

24.1 Ni fydd unrhyw newid i'r Cytundeb hwn yn rhwymo'r un parti hyd nes ei fod yn ysgrifenedig ac wedi'i arwyddo gan gynrychiolwyr awdurdodedig pob Parti, ac y datganwyd ei fod er diben newid o'r fath.

25. **Y CYTUNDEB CYFLAWN**

25.1 Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys yr holl delerau y mae'r Partïon wedi cytuno iddynt yng nghyswllt testun y Cytundeb hwn, ac mae'n disodli unrhyw gytundebau, sylwadau neu ddealltwriaethau blaenorol, ysgrifenedig neu lafar, rhwng y Partïon ynghylch y testun dan sylw.

25.2 Nid yw'r un Parti wedi'i gymell i ymrwymo i'r Cytundeb hwn nac i unrhyw un o'r dogfennau hyn drwy ddatganiad neu addewid nad ydynt yn eu cynnwys, oddieithr na fydd y Cymal hwn yn eithrio unrhyw gyfrifoldeb fyddai gan un Parti fel arall tuag at y llall mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad a wnaed drwy dwyll gan y Parti hwnnw.

26. **GWRTHRANNAU**

26.1 Gellir cyflawni'r Cytundeb hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau, a bydd pob un o'r rheini'n gopi gwreiddiol os gweithredir hwy felly, ond gyda'i gilydd un ac yr un offeryn fyddant.

26.2 Ystyrir bod copi cyflawn wedi'i lofnodi o'r Cytundeb hwn a gyflwynir drwy e-bost mewn fformat pdf gan bob Parti yn cael yr un effaith gyfreithiol â chyflwyno copi gwreiddiol wedi'i lofnodi o'r Cytundeb hwn. Bydd pob parti yn cadw ei gopi wedi'i lofnodi i orchymyn y CBC a bydd y Cytundeb yn cael ei ddyddio ar y dyddiad y mae'r CBC yn dyddio ei gopi o'r Cytundeb.

27. **PERTHYNAS Y PARTÏON**

Mae pob Parti yn gorff annibynnol ac nid oes dim sydd wedi'i gynnwys yn y Cytundeb hwn a gaiff ei ddehongli i awgrymu bod yna berthynas rhwng Partïon y bartneriaeth neu (ac eithrio pan ddarperir

yn llwyr am hynny yn y Cytundeb hwn) bennaeth/asiant neu gyflogwr/gweithiwr. Ni fydd gan yr un Parti yr hawl i weithredu ar ran Parti arall nac ymrwymo'r llall drwy gontract neu fel arall, ac eithrio i'r graddau y caniateir yn glir iddo wneud hynny yn nhelerau'r Cytundeb hwn. Yn benodol er osgoi amheuaeth, ni chymerir bod unrhyw un o'r darpariaethau sy'n ymwneud ag egwyddorion gweithio mewn partneriaeth yn sefydlu unrhyw bartneriaeth fel y diffinnir yn Neddf Partneriaeth 1890.

28. **CYFRIFOLDEBAU STATUDOL**

Er unrhyw beth sydd i'w weld i'r gwrthwyneb yn y Cytundeb hwn, wrth ymgymryd â'u dyletswyddau statudol, ni chaiff disgresiwn unrhyw Barti ei lyffetheirio neu fel arall ei effeithio gan delerau'r Cytundeb hwn.

ATODLEN 1 - MANYLION Y PARTÏON

Enw'r Derbynydd	Cyfeiriad	Ebost
CBC: []	[]	[]
Cyngor Conwy: [Prif Weithredwr]	PO Box 1, Conwy, LL30 9GN	
Cyngor Sir Ddinbych: [Prif Weithredwr]	PO Box 62, Rhuthun, LL15 9AZ	
Cyngor Sir y Fflint: [Prif Weithredwr]	Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NB	Chief.executive@flintshire.gov.uk
Cyngor Gwynedd: [Prif Weithredwr]	Cyngor Gwynedd Stryd y Jêl Caernarfon LL55 1SH	
Cyngor Sir Ynys Môn: [Prif Weithredwr]	Swyddfeydd y Cyngor Llangefni Ynys Môn LL77 7TW	
Cyngor Wrecsam: [Prif Weithredwr]	Neuadd y Dref Wrecsam LL11 1AY	lan.bancroft@wrexham.gov.uk
Prifysgol Bangor: [Is-ganghellor]	Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd LL57 2DG	vice-chancellor@bangor.ac.uk
Prifysgol Glyndŵr: [Is-ganghellor]	Prifysgol Glyndŵr Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW	
Coleg Cambria: [Prif Weithredwr]	Kelsterton Road Cei Connah Glannau Dyfrdwy Sir y Fflint CH5 4BR	

Enw'r Derbynydd	Cyfeiriad	Ebst
Grŵp Llandrillo Menai: [Prif Weithredwr]	Ffordd Llandudno, Bae Colwyn, LL28 4HZ	

[PM NOTE: Contact details to be reviewed and confirmed]

ATODLEN 2 - ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Bydd yr Adroddiad Atebolrwydd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) wariant anadferadwy a geir ac a ymrwymir mewn perthynas â'r isod:

	<u>Swm</u> (yr holl ffigyrau mewn punnoedd cyfan)
Unrhyw gostau ymrwymedig yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini sydd wedi'u nodi yng Nghymal []	
Costau Caffael	
Costau sy'n gysylltiedig ag oedi a gorfod ailymweld ag unrhyw gaffaeliadau (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gost cyngor cyfreithiol, ariannol a thechnegol)	
Costau tir - y costau sy'n gysylltiedig ag adnabod a chaffael tir	
Costau staffio (a gorbenion cysylltiedig) wrth fwrw ymlaen â'r cynllun: a) Ffioedd Ymgynghoriaeth / Ymgynghorwyr b) Rheoli a Monitro'r Prosiect yn fewnol c) Cyngor proffesiynol allanol	
Yr holl gostau a cholledion rhesymol ac a godir yn briodol (i gynnwys cost paratoi'r Adroddiad Atebolrwydd)	
Unrhyw gostau, hawliadau neu iawndal sy'n codi o unrhyw drydydd parti mewn perthynas ag unrhyw gostau sy'n ymwneud ag unrhyw oedi neu'n codi o'r terfynu	

Tystiwyd yn Gywir _____
(Llofnod)

_____ (Dyddiad)

[IPM NOTE: EXECUTION BLOCKS BELOW TO BE CONFIRMED]

FEL Y TYSTIUYD, mae'r Cytundeb hwn wedi'i gyflawni fel Gweithred ar y dyddiad a ysgrifennwyd ar ddechrau'r Cytundeb hwn yng ngŵydd y rheini sydd wedi'u nodi.

AS WITNESSED this Agreement has been executed as a Deed on the date written at the beginning of this Agreement in the presence of those stated.

[CJC Execution block to be added]

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR**)
BWRDEISTREF SIROL CONWY)
at hynny yng ngŵydd: -)
The Common Seal of **CONWY COUNTY**)
BOROUGH COUNCIL was)
hereunto affixed in the presence of: -)

Gosodwyd Sêl Gyffredin)
CYNGOR SIR DDINBYCH)
at hynny yng ngŵydd:-)
The Common Seal of **DENBIGHSHIRE**)
COUNTY COUNCIL was)
hereunto affixed in the presence of:-)

Gosodwyd Sêl Gyffredin)
CYNGOR SIR Y FFLINT)
at hynny yng ngŵydd:-)
The Common Seal of **FLINTSHIRE**)
COUNTY COUNCIL was)
hereunto affixed in the presence of:-)

Gosodwyd Sêl Gyffredin)
CYNGOR GWYNEDD)
at hynny yng ngŵydd:-)
The Common Seal of **GWYNEDD**)
COUNCIL was)
hereunto affixed in the presence of:-)

Gosodwyd Sêl Gyffredin)
CYNGOR SIR YNYS MÔN)
at hynny yng ngŵydd:-)
The Common Seal of **THE ISLE OF**)
ANGLESEY COUNTY COUNCIL was)
hereunto affixed in the presence of:-)

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR**)
BWRDEISTREF SIROL WRECSAM)
149791275.8\683804)

at hynny yng ngŵydd:-)
The Common Seal of **WREXHAM**)
COUNTY BOROUGH COUNCIL was)
hereunto affixed in the presence of:-)

Gosodwyd Sêl Gyffredin

PRIFYSGOL BANGOR drwy hyn yn unol â'i (1).....
Herthyglau cwmni:-
(AELOD O'R CYNGOR/MEMBER OF
COUNCIL)

The Common Seal of the **BANGOR**
UNIVERSITY

was hereby affixed in accordance with its
Articles of
(PRINTIWCH ENW/PRINT NAME)
Association

(2).....
(AELOD O'R CYNGOR/MEMBER OF
COUNCIL)

.....
(PRINTIWCH ENW/PRINT NAME)

(3).....
(COFRESTRYDD/ YSGRIFENNYDD)
(REGISTRAR/SECRETARY)

.....
(PRINTIWCH ENW/PRINT NAME)

ym mhresenoldeb
In the presence of)
Enw Tyst
Witness name)
Llofnod Tyst
Witness signature)
Cyferiad Tyst

Arwyddwyd fel gweithred ar ran)
PRIFYSGOL GLYNDWR)
at hynny yng ngŵydd:-)
The Common Seal of)
GLYNDWR UNIVERSITY was)
hereunto affixed in the presence of:-)

Arwyddwyd fel gweithred ar ran)
COLEG CAMBRIA)
Signed as a deed on behalf of)
COLEG CAMBRIA by:-)
In the presence of)
Witness name)
Witness signature)
Witness address)

Arwyddwyd fel gweithred ar ran)
GRWP LLANMDRILLO MENAI)
Signed as a deed on behalf of **GRWP**)
LLANDRILLO MENAI by:-)
In the presence of)
Witness name)
Witness signature)
Witness address)

**(1) CYNGOR GWYNEDD
(YN GWEITHREDU AR RAN BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU)**

(2) CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

(3) GWEINIDOGION CYMRU

CYTUNDEB AMNEWID

AMNEWID Y CYTUNDEBAU ARIANNU

yn ymwneud â

CHYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

CYNNWYS

Tudalen

1.222

2.333

3.444

4.5554

5.555

6.555

7.555

8.666

9.666

10.666

11.666

12.666

13.666

14.666

15.7776

ATODLEN 1 CYTUNDEBAU ARIANNU7

DRAFT

GWNEIR Y WEITHRED HON ar

RHWNG:

- (1) **CYNGOR GWYNEDD** o Stryd y Jêl, Caernarfon, LL51SH (y "**Cyngor**") yn gweithredu ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru; a
- (2) **CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD** Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ (y "**CBC**"); a
- (3) **GWEINIDOGION CYMRU** Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (y "**Parti sy'n Weddill**"),

bod pob un o'r Cyngor, y CBC a'r Parti sy'n Weddill yn "**barti**" a chyda'i gilydd y Cyngor, y CBC a'r Parti sy'n Weddill yw'r "**partion**".

CEFNDIR:

- (A) Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("**Y BWRDD UCHELGAIS**"), sy'n cynnwys y chwe awdurdod lleol ("Partneriaid Cyngor"), dwy Brifysgol a dau Goleg Addysg Bellach ("Cynghorwyr Addysg").
- (B) Ymrwymodd y Partneriaid Cyngor a'r Cynghorwyr Addysg i gytundeb cydweithio ar 18 Rhagfyr 2018 Cytundeb Llywodraethu 1 ("**GA1**") fel y'i diwygiwyd ar 17 Rhagfyr 2020 gan "**GA2**" i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau perthnasol mewn perthynas â Chynllun Twf Gogledd Cymru ("**Y CYNLLUN TWF**").
- (C) Sefydlodd GA1 a 2, ymhlith materion eraill, Gyd-bwyllgor, a phenododd y Cyngor i weithredu fel Corff Atebol ar gyfer ac ar ran y Partneriaid Cyngor a'r Cynghorwyr Addysg i gyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Cynllun Twf.
- (D) Yn 2021, pasiodd Senedd Cymru y ddeddfwriaeth ganlynol (ymhlith eraill):
 - i. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Rhan 5 (Gweithio ar y Cyd gan Brif Gynghorau), ac mae hyn yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig; a
 - ii. Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021, Rhan 1 (Sefydlu ac ardal), sy'n sefydlu corff corfforedig fydd yn cael ei adnabod fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer y rhanbarth ("**CBC**").
- (E) Yn ogystal â Chytundebau Ariannu, bydd y CBC, ymysg pethau eraill, yn cyflawni'r Cynllun Twf fel rhan o'i swyddogaethau.
- (F) Mae'r Cyngor yn dymuno amnewid ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan y Cytundebau Ariannu (fel y'u diffinnir isod) i'r CBC, yn unol â'r Weithred hon.
- (G) Mae'r Cyngor yn dymuno cael ei ryddhau o'i rwymedigaethau a'i ymrwymadau o dan y Cytundebau Ariannu.
- (H) Mae'r Parti sy'n Weddill yn cytuno i ollwng a rhyddhau'r Cyngor o'i rwymedigaethau a'i ymrwymadau o dan y Cytundebau Ariannu ar y sail, ymysg pethau eraill, bod y CBC yn ymgymryd â rhwymedigaethau ac ymrwymadau'r Cyngor o dan y Cytundebau Ariannu, yn unol â'r Weithred hon.

CYTUNIR:

1. DIFFINIADAU A DEONGLIADAU

- 1.1 Yn y Weithred hon mae:

"Diwrnod Busnes"	yn golygu diwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru;
"Cyllid"	yn golygu unrhyw Gyllid a roddir neu a gyflawnir gan y Parti sy'n Weddill i'r Cyngor yn unol â thelerau unrhyw Gytundeb Ariannu cyn y Dyddiad Amnewid;
"Cytundebau Ariannu"	yn golygu'r cytundebau a restrir yn Atodlen 1 (Cytundebau Ariannu) y Weithred hon; ac mae
"Dyddiad Amnewid"	yn golygu 00.01 ar 1 Ebrill 2025 neu unrhyw ddyddiad(au) diweddarach y gall y partïon gytuno arnynt o bryd i'w gilydd.

1.2 Yn y Weithred hon mae:

- 1.2.1 cyfeiriad at y Weithred hon yn cynnwys ei atodlenni, atodiadau ac atodlenni (os o gwbl);
- 1.2.2 cyfeiriad at barti yn cynnwys cynrychiolwyr personol, olynwyr ac aseinion a ganiateir, y parti hwnnw;
- 1.2.3 cyfeiriad at 'berson' yn cynnwys person naturiol, corff corfforedig neu anghorfforedig (ym mhob achos p'un a oes ganddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio) a chynrychiolwyr personol, olynwyr ac aseinion a ganiateir, y person hwnnw;
- 1.2.4 cyfeiriad at ryw yn cynnwys y naill ryw;
- 1.2.5 geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb;
- 1.2.6 unrhyw eiriau sy'n dilyn 'cynnwys', 'yn cynnwys', 'gan gynnwys', 'yn benodol' neu unrhyw eiriau ac ymadroddion tebyg yn cael eu dehongli fel darluniadol yn unig ac ni fyddant yn cyfyngu ar ymdeimlad unrhyw air, ymadrodd, term, diffiniad neu ddisgrifiad cyn y geiriau hynny;
- 1.2.7 tabl cynnwys, adran gefndir ac unrhyw gymal, atodlen neu benawdau eraill yn y Weithred hon wedi'u cynnwys er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn cael unrhyw effaith ar ddehongli'r weithred hon;
- 1.2.8 cyfeiriad at unrhyw ddeddfwriaeth neu ddarpariaeth ddeddfwriaethol yn gyfeiriad ato fel diwygiedig, ymestyniad, ailddeddfiad neu gyfnerthiad o bryd i'w gilydd; a
- 1.2.9 bydd cyfeiriadau at y "Cyngor" yn y Weithred hon yn golygu'r Cyngor yn gweithredu ar ran y 'Cyd-bwyllgor' (fel y diffinnir term o'r fath yn GA2) ar gyfer y Bwrdd Uchelgais, Bwrdd Uchelgais ar y cyd ac/neu bob Partner Cyngor a Chynghorydd Addysg yn unigol (yn ôl gofynion y cyd-destun). Nid oes rheidrwydd ar y Parti sy'n Weddill i wirio'r sail y mae'r Cyngor yn ymrwymo iddo, neu'n gweithredu o dan delerau'r Weithred hon.

2. AMNEWID

Mae'r partïon yn cytuno ar, ac o'r Dyddiad Amnewid:

- 2.1 y bydd y Cyngor, yn amnewid ei holl hawliau a'i rwymedigaethau o dan ac mewn cysylltiad â'r Cytundebau Ariannu i'r CBC;
- 2.2 y bydd y CBC yn cael ei rwymo gan ac yn cyflawni'r holl Gytundebau Ariannu ac yn cael ei rwymo gan eu telerau ym mhob ffordd fel pe bai'r CBC wedi bod yn destun iddynt yn wreiddiol, yn lle'r Cyngor a p'un a oedd unrhyw oblygiadau, ymrwymadau neu fel arall yn codi yn flaenorol, neu ar ôl y Dyddiad Amnewid;

- 2.3 y bydd y Parti sy'n Weddill yn cyflawni'r Cytundebau Ariannu ac yn cael eu rhwymo i'w telerau ym mhob ffordd fel pe bai'r CBC wedi bod yn destun iddynt yn wreiddiol, yn lle'r Cyngor;
- 2.4 wrth ystyried bod y Cyngor yn cytuno i amnewid ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan y Cytundebau Ariannu i'r CBC, mae'r Cyngor a'r Parti sy'n Weddill yn rhyddhau ei gilydd o bob rhwymedigaeth tuag at y naill a'r llall o dan y Cytundebau Ariannu, boed yn bresennol neu yn y dyfodol, yn wirioneddol neu wrth gefn;
- 2.5 wrth ystyried bod y Cyngor yn cytuno i amnewid ei hawliau a'i rwymedigaethau (gan gynnwys mewn perthynas â'r Cyllid) o dan y Cytundebau Ariannu i'r CBC, mae'r Cyngor yn ymrwymo i'r CBC ac i'r Parti sy'n Weddill ei fod wedi'i gwneud (neu y bydd yn gwneud), yr holl drefniadau angenrheidiol, cyfrifyddu neu fel arall, i sicrhau trosglwyddiad yr holl Gyllid i'r CBC ar y Dyddiad Amnewid. Ni fydd unrhyw daliad, trosglwyddiad, proses gyfrifyddu o'r fath, sut bynnag y'i gwneir, yn destun didyniad, gwrth-hawliad neu osod yn erbyn, neu'n cael ei effeithio fel arall gan unrhyw hawliad neu anghydfod sy'n ymwneud ag unrhyw fater arall rhwng y Cyngor a'r CBC;
- 2.6 mae'r Cyngor a'r CBC yn cynrychioli ac yn gwarantu i'r Parti sy'n Weddill eu bod wedi gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol neu ddymunol eraill rhyngddynt hwy eu hunain ac unrhyw barti arall fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau trosglwyddo unrhyw gyllid perthnasol o'r Cyngor i'r CBC.

3. **GWARANTAU A SYLWADAU**

Ar ddyddiad y weithred hon ac ar y Dyddiad Amnewid:

- 3.1 mae'r CBC yn cynrychioli ac yn gwarantu i'r Parti sy'n Weddill:
- 3.1.1 ei fod wedi ei gyfansoddi a'i sefydlu'n briodol drwy statud yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, yn bodoli'n ddilys o dan y deddfau hynny a bod ganddo'r pŵer a'r awdurdod i fod yn berchen ar ei eiddo a'i asedau a chynnal ei fusnes ei hun wrth iddo gael ei gynnal;
- 3.1.2 bod ganddo'r pŵer a'r awdurdod i ymrwymo, cyflwyno a chyflawni, a'i fod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i awdurdodi mynediad i, cyflwyno a chyflawni'r weithred hon a'r Cytundebau Ariannu a'r trafodion a ystyriwyd ganddynt;
- 3.1.3 ei fod wedi derbyn gwybodaeth o'r fath ac wedi gwneud trefniadau o'r fath ac wedi cymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried sy'n briodol o dan yr amgylchiadau i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch gweithredu'r Weithred hon a'r rhagdybiaethau ynghylch unrhyw gyfrifoldebau, rhwymedigaethau neu fel arall mewn perthynas â'r Cynllun Twf yn gyffredinol.
- 3.2 mae'r Cyngor yn cynrychioli ac yn gwarantu i'r Parti sy'n Weddill:
- 3.2.1 ei fod wedi ei gyfansoddi a'i sefydlu'n briodol drwy statud yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, yn bodoli'n ddilys o dan y deddfau hynny a bod ganddo'r pŵer a'r awdurdod i fod yn berchen ar ei eiddo a'i asedau a chynnal ei fusnes ei hun wrth iddo gael ei gynnal;
- 3.2.2 bod ganddo'r pŵer a'r awdurdod i ymrwymo, cyflwyno a chyflawni, a'i fod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i awdurdodi mynediad i, cyflwyno a chyflawni'r weithred hon a'r Cytundebau Ariannu a'r trafodion a ystyriwyd ganddynt;
- 3.2.3 ei fod wedi derbyn gwybodaeth o'r fath ac wedi gwneud trefniadau o'r fath ac wedi cymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried yn briodol o dan yr amgylchiadau i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch gweithredu'r Weithred hon a throsglwyddo unrhyw gyllid, cyfrifoldebau, rhwymedigaethau neu fel arall mewn perthynas â'r Cynllun Twf yn gyffredinol.

4. **DIWYGIADAU I GYTUNDEBAU ARIANNU PENODOL**

- 4.1 Mae'r CBC drwy hyn yn cadarnhau i'r Parti sy'n Weddill, o'r Dyddiad Amnewid ac yn cynnwys y dyddiad hwnnw, mai'r Cyfarwyddwr Portffolio yw:

Alwen Williams
Prif Weithredwr Dros Dro
Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

- 4.2 Mae pob un o'r CBC a'r Parti sy'n weddill yn cytuno ac yn cydnabod o'r Dyddiad Amnewid ac yn cynnwys y dyddiad hwnnw y bydd unrhyw hysbysiadau neu gyfathrebiadau eraill o dan neu mewn perthynas ag unrhyw un o'r Cytundebau Ariannu yn cael eu hanfon at y cyfeiriad a bennir ar dudalennau gweithredu y Weithred hon (neu i unrhyw gyfeiriad neu gyfeiriad e-bost amgen a hysbyswyd yn ysgrifenedig gan y parti perthnasol at y diben hwn) ac wedi'i farcio i sylw'r adran/unigolyn penodedig, os yw'n berthnasol.

5. **INDEMNIAU**

- 5.1 Yn amodol ar gymal 5.2, bydd y CBC yn indemnio ac yn cadw indemniad y Cyngor o ac yn erbyn pob colled, hawliad, iawndal, rhwymedigaeth, costau a threuliau (gan gynnwys ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol eraill) a ddiodefir neu a geir gan y Cyngor o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw gamau, galw, hawliad neu achos sy'n codi o'r Cytundebau Ariannu neu mewn cysylltiad â nhw beth bynnag a achosodd (p'un a yw'n codi cyn, ar neu ar ôl y Dyddiad Amnewid).

- 5.2 Bydd yr indemniad yng nghymal 5.1 ond yn berthnasol os:5.1

- 5.2.1 yw'r parti sydd wedi'i indemnio yn hysbysu'r parti indemnio yn ysgrifenedig yn brydlon ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fater neu amgylchiad a allai arwain at hawliad gan y parti sydd wedi'i indemnio o dan gymal 5.1 ("**Hawliad**"), ac unrhyw hysbysiad o'r fath i gynnwys manylion rhesymol am y mater neu'r amgylchiadau hynny;
- 5.2.2 nad yw'r parti sydd wedi'i indemnio yn gwneud unrhyw gyfaddefiad o atebolrwydd, cyfathrebu na thaliad i nac sy'n cytuno ar unrhyw setliad gydag ef neu i gyfaddawdu ag o, gydag unrhyw drydydd parti mewn perthynas â'r Hawliad, heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw y parti indemnio (caniatâd o'r fath i beidio â chael ei ddal yn ôl neu ei oedi yn afresymol);
- 5.2.3 bydd y parti indemnio, ar ei gost ei hun, yn cael rheolaeth lwyr dros unrhyw amddiffyniad a setliad yr Hawliad; ac
- 5.2.4 mae'r parti wedi'i indemnio yn darparu, ar gost y parti indemnio, cymorth mewnol rhesymol o'r fath ag y gall y parti sy'n indemnio ofyn amdano.

6. **GWRTHRANNAU**

- 6.1 Gellir llofnodi'r Weithred hon mewn unrhyw nifer o wrthrannau ar wahân, a bydd pob un o'r rhain pan fyddant wedi'u llofnodi a'u dyddio yn gopi gwreiddiol, a bydd gwrthrannau o'r fath a gymerir gyda'i gilydd yn gyfystyr ag un, a'r un cytundeb.

7. **HYSBYSIADAU**

- 7.1 Bydd hysbysiadau o dan y Weithred hon yn ysgrifenedig ac yn cael eu hanfon i gyfeiriad parti, fel y nodir ar dudalennau gweithredu'r Weithred hon a'u marcio ar gyfer sylw'r adran/unigolyn penodedig, os yw'n berthnasol. Gellir rhoi hysbysiadau, a bernir eu bod yn cael eu derbyn:

7.1.1 drwy'r post dosbarth cyntaf: dau Ddiwrnod Busnes ar ôl postio;

7.1.2 gyda llaw: wrth eu danfon; a

7.1.3 drwy e-bost,

ym mhob achos neu unrhyw dderbynydd arall a/neu gyfeiriad y gellir ei hysbysu yn ysgrifenedig o bryd i'w gilydd gan unrhyw barti i bob un o'r partiön eraill (fel y bo'n gymwys) yn unol â'r cymal hwn.

- 7.2 Bydd yr e-bost yn cynnwys testun yn y llinell bwnc fel bod modd gweld ei fod yn hysbysiad o dan y Weithred hon a bernir bod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno'n briodol ar ôl derbyn ateb neu gydnabyddiaeth gan y derbynydd neu ar ôl derbyn derbynneb ddarllen neu 24 (pedwar ar hugain) awr o'i ddanfôn, os caiff ei anfon i'r cyfeiriad e-bost cywir ac na dderbynnir unrhyw rybudd o fethiant i'w ddanfôn ar yr amod bod mewn unrhyw senario lle mae e-bost o'r fath yn cael ei drosglwyddo naill ai ar ôl 4:00pm ar Ddiwrnod Busnes neu ar ddiwrnod heblaw am Ddiwrnod Busnes, bydd trosglwyddiad yn digwydd am 9.00am ar y Diwrnod Busnes nesaf.

8. **SICRWYDD PELLACH**

Rhaid i bob un o'r partiön (gyda phob parti yn gyfrifol am ei gostau a'i dreuliau ei hun) gyflawni'r holl weithredoedd ac arwyddo, gweithredu a chyflwyno pob gweithred a dogfen, fel sy'n ofynnol gan y cyfryw barti arall at ddibenion rhoi effaith lawn i'r Weithred hon.

9. **AMRYWIO**

Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Weithred hon yn ddilys nac yn effeithiol oni bai ei fod yn ysgrifenedig, yn cyfeirio at y Weithred hon ac yn cael ei lofnodi neu ei weithredu'n briodol (fel ag y bo'r achos) gan, neu ar ran, bob parti. Fel nad oes unrhyw amheuaeth, bydd unrhyw amrywiad yn y Cytundebau Ariannu yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau amrywio sydd wedi'u cynnwys ynddo.

10. **TORIAD**

Os bydd unrhyw ddarpariaeth yn y Weithred hon (neu ran o unrhyw ddarpariaeth) yn anghyfreithlon, yn annyls neu'n anorfodadwy, neu'n mynd felly, ni effeithir ar gyfreithlondeb, dilysrwydd a gorfodadwyedd unrhyw ddarpariaeth arall yn y Weithred hon.

11. **ASEINIO NEU DROSGLWYDDO**

Ni chaiff y Cyngor na'r CBC aseinio na throsglwyddo unrhyw un o'i hawliau, ei fuddion na'i rwymedigaethau o dan y Weithred hon heb gydsyniad ysgrifenedig blaenorol y Parti sy'n Weddill.

12. **ILDIO HAWL**

Ni fydd unrhyw fethiant, oediad neu hepgoriad gan barti wrth arfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi a ddarperir gan y gyfraith neu o dan y Weithred hon yn gweithredu fel hepgoriad o'r hawl, y pŵer neu'r rhwymedi hwnnw, ac ni fydd yn atal nac yn cyfyngu ar unrhyw arfer yn y dyfodol o'r hawl neu'r rhwymedi arall. Ni fydd unrhyw arfer unigol neu rannol o unrhyw hawl, pŵer na rhwymedi a ddarperir gan y gyfraith nac o dan y Weithred hon yn atal unrhyw arfer ohono yn y dyfodol nac arfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi arall.

13. **HAWLIAU TRYDYDD PARTI**

Ni chaiff person nad yw'n barti i'r Weithred hon orfodi unrhyw un o delerau'r Weithred hon o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partiön) 1999.

14. **CYFRAITH LYWODRAETHU**

Bydd y Weithred hon ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio o'i destun neu ei ffurfiad (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn gytundebol), neu mewn cysylltiad â hynny, yn cael eu llywodraethu gan, a'u dehongli yn unol â deddfau Cymru a Lloegr.

15. **AWDURDODAETH**

Mae'r partïon yn cytuno'n ddi-droi'n ôl y bydd llysoedd Cymru a Lloegr yn cael awdurdodaeth anghynhwysol i setlo unrhyw anghydfod neu hawl sy'n codi o, neu mewn cysylltiad â'r Weithred hon, ei destun neu ei ffurfiad (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn rhai cytundebol).

**ATODLEN 1
CYTUNDEBAU ARIANNU**

1. Dyfarnu Cyllid ar gyfer Cynllun Twf GC dyddiedig 22 Chwefror 2021 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 ("**AFL 1**")
2. Dyfarnu Cyllid ar gyfer Cynllun Twf GC dyddiedig 23 Mawrth 2022 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 ("**AFL 2**")
3. Dyfarnu Cyllid ar gyfer Cynllun Twf GC dyddiedig 20 Mawrth 2023 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 ("**AFL 3**")
4. Dyfarnu Cyllid ar gyfer Cynllun Twf GC dyddiedig 7 Chwefror 2023 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 ("**AFL 4**")
5. Dyfarnu cyllid gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 28 Gorffennaf 2022 ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2022 i 30 Tachwedd 2024 mewn perthynas â thîm rheoli prosiect ar gyfer cyflwyno Cynllunio Ynni Ardal Leol yn rhanbarth Gogledd Cymru.
6. Llythyr amrywiad dyddiedig 21 Mawrth 2024 i'r llythyr dyfarnu dyddiedig 28 Gorffennaf 2022 mewn perthynas â thîm rheoli prosiect ar gyfer cyflwyno Cynllunio Ynni Ardal Leol yn rhanbarth Gogledd Cymru, i ymestyn contractau'r tîm rheoli prosiectau o fis Tachwedd 2024 i ddiwedd mis Mawrth 2025.
7. Dyfarnu cyllid gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 10 Chwefror 2023 ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024 i ddarparu cymorth technegol ar gyfer cyflwyno Cynllunio Ynni Ardal Leol yn Rhanbarth Gogledd Cymru.
8. Llythyr amrywiad dyddiedig 26 Gorffennaf 2023 yn ymwneud ag amrywio'r dyfarniad o gyllid dyddiedig 10 Chwefror 2023 i ddarparu cymorth technegol ar gyfer Cynllunio Ynni Ardal Leol yn Rhanbarth Gogledd Cymru o 26 Gorffennaf 2023.
9. Dyfarnu cyllid dyddiedig 15 Rhagfyr 2023 ar gyfer y cyfnod 15 Rhagfyr 2023 i 30 Ebrill 2025 mewn perthynas â'r CBC i ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25.

WEDI'I WEITHREDU FEL GWEITHRED GAN Y PARTÏON AR Y DYDDIAD A NODIR AR DDECHRAU'R WEITHRED HON

WEDI'I WEITHREDU FEL GWEITHRED (ond)
heb ei gyflawni hyd y dyddiad yn ymwneud â hyn))
drwy osod SÊL GYFFREDIN CYNGOR)
GWYNEDD (yn gweithredu ar ran Bwrdd)
Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru))

yng ngŵydd:-

Llofnodwr Awdurdodedig

Enw wedi'i brintio:
.....

Cyfeiriad: Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH

E-bost: Iwangdevans@gwynedd.llyw.cymru

I sylw: Iwan Evans, Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd

WEDI'I WEITHREDU FEL GWEITHRED (ond)
heb ei gyflawni hyd y dyddiad yn ymwneud â hyn))
drwy osod SÊL GYFFREDIN CYD-BWYLLGOR)
CORFFOREDIG Y GOGLEDD)
)

yng ngŵydd:-

Llofnodwr Awdurdodedig

Enw wedi'i brintio:
.....

Cyfeiriad: Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ

E-bost: AlwenWilliams@uchelgaisgogledd.cymru

I sylw: Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

WEDI'I WEITHREDU FEL GWEITHRED (ond heb)
ei gyflawni)
hyd y dyddiad yn ymwneud â hyn) drwy osod sêl)
Gweinidogion Cymru)
)

DILYSIR gosod sêl Gweinidogion Cymru

gan

sydd wedi'i awdurdodi'n briodol at y diben hwnnw
gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn
ôl awdurdod
Gweinidogion Cymru dan adran 90(2)
Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Llofnod: _____

Enw: _____

Teitl y Swydd: _____

Cyfeiriad: Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Reg.Kilpatrick@gov.wales

I sylw: Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

DRAFT

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

21 Mawrth 2025

TEITL: Is-bwyllgor Lles Economaidd

AWDUR: Iwan Evans, Swyddog Monitro

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR


- 1.1. Cymeradwyo penodi cynrychiolwyr o bob sefydliad partner yn Aelodau cyfetholedig (heb bleidlais) o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.
- 1.2. Cadarnhau aelodaeth yr Is-bwyllgor fel y nodir yn Nhabl 1.

2. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 2.1. Mae'r CBC wedi sefydlu Is-bwyllgor Lles Economaidd. Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu y bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cynnwys chwe Aelod Cyngor y CBC, ynghyd â chynrychiolydd o bob un o'r cyrff a nodir yn Nhabl 1 isod i'w penodi fel aelodau cyfetholedig heb bleidlais. Mae'r cyfrifoldeb i benodi Aelodau yn eistedd gyda'r CBC.

3. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 3.1. Ar 6 Medi 2024 cefnogodd y CBC y strwythur llywodraethu arfaethedig ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd, gyda'r ddarpariaeth mai Arweinwyr Awdurdodau Lleol fyddai'r aelodau enwebedig - mae Atodiad 1 yn amlinellu'r strwythur a'r aelodaeth cytunedig. Yn y cyfnod cychwynnol ar ôl trosglwyddo, bydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn canolbwyntio ar yrru'r Cynllun Twf, ac ar 17 Ionawr 2025 cymeradwyodd y CBC Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor sy'n darparu'r fframwaith llywodraethu.
- 3.2. Daeth yr ysgogiad strategol cyffredinol i drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC o'r gydberthynas mewn aelodaeth rhwng y Bwrdd Uchelgais a'r CBC, y dymuniad i osgoi gormodedd o gyrff rhanbarthol â swyddogaethau tebyg, ac amrywiol fanteision ac effeithlonrwydd cyfreithiol a gweithredol y CBC drwy weithredu fel ei endid corfforaethol ei hun.



3.3 Mae cynrychiolwyr pob corff partner wedi ymgymryd â rôl fel Cyngorydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd hyd yma a gofynnwyd iddynt gwblhau cytundeb cyfethol sy'n rhagflaenydd cyfreithiol i ymgymryd ag aelodaeth o'r CBC ar y telerau a nodir yn y cytundeb cyfethol. Penodir yr Aelodau Cyfetholedig am gyfnod o ddwy flynedd neu nes iddynt gamu i lawr o'u swydd gyflogedig neu ymddiswyddo, pa un bynnag sydd leiaf. Bwriedir i'r Is-bwyllgor gyfarfod yn unol â'r dyddiadau a nodir yn y calendr ar gyfer y Bwrdd Uchelgais am weddill y flwyddyn galendr hon, gyda Chadeirydd (ac Is-gadeirydd) yr Is-bwyllgor i'w hethol gan aelodau'r Is-bwyllgor yn y cyfarfod agoriadol. Bydd y cyfarfod hwn hefyd yn ystyried cyfethol y cynrychiolwyr hynny nad ydynt wedi'u nodi hyd yma yn y tabl isod.

- 3.4 Mae'r tabl isod yn nodi'r cynrychiolwyr o'r holl gyrff i'w cyfethol i Is-bwyllgor Lles Economaidd y CBC, a gofynnir i'r CBC gymeradwyo'r argymhelliad fel y nodir ym mharagraff 1 uchod.

TABL 1

	IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD	
Cyngor	Aelod sy'n Gyngorydd	Aelodau gyda Phleidlais
Gwynedd	Y Cyngorydd Nia Jeffreys	Cymeradwywyd gan y CBC ym mis Medi 2024
Conwy	Y Cyngorydd Charlie McCoubrey	
Wrecsam	Y Cyngorydd Mark Pritchard	
Ynys Môn	Y Cyngorydd Gary Pritchard	
Sir Ddinbych	Y Cyngorydd Jason McLellan	
Sir y Fflint	Y Cyngorydd Dave Hughes	
	Aelodau Cyfetholedig	Aelodau heb bleidlais
Prifysgol Bangor	Yr Athro Edmund Burke Paul Spencer (eilydd)	Cyfetholwyd am gyfnod o ddwy flynedd hyd at 1 Ebrill 2027
Prifysgol Wrecsam	Yr Athro Joe Yates Richard Day (eilydd)	
Grŵp Llandrillo Menai	Aled Jones-Griffiths Gwenllian Roberts (eilydd)	
Coleg Cambria	Yana Williams Steve Jackson (eilydd)	
Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	David Roberts	
Cadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol	I'W GADARNHAU	
Parc Cenedlaethol Eryri	I'W GADARNHAU	

ATODIADAU:

**Atodiad 1 – Templed o gytundebau cyfethol ar gyfer Aelodau
Ymgynghorol ac eilyddion**

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

Cytundeb Cyfethol

Yn unol â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 (y Rheoliadau Sefydlu), a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cytuno i benodi:

Mr/s
fel Aelod cyfetholedig ar y telerau a ganlyn:

1. Pwyllgor/Is-bwyllgor:

Penodir yr Aelod Cyfetholedig i'r **Is-bwyllgor Economaidd a Llesiant**

2. Cyfnod

Penodir yr Aelod Cyfetholedig am y cyfnod tan 1 Ebrill 2027.

Daw'r cytundeb cyfethol i ben os bydd Aelod yn ymddiswyddo o'r is-bwyllgor neu os nad yw'n cael ei gyflogi gan/ aelod o

.....

Gall y CBC amrywio neu derfynu'r cytundeb cyfethol.

3. Swyddogaethau

Gall yr aelod Cyfetholedig weithredu dim ond mewn perthynas a'r swyddogaeth llesiant economaidd a roddir i' CJC, a'r pwerau hynny i wneud unrhyw beth i hwyluso, neu sy'n gysylltiedig neu'n ffafriol i arfer y swyddogaeth honno.

4. Diben a Swyddogaethau

Penodir yr aelod cyfetholedig at ddibenion 3 uchod, ac i gyflawni'r swyddogaethau hynny fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor (gweler isod).

Co-option Agreement

In accordance with The North Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021 (the Establishment Regulations), and The Corporate Joint Committee (General)(Wales) Regulations 2022, the Corporate Joint Committee has agreed to appoint:

Mr/s
as an co-opted Member on the following terms:

1. Committee/Sub-Committee:

The co-opted Member is appointed to the **Economic Well-Being Sub-Committee**

2. Term

The co-opted Member is appointed for the period until 1 April 2027.

Co-option ends if a Member resigns from the sub-committee ,or is no longer employed by/ a member of

.....

The CJC may vary or terminate the co-option agreement.

3. Functions

The co-opted Member may act only in relation to the economic well-being function granted to the CJC, and those powers to do anything to facilitate, or which is incidental or conducive to the exercise of that function.

4. Purpose and Functions

The co-opted Member is appointed for the purpose of 3. above, and to carry out the functions as set out in the Terms of Reference for the Sub-Committee (see below).

<p>5. <u>Hawliau Pleidleisio</u></p> <p>Mewn perthynas â'r swyddogaethau uchod, nid oes gan yr Aelod cyfetholedig hawl i bleidleisio mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor ar yr holl faterion sydd yng Nghylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor.</p> <p>6. <u>Cod Ymddygiad</u></p> <p>Mae'r Aelod Cyfetholedig yn cytuno i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Aelodau fel y mabwysiadwyd gan y CBC.</p> <p>7. <u>Cymeradwyaeth</u></p> <p>Cytunir ar delerau'r Cytundeb Cyfethol hwn, a thrwy lofnodi mae'r Aelodau'n cadarnhau nad ydynt wedi'u diarddel rhag bod yn aelod cyfetholedig ymhellach i reol.9A, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021</p>	<p>5. <u>Voting Rights</u></p> <p>In respect of the above functions, the co-opted Member is not entitled to vote in a meeting of the Sub-Committee on all matters within the Sub Committee's Terms of Reference.</p> <p>6. <u>Code of Conduct</u></p> <p>The co-opted Member agrees to abide by the Code of Conduct for Members as adopted by the CJC.</p> <p>7. <u>Approval</u></p> <p>The terms of this Co-option Agreement are agreed, and by signing Members confirm that they are not disqualified from being a co-opted member further to reg.9A of the North Wales Corporate Joint Committee (Wales) Regulations 2021</p>
--	---

Llofnod:
Signed:

Enw'r Aelod Cyfetholedig:
Co-Opted Member name:

Dyddiedig:
Dated:

Cytundeb Cyfethol

Yn unol â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 (y Rheoliadau Sefydlu), a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cytuno i benodi:

Mr/s
fel Aelod cyfetholedig ar y telerau a ganlyn:

1. Pwyllgor/Is-bwyllgor:

Penodir yr Aelod Cyfetholedig i'r **Is-bwyllgor Economaidd a Llesiant yn lle mynychu pan nad yw'r aelod cyfetholedig ar gael.**

2. Cyfnod

Penodir yr Aelod Cyfetholedig am y cyfnod tan 1 Ebrill 2027.

Daw'r cytundeb cyfethol i ben os bydd Aelod yn ymddiswyddo o'r is-bwyllgor neu os nad yw'n cael ei gyflogi gan/ aelod o

.....

Gall y CBC amrywio neu derfynu'r cytundeb cyfethol.

3. Swyddogaethau

Gall yr aelod Cyfetholedig weithredu dim ond mewn perthynas a'r swyddogaeth llesiant economaidd a roddir i' CJC, a'r pwerau hynny i wneud unrhyw beth i hwyluso, neu sy'n gysylltiedig neu'n ffafriol i arfer y swyddogaeth honno.

4. Diben a Swyddogaethau

Penodir yr aelod cyfetholedig at ddibenion 3 uchod, ac i gyflawni'r swyddogaethau hynny fel y nodir yn y

Co-option Agreement

In accordance with The North Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021 (the Establishment Regulations), and The Corporate Joint Committee (General)(Wales) Regulations 2022, the Corporate Joint Committee has agreed to appoint:

Mr/s
as a co-opted Member on the following terms:

1. Committee/Sub-Committee:

The co-opted Member is appointed to the **Economic Well-Being Sub-Committee as a substitute, to attend when the co-opted member is unavailable.**

2. Term

The co-opted Member is appointed for the period until 1 April 2027.

Co-option ends if a Member resigns from the sub-committee, or is no longer employed by/ a member of

.....

The CJC may vary or terminate the co-option agreement.

3. Functions

The co-opted Member may act only in relation to the economic well-being function granted to the CJC, and those powers to do anything to facilitate, or which is incidental or conducive to the exercise of that function.

4. Purpose and Functions

The co-opted Member is appointed for the purpose of 3 above, and to carry out the functions as set out in the Terms of

<p>Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor (gweler isod).</p> <p>5. <u>Hawliau Pleidleisio</u></p> <p>Mewn perthynas â'r swyddogaethau uchod, nid oes gan yr Aelod cyfetholedig hawl i bleidleisio mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor ar yr holl faterion sydd yng Nghylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor.</p> <p>6. <u>Cod Ymddygiad</u></p> <p>Mae'r Aelod Cyfetholedig yn cytuno i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Aelodau fel y mabwysiadwyd gan y CBC.</p> <p>7. <u>Cymeradwyaeth</u></p> <p>Cytunir ar delerau'r Cytundeb Cyfethol hwn, a thrwy lofnodi mae'r Aelodau'n cadarnhau nad ydynt wedi'u diarddel rhag bod yn aelod cyfetholedig ymhellach i reol.9A, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021</p>	<p>Reference for the Sub-Committee (see below).</p> <p>5. <u>Voting Rights</u></p> <p>In respect of the above functions, the co-opted Member is not entitled to vote in a meeting of the Sub-Committee on all matters within the Sub Committee's Terms of Reference.</p> <p>6. <u>Code of Conduct</u></p> <p>The co-opted Member agrees to abide by the Code of Conduct for Members as adopted by the CJC.</p> <p>7. <u>Approval</u></p> <p>The terms of this Co-option Agreement are agreed, and by signing Members confirm that they are not disqualified from being a co-opted member further to reg.9A of the North Wales Corporate Joint Committee (Wales) Regulations 2021</p>
---	---

Llofnod:
Signed:

Enw'r Aelod Cyfetholedig:
Co-Opted Member name:

Dyddiedig:
Dated:



CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

21 Mawrth 2025

TEITL: Bwrdd Busnes Ymgynghorol ac Ymgynghorwyr Anweithredol

AWDUR: Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno Cylch Gorchwyl corff ymgynghori newydd sector preifat ac i gyflwyno disgrifiadau rôl ar gyfer dau Ymgynghorydd Anweithredol newydd.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl a'r broses benodi fel y nodir yn **Atodiad 1** ar gyfer sefydlu Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd ar ôl trosglwyddo'r Cynllun Twf a dirprwyo'r broses weithredu i'r Prif Weithredwr Dros Dro.

2.2. Cymeradwyo'r disgrifiad rôl (**Atodiad 2**) ar gyfer y ddwy swydd Ymgynghorydd Anweithredol newydd ac awdurdodi'r Prif Weithredwr Dros Dro i gymryd pob cam angenrheidiol i gaffael ymgeiswyr i'w hargymell i'w penodi i Is-bwyllgor Lles Economaidd y CBC.

2.3. Dirprwyo i'r Prif Weithredwr Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yr awdurdod i wneud unrhyw fân newidiadau i'r Cylch Gorchwyl a disgrifiadau rôl mewn ymateb i unrhyw adborth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a'r DU cyn ei weithredu.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r model llywodraethu a fabwysiadwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni CTGC yn cynnwys corff ymgynghorol sector preifat. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn sicrhau bod y gofyniad hwn yn cael ei fodloni gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ôl amnewid y Cynllun Twf, yn ogystal ag ymateb yn uniongyrchol i argymhellion o adolygiadau sicrwydd diweddar.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Disgwylir i Gynllun Twf Gogledd Cymru a'r Swyddfa Rheoli Portffolio gael eu hamnewid ar 1 Ebrill 2025 yn amodol ar gytundebau gan bartneriaid y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Llywodraeth Cymru.

Bwrdd Busnes Ymgynghorol Newydd

4.2. Mae Bwrdd Cyflawni Busnes wedi bod ar waith ers dechrau Cynllun Twf Gogledd Cymru i ddarparu cyngor yn y sector preifat i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar y portffolio cyfan ac ar fuddsoddiadau prosiectau penodol cyn cymeradwyo achosion busnes.

- 4.3. Mae adolygiadau sicrwydd diweddar wedi gwneud argymhellion penodol ynghylch adolygu ac ail-lansio'r corff ymgynghorol hwn i sicrhau ei fod yn fwy cynrychioliadol o'r sector preifat yng ngogledd Cymru ac mae'r trosglwyddiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhoi'r cyfle hwn.
- 4.4. Mae'r cynnig ar gyfer y Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd ar gyfer grŵp ymgynghorol newydd sector preifat sydd â chylch gwaith ehangach ar draws holl swyddogaethau presennol y Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan gynnwys lles economaidd, trafnidiaeth a chynllunio. Bydd gan y bwrdd newydd ffocws sylweddol o hyd ar y Cynllun Twf, ond ystyrir bod cylch gwaith ehangach yn allweddol wrth gynnal ymgysylltiad â busnesau ledled y rhanbarth.

Ymgynghorwyr Anweithredol

- 4.5. Mewn ymateb i argymhelliad adolygiad sicrwydd arall i ystyried penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf a darparu arbenigedd a her fasnachol i'r Bwrdd, cynigir penodi dau Ymgynghorydd Anweithredol. Cynigir y dull hwn gan nad yw'n bosibl cyfethol Cyfarwyddwyr Anweithredol o fewn fframwaith y Cydbwyllgor Corfforedig.
- 4.6. Bydd yr Ymgynghorwyr Anweithredol yn unigolion sydd â phrofiad sector preifat a masnachol sylweddol i gefnogi a herio'r Is-bwyllgor Lles Economaidd a gweithio gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Cynigir y byddai'r ddau unigolyn hyn hefyd yn gweithredu fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd ac y byddent yn mynychu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd fel ymgynghorwyr.
- 4.7. **Mae Atodiad 2** yn amlinellu rolau'r swydd ar gyfer yr unigolion hyn a fydd yn cael eu penodi gan y Bwrdd yn dilyn proses gaffael i'w chytuno gyda'r Swyddog Monitro.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2025-26 ac mae hyn yn cynnwys darpariaeth i gefnogi Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd a dwy swydd Ymgynghorydd Anweithredol. Bydd y gyllideb hon yn cael ei throsglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ôl i'r Cynllun Twf gael ei ddiwygio ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 6.1. Mae penodi'r Ymgynghorwyr Anweithredol yn cael ei wneud mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad sicrwydd. Fel awdurdod lleol, mae'r CBC, yn yr un modd â'r Cynghorau, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau o ran pwys all fod yn aelodau neu'n aelodau cyfetholedig. Mae Rheoliad 9A o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn atal deiliaid swyddi cyflogedig a benodir gan y CBC (yn yr ystyr corfforaethol) rhag bod yn aelodau cyfetholedig. Nid oes swydd gyfwerth gyfatebol i "Gyfarwyddwr Anweithredol" y Cwmni.
- 6.2. Er mwyn ymateb i ofynion y Llywodraethau a phenodi i'r rolau hyn, mae'r model contract gwasanaethau arfaethedig yn cynnig y llwybr mwyaf priodol i sicrhau'r mewnbwn sector preifat sydd ei angen. Bydd y rolau hyn yn cael eu caffael yn unol â rolau Gweithdrefn Contract y CBC. Byddent yn gweithredu fel ymgynghorwyr i'r CBC mewn perthynas â'r Cynllun Twf ac yn gwasanaethu fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol. Fel y noda'r adroddiad, byddent hefyd yn ddarostyngedig i ofynion mewn perthynas â rheoli Gwrthdaro Buddiannau a chyfrinachedd yr un fath ag aelodau eraill y Bwrdd Busnes Ymgynghorol.

ATODIADAU:

- Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer y Corff Busnes Ymgynghorol
- Atodiad 2:** Rolau swydd ar gyfer Ymgynghorwyr Anweithredol

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro

“Rwyf wedi cael y cyfle i roi cyngor ar yr adroddiad a'i atodiadau. Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Gallaf gadarnhau cynnwys paragraff 5.1. Mae'r gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2025-26 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y Bwrdd Busnes Ymgynghorol a'r swyddi Ymgynghorwyr Anweithredol. Does gen i ddim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Uchelgais Gogledd Cymru

Cynnig Bwrdd Busnes Ymgynghorol

Statws a Phwrpas

Bydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol yn gwasanaethu fel corff cynghori, yn cynrychioli llais cyfunol busnesau a chyflogwyr ar draws Gogledd Cymru. Ei brif bwrpas yw darparu cyngor annibynnol, cefnogaeth, arweiniad a her adeiladol i Uchelgais Gogledd Cymru (ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd). Bydd y Bwrdd yn cydweithio â swyddogion y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) ar faterion perthnasol sy'n ymwneud â lles economaidd, trafndiaeth a chynllunio.

Nodau

Bydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol yn alinio ei waith gydag amcanion cyffredinol Uchelgais Gogledd Cymru, gan ganolbwyntio ar yrru llwyddiant rhanbarthol trwy flaenoriaethau a rennir.

Prif amcanion Uchelgais Gogledd Cymru yw:

- Adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.
- Adeiladu ar ein cryfderau rhanbarthol i roi hwb i gynhyrchedd, mynd i'r afael â heriau hirdymor a chael gwared ar rwystrau economaidd, gan gyflawni twf cynhwysol i bawb.
- Hyrwyddo twf graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy yn unol ag egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

Bydd y Bwrdd yn darparu'r isod:

- **Cyngor strategol:** Cynnig cyngor ac arweiniad strategol yn y sector preifat i Uchelgais Gogledd Cymru ar faterion sy'n ymwneud â thwf economaidd gan gynnwys lles economaidd, trafndiaeth, cynllunio a datblygu sgiliau yn y rhanbarth.
- **Adolygiad Prosiect a Buddsoddiad:**
 - Adolygu a herio cynigion prosiect a buddsoddi, gan gynnwys prosiectau'r Cynllun Twf, i sicrhau aliniad ag amcanion y cytunwyd arnynt a chyflawni buddion pendant i'r rhanbarth.
 - Canolbwyntio ar gysyniadau prosiectau, anghenion busnes/sector, a chyflawni/gwireddu buddion yn hytrach nag asesu ansawdd technegol achosion busnes.
- **Gosod Blaenoriaethau a Chefnogaeth Cyllido:** Cynorthwyo Uchelgais Gogledd Cymru i adnabod prosiectau blaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth ac archwilio ffynonellau cyllid posibl i gefnogi'r gwaith o'u cyflawni.
- **Buddsoddiad y Sector Preifat:** Darparu cyngor ar ddenu a throsoli buddsoddiad sector preifat i Gogledd Cymru, gan gynnwys hwyluso cyflwyniadau i ddarparu fuddsoddwyr a chreu cyfleoedd ar gyfer cydweithio.
- **Hyrwyddo ac Ymgysylltu:**
 - Cefnogi hyrwyddo mentrau presennol, megis y Cynllun Twf, a meithrin ymgysylltiad a chyfranogiad gan bob sector allweddol wrth ddatblygu a darparu mentrau rhanbarthol.
- **Gwerthuso Gwybodaeth am y Farchnad ac Effaith:**
 - Casglu a rhannu gwybodaeth yn annibynnol am y farchnad, tystiolaeth a dadansoddiad i lywio gwaith Uchelgais Gogledd Cymru.
 - Cyfrannu at fonitro cynnydd a gwerthuso effaith prosiectau a mentrau rhanbarthol.
- **Eiriolaeth:** Eirioli dros waith Uchelgais Gogledd Cymru o fewn rhwydweithiau proffesiynol a thu hwnt, gan ysgogi pob sianel briodol i godi proffil y rhanbarth a denu cyfleoedd.

Amllder Cyfarfodydd

Bydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol yn cyfarfod bob deufis, sy'n cyd-fynd ag amserlen yr Is-bwyllgor Lles Economaidd. Bydd pob cyfarfod arall yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb mewn lleoliad canolog yng Ngogledd Cymru. Bydd dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd yn cael eu cytuno ymlaen llaw drwy flaen gynllun 12 mis a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.

Os bydd angen, bydd cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal yn rhithiol.

Bydd rhaglenni yn amlinellu'r eitemau i'w trafod yn cael eu cytuno rhwng y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Cyfarwyddwr Portffolio a byddant yn cael eu dosbarthu i'r aelodau gan y Swyddfa Rheoli Portffolio heb fod yn hwyrach na thri diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod. (ac eithrio mewn achosion brys)

Ysgrifenyddiaeth

Darperir y rôl ysgrifenyddiaeth gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ar ran Uchelgais Gogledd Cymru.

Adrodd

Bydd Cadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol yn cyflwyno adroddiad bob dwy flynedd i'r CBC yn manylu ar gyflawniadau, heriau, materion ac awgrymiadau dros y cyfnod perthnasol.

Bydd barn y Bwrdd Busnes Ymgynghorol mewn perthynas â chynigion prosiect/buddsoddi ac unrhyw feysydd eraill o ymgynghori neu ymgysylltu penodol a wneir yn cael eu hystyried yn llawn gan Uchelgais Gogledd Cymru wrth wneud penderfyniadau.

Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Mae Uchelgais Gogledd Cymru am benodi dau Ymgynghorydd Anweithredol i weithredu fel ymgynghorwyr i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd. Cynigir bod y ddau unigolyn hyn yn gweithredu i ddechrau fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol.

Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn gweithio'n agos gyda Phrif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru, y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Is-bwyllgor Lles Economaidd, gan ddarparu cyngor perthnasol o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â phwrpas a chyfrifoldebau'r Bwrdd.

Yn eu rolau, bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cynrychioli barn a blaenoriaethau'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol i'r CBC gan arwain y fforwm wrth feithrin a chynnal perthnasoedd cryf a chydweithredol rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, ei Is-bwyllgorau a'r sector preifat.

Aelodaeth

Bydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol yn cynnwys tua 10-15 o aelodau a disgwylir iddo adlewyrchu amrywiaeth economi a phoblogaeth Gogledd Cymru. Dylai aelodau feddu ar safbwynt blaengar a meddu ar gysylltiadau da y tu hwnt i ranbarth Gogledd Cymru, gan eu galluogi i ddod ag arbenigedd gwerthfawr a buddsoddiad posibl i'r ardal. Caiff aelodau eu penodi ar delerau dwy flynedd, ac ni fydd unrhyw unigolyn (ac eithrio'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd) yn gwasanaethu am fwy na dau dymor yn olynol. Mae aelodaeth yn wirfoddol ac yn ddi-dâl.

Mae'r bwrdd yn gweithredu ar sail wirfoddol ac, ar y cyd, dylai'r aelodaeth:

- Gynrychioli'r sectorau allweddol o fewn economi Gogledd Cymru, gydag o leiaf un cynrychiolydd ar gyfer pob rhaglen Cynllun Twf.
- Darparu cydbwysedd rhwng cynrychiolwyr mentrau mawr a busnesau bach a chanolig (BBaCh).

- Cyflawni cynrychiolaeth ddaearyddol, gan sicrhau bod aelodau'n cael eu tynnu o bob rhan o Ogledd Cymru.
- Adlewyrchu demograffeg Gogledd Cymru, gan ymdrechu am aelodaeth amrywiol a chynhwysol.
- Cynnwys cynrychiolaeth o fentrau cymdeithasol, y trydydd sector/sector gwirfoddol.
- Cynnwys cynrychiolwyr o gyrff busnes rhanbarthol allweddol eraill.
- Cynnwys cynrychiolydd o'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.
- Cynnwys cynrychiolydd gwleidyddol o Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae aelodaeth ddangosol wedi'i nodi isod ochr yn ochr â'r broses benodi. Gellir diwygio hyn o bryd i'w gilydd gyda chytundeb yr is-bwyllgor Lles Economaidd.

Aelodaeth	Proses Benodi
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol	Penodwyd fel Ymgynghorwyr Anweithredol gan Uchelgais Gogledd Cymru/CBC.
Cynrychiolwyr Uchelgais Gogledd Cymru/CBC (x2)	Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (i'w gadarnhau)
Cynrychiolwyr busnes (x8)	4 cynrychiolydd i'w penodi drwy'r broses recriwtio gyhoeddus gan Brif Weithredwr y CBC. 4 cynrychiolydd i'w penodi'n uniongyrchol gan Brif Weithredwr y CBC
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (x2)	Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac un cynrychiolydd busnes enwebedig o'r bartneriaeth i'w benodi gan Brif Weithredwr y CBC.
Cyrff busnes rhanbarthol allweddol eraill (x3) e.e. Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Siambr Fasnach Gorllewin Sir Gaer a Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi (i'w gadarnhau)	Enwebiadau i'w gwahodd ac yna eu penodi gan Brif Weithredwr y CBC

Ar gyfer y cynrychiolwyr a benodir drwy'r broses recriwtio gyhoeddus, bydd hyn yn cynnwys galwad agored am geisiadau a gofynnir am CVs gan ymgeiswyr addas. Bydd y rhain yn cael eu hasesu gan Uchelgais Gogledd Cymru yn erbyn y meini prawf uchod a byddant yn ystyried unrhyw fylchau ar y Bwrdd ar adeg recriwtio.

Bydd pob penodiad, ar wahân i'r rhai a benodir/enwebir gan y CBC fel y nodir uchod, yn cael eu gwneud gan Brif Weithredwr y CBC. Wrth wneud y penodiadau hyn, bydd Prif Weithredwr y CBC yn ymgynghori ag Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) y Cynllun Twf, y Cyfarwyddwr Portffolio, Swyddog Monitro yn ogystal â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol.

Bydd gofyn i aelodau ddiweddarau eu manylion gydag Uchelgais Gogledd Cymru bob chwarter, a gellir terfynu aelodaeth pan fo amgylchiadau unigolion yn newid neu'n gwrthdaro neu os bydd mater sylweddol sy'n effeithio ar enw da Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei ddatgelu.

Cod Ymddygiad a Chyfrinachedd

Bydd gofyn i holl aelodau'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol gytuno i ddatganiad Cod Ymddygiad a Chyfrinachedd sy'n nodi disgwyliadau'r Bwrdd fel cynrychiolwyr Uchelgais Gogledd Cymru a sut i ymdrin ag unrhyw wybodaeth gyfrinachol y gellir ei rhannu â nhw yn ystod eu hamser ar y Bwrdd. Mae'r model hwn ar waith ar hyn o bryd ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Busnes presennol.

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol yn rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer swyddogaeth llesiant economaidd Uchelgais Gogledd Cymru. Disgwylir y bydd gan bob aelod enw da ac y bydd yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn cynnal enw da Uchelgais Gogledd Cymru, ei aelodau a'i bartneriaid ac nad ydynt yn dwyn anfri arnynt.

Bydd gofyn i holl aelodau'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol gytuno i ddatganiad Polisi Gwrthdaro Buddiannau a Chyfrinachedd a chydymffurfio ag ef, sy'n nodi disgwyliadau'r Bwrdd fel cynrychiolwyr Uchelgais Gogledd Cymru a sut i ymdrin ag unrhyw wybodaeth gyfrinachol y gellir ei rhannu â nhw yn ystod eu hamser ar y Bwrdd. Mae'r model hwn ar waith ar hyn o bryd ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Busnes presennol.

Cyllideb

Bydd cyllideb gyfyngedig yn cael ei chytuno'n flynyddol rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn seiliedig ar gynnig y cytunwyd arno i gefnogi unrhyw ddigwyddiadau neu ddarnau o waith y gallai'r Bwrdd fod wedi'u comisiynu yn unol â'r cylch gorchwyl. Bydd angen cytuno ymlaen llaw ar unrhyw waith i'w gomisiynu gyda'r Cyfarwyddwr Portffolio a bydd yn cael ei gaffael neu ei gomisiynu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ar ran y Bwrdd Busnes Ymgynghorol.

Uchelgais Gogledd Cymru

Ymgynghorydd Anweithredol

Y Cyfle

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn recriwtio dau Ymgynghorydd Anweithredol o'r sector preifat i ddarparu cyngor strategol a her i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a **swyddogaeth lles economaidd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), yn benodol drwy gefnogaeth i'n his-bwyllgor Lles Economaidd a'n Bwrdd Busnes Ymgynghorol.**

Mae'r rolau hyn yn cynnig cyfle unigryw i gyfrannu at gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus a rhaglenni buddsoddi rhanbarthol trawsnewidiol eraill gyda'r nod o greu economi fywiog a ffyniannus.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Uchelgais Gogledd Cymru wrth i gynllunio a chyflawni'r Cynllun Twf drosglwyddo i'r CBC, gyda gwaith prosiect y Cynllun Twf yn parhau ac yn cyflymu ei gyfnod cyflawni, a'r cadarnhad a ragwelir o Borthladd Rhydd, ynghyd â chadarnhad o gefnogaeth gan y Llywodraeth i gyflawni Parth Buddsoddi Wrecsam/Sir y Fflint yn ystod 2025.

Er mwyn helpu i yrru'r momentwm hwn, mae'r CBC yn chwilio am ddau unigolyn profiadol iawn sydd â phrofiad yn y sector preifat i ddarparu cefnogaeth strategol, herio rhagdybiaethau, a gwasanaethu fel eiriolwyr dros Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd yr unigolion hyn yn ganolog i'n helpu i wireddu ein gweledigaeth o greu economi fywiog, gynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.

Disgrifiad Rôl

Disgwylir i'r Ymgynghorwyr Anweithredol ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn:

Is-bwyllgor Lles Economaidd

- Gweithredu fel Ymgynghorwyr i'r is-bwyllgor Lles Economaidd.
- Darparu mewnbwn ac arbenigedd strategol i raglen waith lles economaidd y CBC, gan gynnwys datblygu strategaeth, perfformiad a rheoli risg, cyflawni Cynllun Twf ac asesu achosion busnes.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

- Gweithio ar y cyd ag Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) y Cynllun Twf, y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i asesu risgiau, mynd i'r afael â materion a nodi cyfleoedd i gyflymu'r broses o gyflawni'r Cynllun Twf.
- Herio rhagdybiaethau a wnaed gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ar risgiau prosiect, amserlenni ac effaith i gefnogi'r gwaith o gyflawni.
- Cyfrannu at adnabod prosiectau buddsoddi posibl eraill yn y rhanbarth.

Bwrdd Busnes Ymgynghorol

- Gwasanaethu fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol
- Cynrychioli barn y Bwrdd Busnes Ymgynghorol yn yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

Ymgysylltu ac Eiriolaeth

- Ymgysylltu â noddwyr prosiectau, sefydliadau partner a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i hwyluso'r gwaith o gyflawni prosiectau cyfredol a nodi cyfleoedd buddsoddi newydd.
- Hyrwyddo Uchelgais Gogledd Cymru a chyfleoedd rhanbarthol drwy rwydweithiau presennol a chwilio am gyfleoedd i wella ac ehangu rhwydweithiau.

Gofynion Ymgeiswyr

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf isod.

- Hanes amlwg a chyfredol o arweinyddiaeth busnes sylweddol, yn ddelfrydol yn ardal Gogledd Cymru, neu gyda gwybodaeth a dealltwriaeth amlwg o'r diwydiannau allweddol a'r cyfleoedd economaidd.
- Cysylltiadau da gyda chysylltiadau sefydledig, gweithredol â busnesau eraill a/neu Lywodraethau Cymru a'r DU, gyda'r gallu i ddylanwadu ac eirioli dros Uchelgais Gogledd Cymru ar y lefelau uchaf.
- Bod â statws ac enw da.
- Gweledigaeth strategol glir ynghyd â sgiliau cyfathrebu ac arweinyddiaeth ardderchog.
- Yn ddelfrydol, bydd angen i'r unigolyn llwyddiannus gael:
 - Awdurdod personol cryf, *gravitas*, a'r gallu i ysbrydoli hyder.
 - Hanes wedi'i brofi o gyflawni'n llwyddiannus ac arbenigedd mewn trafodaethau masnachol.
 - Gallu busnes uchel a'r gallu i lywio amgylcheddau busnes cymhleth.
 - Profiad ar lefel uwch sylweddol mewn busnes sector preifat.
 - Profiad o weithio mewn partneriaeth cyhoeddus/preifat a gallu wedi'i brofi i adeiladu partneriaethau sy'n gyrru gwerth.
 - Y gallu i feithrin cydweithio ar draws partneriaid a sectorau, rheoli perthnasoedd â rhan-ddeiliaid amrywiol yn rhagweithiol er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ymrwymiad.
 - Rhwydweithiau personol a phroffesiynol helaeth.
 - Dealltwriaeth gref o economi Gogledd Cymru.

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus ymrwymo i Bolisiâu Gwrthdaro Buddiannau a Chyfrinachedd.

Ymrwymiad Amser a Chydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r rhain yn swyddi ymgynghori â thâl gyda phegyn tâl o hyd at £50,000 y flwyddyn gan gynnwys treuliau ac yn amodol ar gyfradd diwrnod y cytunwyd arno a nifer o ddyddiau'r mis dros gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd.

Mae disgwyl y bydd yr Ymgynghorwyr Anweithredol penodedig yn gallu ymrwymo cyfwerth â 2-5 diwrnod y mis (i'w gytuno ar ôl penodi), gydag argaeledd ar gyfer dyddiadau'r Bwrdd ac Is-bwyllgor.

Disgwylir i'r ymrwymiad amser gwmpasu'r gweithgareddau a nodir yn y disgrifiad rôl.

Sut i wneud cais

Anogir datganiadau o ddiddordeb trwy gysylltu â'r SRO a'r Cyfarwyddwr Portffolio.

[Noder: Mae'r broses gaffael ar gyfer penodi'r ymgynghorwyr hyn i'w chadarnhau gyda'r Swyddog Monitro.]

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

21 Mawrth 2025

TEITL: Rheolau Gweithdrefn Contract

AWDUR: Iwan Evans, Swyddog Monitro

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Mabwysiadu'r newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contract a bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.
- 1.2. Dirprwyo i'r Swyddog Monitro y pŵer i wneud y mân addasiadau a ganlyn i'r Cyfansoddiad: (a) diwygiadau cyfreithiol neu dechnegol nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar y Cyfansoddiad (b) newidiadau y mae'n ofynnol eu gwneud i gael gwared ag unrhyw anghysondeb, amwysedd neu wall teipograffig (c) geiriad er mwyn i unrhyw benderfyniad gan y CBC neu ei is-bwyllgorau neu swyddog sy'n arfer pwerau dirprwyedig ddod i rym (d) newidiadau sy'n ofynnol i adlewyrchu unrhyw newidiadau i deitlau swyddi neu rôl.

2. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

- 2.1. Mabwysiadodd y CBC ei Reolau Gweithdrefn Contract ym mis Mai 2023. Ers hynny mae Deddf Caffael 2023 wedi dod i rym ar 24 Chwefror 2025, ynghyd â chyfrifoldebau a dyletswyddau caffael penodol ar sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn sgil Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Yn wyneb y ddeddfwriaeth ddiweddar hon mae'r Rheolau Gweithdrefn Contract wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau ac mae angen eu mabwysiadu yng Nghyfansoddiad y CBC.

3. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 3.1. Ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth y DU wedi cynnal adolygiad o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chaffael yn y sector cyhoeddus, sydd wedi arwain at Ddeddf Caffael 2023 yn dod i rym. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) sy'n rhoi mwy o gyfrifoldebau a dyletswyddau ar sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ymwneud â chaffael, yn cynnwys y CBC.
- 3.2. Pwrpas y Rheolau Gweithdrefn Contract yw sefydlu'r broses y dylai'r CBC ei dilyn wrth ymgymryd ag ymarferiad caffael, ac yn benodol ymarferiad caffael nad yw'n dod o dan y Ddeddf neu Reoliadau. Mae'r Rheolau'n egluro'r gwahanol ddulliau a phryd y dylid eu defnyddio. Mae angen diweddarau'r Rheolau er mwyn adlewyrchu'r newid mewn deddfwriaeth caffael ac i sicrhau cydymffurfiaeth drwy adolygu prosesau caffael y CBC. Mae hefyd yn gyfle i sicrhau bod y Rheolau Gweithdrefn Contract yn ddigon hyblyg i alluogi swyddogion i ymgymryd ag arferion

caffael yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol. Yr egwyddorion a'r amcanion y mae'n rhaid eu cael yn sail i ddyfarnu contract cyhoeddus yw bod rhaid i awdurdodau sy'n contractio roi sylw i gyflawni gwerth am arian, sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd, tryloywder a gweithredu'n gywir.

Y pwyntiau allweddol yw:

- Newidiadau i'r derminoleg i adlewyrchu'r hyn sydd yn y Ddeddf
- y trothwyon mewnol yn aros yr un fath
- newid i'r gweithdrefnau'n unol â dyfarnu agored, cystadleuol hyblyg ac uniongyrchol
- ystyriaeth newydd i werth cymdeithasol, ond y pwysau i'w gymhwyso heb ei gynnwys
- Newid i'r broses cyfnod segur a hysbysu ar gyfer contractau gwerth mwy na £30k
- O leiaf dau o bobl gydag arbenigedd perthnasol ar y tîm gwerthuso
- Y dewis i ddyfarnu contract wedi newid o'r tendr sydd fwyaf manteisiol yn economaidd, i'r tendr mwyaf manteisiol

- 3.3 Drwy sicrhau bod rheolaeth briodol mewn unrhyw ymarferiad caffael mae'n sicrhau gwerth am arian i'r CBC, ac wrth adolygu a newid y Rheolau mae'r CBC yn lleihau'r risg o her gyfreithiol am fetu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, neu feirniadaeth gan archwilwyr a rheoleiddwyr.

ATODIADAU:

Atodiad 1 – Rheolau Gweithdrefn Contract

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Mae angen diweddarau'r Rheolau Gweithdrefn Contractau er mwyn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol ddiweddaraf. Rwyf yn cefnogi'r Penderfyniad a Geisir o safbwynt iawn weinyddiad ariannol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

ADRAN 10

10. RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT

10.1 CYFLWYNIAD

- 10.1.1 Caffael yw'r broses lle mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ("CBC") yn rheoli'r Gwaith o gaffael ei holl Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith. Ar ôl adnabod angen, mae'n cynnwys ystyried opsiynau, y broses gaffael ei hun a'r dasg dilynol o reoli ac adolygu'r contractau.
- 10.1.2 Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn ("CPRs") yn ymdrin â gweithgareddau caffael y CBC nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Caffael 2023 ("Deddf") a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024/782 ("Rheoliadau"). Mae cydymffurfio â'r Ddeddf a'r Rheoliadau yn ofyniad cyfreithiol llym ar y CJC, ac nid yw'n agored i'r CBC hepgor cydymffurfiaeth â'r rhain ar gyfer caffael.
- 10.1.3 Mae'r CPRs hyn yn berthnasol i weithgareddau caffael sydd yn cychwyn ar neu ar ôl 24 Chwefror 2025. Bydd unrhyw gontractau a roddwyd o dan ddeddfwriaeth flaenorol yn parhau i gael eu rheoli o dan y ddeddfwriaeth honno hyd nes y bydd y contract yn peidio â bodoli.
- 10.1.4 Mae caffael gan y CBC yn cael ei lywodraethu gan y Ddeddf a'r Rheoliadau. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i holl gaffael a chontractio'r CBC gael eu cynnal yn dryloyw, yn deg ac mewn modd dim gwahaniaethu. Os bydd gofynion statudol neu gyfreithiol eraill yn uwch na'r gofynion a gynhwysir yn y CPRs hyn, yna bydd statud yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth o fewn y CPRs hyn.
- 10.1.5 Mae'r Ddeddf yn nodi'r amcanion canlynol ar gyfer caffael contractau: sicrhau gwerth am arian, sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd, rhannu gwybodaeth at ddiben caniatáu i gyflenwyr ac eraill ddeall polisïau a phenderfyniadau caffael yr awdurdod, a gweithredu a chael eu gweld i weithredu, yn onest, y ("Amcanion Caffael").
- 10.1.6 Yn ogystal, bydd y CBC yn ystyried rhwystrau cyfranogiad penodol a allai wynebu mentrau maint bach a chanolig ac yn ystyried a ellir dileu neu leihau rhwystrau o'r fath.
- 10.1.7 Yn ei holl weithgareddau caffael, rhaid i'r CBC gydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol o ddim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, tryloywder, cyd-gydnabyddiaeth a chyfranoldeb, ac mae'r rheolau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth â hynny.

10.2 DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU

10.2.1 Mae'r diffiniadau a ganlyn yn berthnasol yn y Rheolau hyn:

- Mae **Swyddogion Awdurdodedig** yn golygu deiliad unrhyw swydd a enwir yn y Cynllun Dirprwy fel rhywun sydd â phwerau a dyletswyddau dirprwyedig o ran yr ymarferiad caffael dan sylw.
- **Prif Swyddog** yn golygu unrhyw swyddog yn y categorïau canlynol o swyddog, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth Adran.
- Mae **Contract** yn golygu unrhyw ffurf o gytundeb (gan gynnwys, yn ddi-gyfyngiad, archebion prynu swyddogol) ar gyfer cyflenwi Nwyddau, darparu Gwasanaethau neu wneud Gwaith.

- Mae **Contractwr** yn golygu unrhyw contractwr, cyflenwr neu ddarparwr y mae'r CBC yn rhwymo i Gontract ag ef er dibenion gwneud gwaith, darparu gwasanaethau neu gyflenwi nwyddau.
- Mae **Cofrestr Contract Corfforaethol** yn golygu rhestr o gontractau a roddir gan y CBC.
- Mae **Fframweithiau** yn golygu cytundeb ag un neu fwy o Gontractwyr, er diben sefydlu'r telerau (yn enwedig o ran pris a swm), sy'n llywodraethu contract neu gontractau i'w gwobrwyo yn ystod y cyfnod y mae'r cytundeb fframwaith yn berthnasol iddo.
- Mae **Nwyddau** yn golygu'r holl nwyddau, cyflenwadau, sylweddau a deunyddiau y mae'r CBC yn eu prynu, eu llogi neu yn eu cael mewn unrhyw ffordd arall.
- **Grant a Grantiau** swm o arian a delir neu sydd i'w dalu gan y CBC i drydydd parti, a lle nad yw'r CJC angen i'r sawl sy'n darparu'r grant i ddarparu unrhyw wasanaethau, nwyddau neu wneud unrhyw waith i'r CBC er budd uniongyrchol y CBC. Gall y Grant fod yn amodol (h.y. rheidrwydd i wario'r Grant mewn dull penodol, i gyfrif am y gwariant ac i ad-dalu'r Grant os yw amodau'r Grant yn cael eu torri).
- **Mae ITT** yn golygu gwahoddiad i gyflwyno tendr.
- Mae **Contract 'Light Touch'** yn golygu contract arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau penodol eraill a restrir yn Atodlen 1 y Rheoliadau.
- Mae **Caffael** yn golygu'r broses y mae'r CBC yn ei defnyddio i reoli'r gwaith o gaffael ei holl nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'n cynnwys adnabod yr angen, ystyried yr opsiynau, y broses gaffael ei hun a'r dasg ddilynol o reoli ac adolygu'r contractau.
- Mae **Rheolwr Caffael** yn golygu Rheolwr Caffael y CBC neu unrhyw swyddogion o dan ei oruchwyliaeth neu reolaeth sy'n cael pwerau dirprwyedig i gwblhau unrhyw rwymedigaethau, dyletswyddau neu weithgareddau sydd angen iddynt eu perfformio dan y Rheolau hyn neu i weithredu yn eu habsenoldeb.
- Mae **Proses Caffael** yn golygu'r broses gaffael sy'n rhedeg dros y cyfnod cyfan, o adnabod yr anghenion, arfarnu'r opsiynau, dewis cyflenwyr, dyfarnu a rheoli contractau drwodd i ddiwedd y contract neu ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased, neu warediad yr ased.
- Mae **Rheolau** hyn yn golygu'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn.
- Mae **Gwasanaethau** yn cynnwys yr holl wasanaethau y mae'r CBC yn eu prynu neu yn eu cael fel arall, gan gynnwys cyngor, gwaith ymgynghorol arbenigol, asiantaeth, staff, ac ati.
- Mae **Rheoliadau** yn golygu Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 ac unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohono.
- **Tendrwr / Tendrwr** - Unigolyn, unigolion, partneriaethau, cwmnïau neu gyrff eraill a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbrisiau/tendrau, prisiau am ddarparu gwasanaethau i'r CBC, cyflenwi nwyddau neu wneud gwaith.
- Mae **Amrywiad ac Amrywiadau** yn golygu unrhyw newidiadau i gontract, gan gynnwys ychwanegiadau, hepgoriadau, amnewidion, amrywiadau neu newidiadau o unrhyw natur arall.
- Mae **Gwaith** yn cynnwys gwaith adeiladu a thrwsio newydd mewn perthynas ag asedau ffisegol (adeiladau, ffyrdd, ac ati), gan gynnwys yr holl weithgareddau hynny sy'n cynnwys gwaith er dibenion y Rheoliadau.
- Mae **Ysgrifenedig** yn golygu mewn ysgrifen neu ar ffurf electronig "ysgrifenedig".

- 10.2.2 Mae'r holl werthoedd y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn yn cynnwys V. A. T.
- 10.2.3 Bydd unrhyw anghydfod ynghylch dehongliad y Rheolau hyn yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Monitro am ddatrasiad.
- 10.2.4 Bydd y Rheolau hyn yn cael eu darllen ar y cyd â Chyfansoddiad y CBC yn ei gyfanrwydd ac yn benodol Rheolau Gweithdrefn Ariannol y CBC , y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw.
- 10.2.5 Bydd y Rheolwr Caffael yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r Rheolau hyn o leiaf bob dwy flynedd a rhoi gwybod i'r Adran Gyfreithiol am unrhyw newidiadau sydd eu hangen.
- 10.2.6 Bydd diwygiadau i Drothwyon Statudol yn cael eu hymgorffori yn y Rheolau hyn fel mater o achos.

10.3 CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU HYN

- 10.3.1 Rhaid dilyn y Rheolau hyn wrth ymdrin ag unrhyw Gaffael CBC ac eithrio'r Caffaeliadau hynny a materion eraill y cyfeirir atynt yn Rheol 17.4.
- 10.3.2 Rhaid i bob ymarferiad Caffael y mae'r CBC yn ei wneud neu unrhyw barti arall ar ei ran gydymffurfio â
- (a) yr holl ddarpariaethau statudol perthnasol;
 - (b) lle'n berthnasol, y Rheoliadau;
 - (c) Cyfansoddiad y CJC;
 - (d) amcanion a pholisïau strategol y CBC, gan gynnwys y Strategaeth Caffael Corfforaethol.
 - (e) Polisi Caffael Cynaliadwy'r CBC; ac
 - (f) y canllawiau ar Safle Mewnrwyd yr Uned Gaffael.
- 10.3.3. Gall y Rheolwr Caffael o bryd i'w gilydd gyflwyno canllawiau caffael. Rhaid i Brif Swyddogion sicrhau bod gweithwyr yn eu Gwasanaeth yn ymwybodol o ganllawiau o'r fath ac fe ddylent sicrhau cydymffurfiaeth.
- 10.3.4 Gall unrhyw fethiant gan swyddog i gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth o'r Rheolau hyn arwain at gamau disgyblu.

10.4 CONTRACTAU EITHRIEDIG

- 10.4.1 Eithriadau yw lle mae'r CPRs yn cael eu hatal yn llwyr. Mae'r contractau canlynol wedi'u heithrio o ofynion y CPRs hyn:
- i. Prynu mewnol neu ddarpariaeth gwasanaeth;
 - ii. Trefniadau fertigol, h.y. contract cyhoeddus a ddyfernir gan Gyngor i berson cyfreithiol a reolir gan y CBC ac sy'n cyflawni o leiaf 80% o'i weithgareddau ar gyfer y CBC;
 - iii. trefniadau llorweddol, lle mae dau neu fwy o awdurdodau contractio wir yn cydweithredu â'i gilydd i fodloni rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus y mae pob un yn ymddiriedwyd i'w cyflawni;
 - iv. contractau cyfleustodau rhwng cyfleustodau a menter ar y cyd perthnasol y mae'r cyfleustodau hwnnw'n barti iddi, lle ffurfiwyd y fenter ar y cyd er

mwyn cyflawni'r gweithgaredd cyfleustodau hwnnw am o leiaf dair blynedd ac mae'r partïon i'r fenter ar y cyd wedi'u hymrwymo, trwy gytundeb ysgrifenedig i barhau i fod yn bartïon i'r fenter ar y cyd am gyfnod o dair blynedd ar ôl dyddiad y cytundeb hwnnw;

- v. Contractau sy'n ymwneud yn unig â chaffael tir, adeiladau neu unrhyw waith cyflawn arall yn unig (h.y. strwythur gweithredol sy'n deillio o gyflawni gwaith), neu o ddiddordeb mewn neu dros unrhyw un ohonynt (ac eithrio cytundebau datblygu);
- vi. Contractau ar gyfer caffael, datblygu, cynhyrchu neu gydgyhyrchu deunydd a fwriedir i'w ddarlledu (mewn unrhyw fodd) gan awdurdod contractio i'r cyhoedd;
- vii. Contractau i hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyfathrebu electronig i'r cyhoedd (o fewn ystyr a.32 o Ddeddf Cyfathrebu 2003);
- viii. contractau ar gyfer darparu i awdurdod contractio cyflafareddu, cyfryngu neu gymodi neu wasanaethau tebyg eraill;
- ix. contractau ar gyfer darparu Gwasanaethau Cyfreithiol Eithriedig;
- x. gwasanaethau ariannol – contractau ar gyfer benthyca arian mewn unrhyw arian i awdurdod contractio;
- xi. contractau cyflogaeth neu gontractau'r gweithiwr;
